# *GWERTHUSIAD O'R RHAGLEN CYMUNEDAU@EI GILYDD*

***ADRODDIAD TERFYNOL***

***Medi 2008***

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cyflwyniad

Hwn yw adroddiad terfynol gwerthusiad tymor hir o'r Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd a gomisiynwyd yn 2006 gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn ddogfen sy'n sefyll ar ei thraed ei hunan, sy'n hygyrch i ddarllenwyr na welodd yr adroddiadau blaenorol. Mae'n rhoi gwerthusiad crynodol o'r Rhaglen er, fel canlyniad i benderfyniad i ymestyn y Rhaglen i fis Rhagfyr 2008, nid oedd yr alldro terfynol ar gael adeg ysgrifennu.

## Cefndir

Mae "cynhwysiant digidol" yn broses sy'n anelu i sicrhau mynediad mwy cyfartal i fanteision posibl Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i'r grwpiau hynny a fedrai fel arall gael eu heithrio am resymau economaidd, diwylliannol, daearyddol neu ddiwylliannol. Nod y Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd oedd cefnogi cynhwysiant digidol unigolion a chymunedau o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru drwy weithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (drwy nifer o "Froceriaid Cymunedol", a reolid yn ganolog ond a leolwyd mewn gwahanol rannau o Gymru) i ddatblygu prosiectau ac ymagweddau at gynhwysiant digidol a thrwy ariannu prosiectau o'r fath drwy Gronfa Grantiau. Ariannwyd y Rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ond fe'i rheolwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Dyrannwyd cyllideb o £9.565 miliwn i ddechrau i'r Rhaglen am y cyfnod hyd fis Mehefin 2008, ond cynyddwyd hyn yn ddilynol i £10.457 miliwn, ynghyd â datblygu'r Rhaglen i fis Rhagfyr 2008.

Seiliwyd y gwerthusiad ar ddeuddeg astudiaeth achos, naw'n edrych ar weithgaredd mewn ardaloedd unigol Cymunedau yn Gyntaf a thair yn seiliedig ar brosiectau graddfa cymharol fawr. Bu astudiaethau achos hefyd mewn tair ardal "grŵp rheoli" - cymunedau gyda lefelau cymharol uchel o amddifadedd ond nad oedd yn gymwys am Cymunedau yn Gyntaf ac felly Cymunedau@Ei Gilydd. Roedd y rhaglen waith yn cynnwys ymchwil desg yn ymwneud ag ardaloedd yr astudiaethau achos a hefyd y Rhaglen yn ei chyfanrwydd a chyfweliadau (mewn llawer achos, ar ddau neu dri achlysur gwahanol yn ystod dwy flynedd y gwerthusiad) gyda:

- 52 o randdeiliaid yn ardaloedd yr astudiaethau achos a'r grwpiau rheoli (Broceriaid, Cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf a chynrychiolwyr sefydliadau lleol allweddol eraill).
- 45 o unigolion yn ymwneud â rheoli neu gyflenwi cyfanswm o 39 o brosiectau Cronfa Grantiau.
- 78 "buddiolwr" 19 prosiect Cronfa Grantiau.
- 22 o "randdeiliaid canolog" (staff Canolfan Cydweithredol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac aelodau eraill Grŵp Ymgynghorol y Rhaglen).

## Canfyddiadau

Nid oes fawr o amheuaeth fod Cymunedau@Ei Gilydd mewn llawer ffordd wedi llwyddo mewn dull nad oedd ychydig iawn yn ei ddisgwyl ar y dechrau sy'n hynod o gofio am yr amserlen cymharol fyr y bu'n gweithredu ynddo.

Llwyddodd y Rhaglen i ddatblygu Cronfa Grant wedi'i hwyluso, wedi'i seilio o amgylch yr hyn a elwir yn fodel Brocer (lle mae staff a gyflogir gan y Rhaglen yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu syniadau prosiect), a gyflwynodd fwy na 200 o brosiectau ac a lwyddodd i wario mwy na £7 miliwn heb symud ymaith o'r pwyslais gwreiddiol ar gefnogi prosiectau cymunedol bychan. Er bod gan grwpiau a ariannwyd beth beirniadaeth o'r hyn a dybient oedd yn fiwrocratiaeth yn ymwneud â'r Rhaglen (yn neilltuol yn nhermau'r prosesau ariannol), roedd y rhan fwyaf yn werthfawrogol iawn o rôl y Broceriaid ac yn teimlo fod hwn yn fodel ar gyfer cyllidwyr eraill.

Mae llawer o'r prosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Grantiau wedi cynnig cyfleoedd newydd yn nhermau mynediad i TGCh ac at y sgiliau a'r hyder i'w ddefnyddio i unigolion na chawsant fel arall fawr o gysylltiad â thechnoleg o'r fath a bu cyfuniad da rhwng prosiectau yn cynnig cyfleusterau galw heibio ar agor i'r gymuned a phrosiectau mwy blaengar yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gymhwyso TGCh i'w gweithgareddau craidd, gan felly ysgogi diddordeb aelodau unigol mewn technolegau digidol fel canlyniad.

Ymddengys fod y rhan fwyaf o brosiectau wedi cyflawni eu hamcanion gwreiddiol a bod rheolaeth dyn iawn ar y Rhaglen wedi cadw tanwariant yn isel. Mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu lefel gymharol uchel o ychwanegedd yn nhermau prosiectau Cronfa Grant a gyflwynir a hefyd o fuddiolwyr unigol yn cynyddu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o TGCh a fyddai fel arall wedi cael anhawster i wneud hynny. Os oes gan ffocws cryf ar bobl hŷn, yr ymddengys iddo fod yn nodwedd llawer o brosiectau, oblygiadau yn nhermau cyfyngu effaith bosibl y Rhaglen yn nhermau mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag anweithgaredd economaidd, mae'n clymu gyda thystiolaeth gref mai pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o fod wedi eu hallgau'n ddigidol ac, fel canlyniad, yn debygol o ddioddef yn nhermau mynediad i wasanaethau a gostyngiad yn eu hansawdd bywyd.

Mae ymagwedd y Rhaglen yn cyd-fynd yn dda gyda syniadau sy'n datblygu am arfer da mewn hyrwyddo cynhwysiant digidol yn y Deyrnas Unedig a mannau eraill, er iddo gael ei ddatblygu cyn llawer o'r syniadaeth hon. Mae Cymunedau@Ei Gilydd hefyd wedi llwyddo i hyrwyddo ymwybyddiaeth a diddordeb ym mater cynhwysiant digidol ar lefel polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru - er (hyd yma) heb lawer o ymdreiddiad yn nhermau addysg a sgiliau.

Ar yr un pryd, ymddengys yn glir fod cyflenwi Cronfa Grantiau o faint sylweddol fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol (gyda'r cyllid wedi tyfu o'r £5.05 miliwn a fwriadwyd yn wreiddiol i £7.44 miliwn) wedi mynd â llawer iawn o ymdrech a fedrai fod wedi gostwng effeithlonrwydd yr hyn oedd yn Rhaglen uchelgeisiol mewn rhai ffyrdd eraill. Yn neilltuol, cafodd y Broceriaid lai o amser i weithio gyda rhanddeiliaid lleol arall i gynyddu eu hymrwymiad gyda gweithgareddau cynhwysiant digidol a llai o amser i helpu i gryfhau rhwydweithio'r sector gwirfoddol a chymunedol o fewn ardaloedd targed ar y materion hyn, ac eithrio cydweithio'n llifo'n uniongyrchol iawn allan o weithgaredd y Gronfa Grantiau. Bu weithiau dueddiad i wneud pethau *ar ran* Grwpiau a ariennir (nid yn lleiaf yn nhermau ymdopi gyda disgyblaeth cyllid allanol) yn hytrach na'u galluogi i ennill y sgiliau i wneud hynny eu hunain. Mae'n debyg na fu'r cynnydd mewn cadw a lledaenu arfer da a dysgu o brosiectau Cronfa Grantiau mor helaeth ag y medrai fod wedi bod.

Ymhellach – ac yn ganlyniad anochel dyluniad Rhaglen gyda'i phwyslais ar weithio o'r gwaelod i fyny – bu amrywiaeth eang o wahanol brofiadau mewn gwahanol

ardaloedd, gyda'n hardaloedd astudiaeth achos yn awgrymu y gall y Rhaglen mewn gwirionedd fod wedi atgyfnerthu'r bwlch rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gyda sector gwirfoddol a chymunedol egniol ac ymrwymedig a rhai lle'r oedd y seilwaith gwirfoddol a chymunedol yn gyfyngedig. Gall amserlenni cyfyngedig y Rhaglen hefyd fod wedi golygu na chafodd rhai prosiectau ddigon o amser i wir ymsefydlu, ac mae hefyd dystiolaeth o ddiffyg ffocws ar lwybrau dilyniant ar gyfer unigolion sydd eisiau symud ymlaen tu hwnt i'r cyfle *"blasu"* y medrent fod wedi ei gael o ymrwymiad gyda phrosiect Cronfa Grantiau. Yn olaf, oherwydd y ffordd y sefydlwyd y Rhaglen, mae diffyg data ystyrlon i esbonio llwyddiannau'r Rhaglen.

Er y *cafeatau* hyn, ein casgliad yw bod y Rhaglen i raddau helaeth wedi cyflawni tri o'r pedwar amcan a nodwyd (yn nhermau datblygu *"cymunedau sy'n medru manteisio ar TGCh",* darparu *"strwythurau gwybodaeth a chymorth cenedlaethol a lleol"* a symud tuag at *"sector cymunedol sy'n medru manteisio ar TGCh")* ac mae'n amlwg wedi parchu'r egwyddorion sylfaenol a ddynodwyd ar y cychwyn, yn neilltuol, gefnogi darpariaeth TGCh cymunedol newydd lle'r oedd angen, ond gan weithio gyda darpariaeth bresennol y gymuned lle'n bosibl.

Oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Rhaglen i olynu Cymunedau@Ei Gilydd - rhywbeth y credwn y mae llawer o gyfiawnhad drosto yn ôl y dystiolaeth a welsom - gwnawn gyfres o argymhellion yng nghyswllt y ddarpar Raglen hon ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag argymell nifer o gamau gweithredu yn y tymor byrrach, yn cynnwys:

- cynyddu ymdrechion i sicrhau fod archif gynhwysfawr a fydd yn galluogi grwpiau â diddordeb i ddefnyddio arfer da a ddatblygwyd drwy Cymunedau@Ei Gilydd;
- defnyddio unrhyw adnoddau sydd ar ôl gan y Rhaglen i ymrwymo'r grwpiau hynny nad ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau rhwydweithio; gan sicrhau fod datganiad clir o bolisi cynhwysiant digidol cyffredinol yn sylfaen i'r gwaith yn y dyfodol;
- cynyddu ymdrechion i ymrwymo'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gyflenwi'r agenda cynhwysiant digidol; a
- lledaenu'r model Brocer i rannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill sy'n ariannu systemau Grant sydd wedi'u targedu ar y sector gwirfoddol a chymunedol.

**CYNNWYS** **TUDALEN**


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **1** |
| *1.1* | *Pwrpas yr Adroddiad* | *1* |
| *1.2* | *Dull* | *2* |
| *1.3* | *Strwythur yr Adroddiad* | *4* |
| **2.0** | **Cyd-destun: Y Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd** | **5** |
| *2.1* | *Cynhwysiant Digidol a Gwreiddiau'r Rhaglen* | *5* |
| *2.2* | *Cymunedau@Ei Gilydd: Nodau ac Amcanion* | *6* |
| *2.3* | *Dulliau Cyflenwi Cymunedau@Ei Gilydd* | *8* |
| 2.3.1 | Cyllideb | 8 |
| 2.3.2 | Y Gronfa Grantiau | 8 |
| 2.3.3 | Y Tîm Canolog | 11 |
| 2.3.4 | Broceriaid Cymunedol ac "Allgymorth" | 13 |
| 2.3.5 | Lledaenu a Chyhoeddusrwydd | 15 |
| *2.4* | *Polisi Cynhwysiant Digidol* | *15* |
| 2.4.1 | Polisi Cynhwysiant Digidol yn y Deyrnas Unedig | 15 |
| 2.4.2 | Polisi'r Undeb Ewropeaidd | 21 |
| 2.4.3 | Ymchwil yn yr Unol Daleithiau ar Gynhwysiant Digidol | 23 |
| 2.4.4 | Ymchwil ddiweddar yng Nghymru | 26 |
| 2.4.5 | Casgliadau'r Adolygiad Polisi | 28 |
| **3.0** | **Canfyddiadau** | **30** |
| *3.1* | *Mewnbynnau a Ffactorau Allanol* | *30* |
| 3.1.1 | Mewnbynnau ar Lefel Ganolog | 30 |
| 3.1.2 | Mewnbynnau ar y Lefel Leol | 33 |
| *3.2* | *Prosesau* | *38* |
| 3.2.1 | Cymunedau@Ei Gilydd a Rhanddeiliaid Cymru-gyfan a Grwpiau Cymunedol | 38 |
| 3.2.2 | Ymrwymiad Broceriaid gyda Rhanddeiliaid Lleol | 40 |
| 3.2.3 | Prosesau Cronfa Grantiau: Ceisiadau a Gwerthuso | 42 |
| 3.2.4 | Prosesu Cronfa Grantiau: Monitro a Hawliadau | 46 |
| 3.2.5 | Dal a Lledaenu Arfer Da | 49 |
| 3.2.6 | Prosesau Rheolaeth Fewnol | 53 |
| *3.3* | *Effeithiau Uniongyrchol (Allbynnau)* | *55* |
| 3.3.1 | Datblygiad a Gweithrediad Prosiectau Cronfa Grantiau: Trosolwg: | 55 |
| 3.3.2 | Datblygiad a Gweithrediad Prosiectau Cronfa Grantiau: Canfyddiadau o'r Astudiaethau Achos | 60 |
| 3.3.3 | Effeithiau ar Randdeiliaid Allanol Lleol a'r Sector Cymunedol Gwirfoddol | 69 |
| 3.3.4 | Effeithiau ar Fynediad i Gyfleusterau a Chyfleoedd Dysgu Anffurfiol | 72 |
| *3.4* | *Effeithiau Canolog (Canlyniadau)* | *76* |
| 3.4.1 | Effeithiau Polisi | 76 |
| 3.4.2 | Canlyniadau i Unigolion | 78 |
| 3.4.3 | Canlyniadau ar gyfer Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol | 85 |
| 3.4.4 | Effeithiau ar Seilwaith Cymunedol | 86 |
| 3.4.5 | Cynaliadwyedd Cyfleusterau/Gwasanaethau | 87 |
| *3.5* | *Dylanwad* | *89* |
| **4.0** | **Casgliadau ac Argymhellion** | **94** |
| **Atodiad 1: Fframwaith Werthuso** | | **99** |

## 1.0 Cyflwyniad

### *1.1 Pwrpas yr Adroddiad*

Ym mis Mehefin 2006 dyfarnwyd y contract i Old Bell 3 Cyf i gynnal Gwerthusiad tymor hir o'r Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd, a chynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol ar 23 Awst 2006. Comisiynwyd y Gwerthusiad yn gynnar yn oes y rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd, gyda'r nod o oleuo - ac felly wella – dull cyflenwi'r Rhaglen a hefyd fesur effaith yr hyn sy'n ymagwedd newydd at drin yr hyn sydd hefyd yn fater cymharol newydd - "cynhwysiant digidol".

Roedd gan y Gwerthusiad bedwar nod:

i. Sefydlu fframwaith fonitro a gwerthuso clir ar gyfer y cynllun, gan osod trefniadau ar y lefel leol a chenedlaethol y medrir ei defnyddio drwy'r cynllun i roi adborth, ac i fod yn sylfaen i'r asesiad terfynol o effaith Cymunedau@Ei Gilydd (gweler iv).

ii. Rhoi sefyllfa llinell sylfaenol o'r meysydd i gael eu trin gan y cynllun, gan asesu'r cyfleusterau TGCh sydd eisoes ar waith, lefelau presennol a nodweddion mynediad a defnydd TGCh, a'r lefelau o ymwybyddiaeth a sgiliau TGCh.

iii. Dadansoddi'r berthynas rhwng Broceriaid cymunedol, y tîm canolog, Llywodraeth y Cynulliad, Canolfan Cydweithredol Cymru, sefydliadau a phartneriaethau cymunedol, ac unrhyw bartïon eraill perthnasol, a chynghori ar gynyddu eu heffeithlonrwydd i'r eithaf.

iv. Ar ddiwedd y rhaglen, asesu i ba raddau y llwyddodd Cymunedau@Ei Gilydd i gyflawni'r nod a bennwyd.

Yn ein hadroddiad cyntaf ym mir Rhagfyr 2008, fe wnaethom osod fframwaith monitro a gwerthuso, rhoi trosolwg o'r llinell sylfaen (i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl o gofio i'r Rhaglen ddechrau cael ei chyflenwi ar ddechrau 2006, tra mai dim ond ym mis Medi 2006 y cychwynnodd yr astudiaeth) a rhoi gwerthusiad ffurfiannol cychwynnol yng nghyswllt gweithgareddau a phrosesau'r Rhaglen. Yn yr adroddiad hwnnw gwnaethom nifer o argymhellion am weithredu'r Rhaglen yn y dyfodol.

Yn ein hail adroddiad, yn seiliedig ar y gwaith maes a gynhaliwyd ym Mai a Mehefin 2007, rhoddwyd diweddariad ar ein hadroddiad Llinell Sylfaen yn ogystal â rhoi golwg ar effeithiau'r Rhaglen oedd yn dod i'r amlwg.

Yn hwn, ein hadroddiad terfynol, anelwn, yn neilltuol, i drin y pedwerydd amcan a amlinellwyd uchod drwy roi gwerthusiad crynodol o'r Rhaglen. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd yn flaenorol a chylch arall o waith maes a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf 2008.

Fodd bynnag, dylid nodi er mai'r bwriad oedd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi ar ddiwedd y Rhaglen (a gynlluniwyd ar gyfer Mehefin 2008), nad fel hyn y mae erbyn hyn, oherwydd i'r Rhaglen gael ei hymestyn sawl gwaith, yn fwyaf diweddar i fis Rhagfyr 2008, oherwydd i gronfeydd ychwanegol ddod ar gael ar gyfer Rhaglen Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Yn amodol ar y drafodaeth gyda'r Grŵp Llywio, y bwriad yn awr yw diweddaru'r adroddiad i gynnwys alldro ariannol terfynol unwaith y cafodd y Rhaglen ei chau'n llwyr.

### 1.2 Dull

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar raglen waith helaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae wedi cynnwys:

- Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso i fod yn sylfaen i'r gwerthusiad, yn seiliedig ar graffu ar ddogfennau allweddol y Rhaglen a thrafodaethau dechreuol gyda staff Cymunedau@Ei Gilydd a Grŵp Llywio'r Gwerthusiad (gweler Atodiad 1);
- Adolygiad polisi o ddogfennau polisi perthnasol yn ymwneud â Chymru, rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2006 ac edrych eto ar hyn ym mis Gorffennaf 2008;
- Dadansoddiad desg o bapurau mewnol y Rhaglen yn cynnwys papurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Ymgynghori, data ariannol a'r Fframwaith Monitro;
- Cyfweliadau wyneb i wyneb gyda rhanddeiliaid canolog allweddol Cymunedau@Ei Gilydd, staff canolog, aelodau eraill o staff Canolfan Cydweithredol Cymru, staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, aelodau'r Grŵp Ymgynghori a'r Panel Grantiau - ym mis Hydref/Tachwedd 2006 (14 cyfweliad gyda 17 o unigolion) ac eto ym mis Mai/Mehefin 2008 (15 cyfweliad gyda 16 o unigolion) gyda diweddariadau byr ar y ffôn neu e-bost gydag aelodau Grŵp Ymgynghori a Phanel Grantiau a thrafodaeth staff ym Mai/Mehefin 2007;
- Cynnal rhaglen o waith maes mewn 12 ardal astudiaeth achos/prosiect[1] dros y tri chylch (Hydref/Tachwedd 2006, Mai/Mehefin 2007, Mai/Gorffennaf 2008) yn cynnwys:
    - Cyfweliadau wyneb i wyneb gyda'r Brocer Cymunedol cyfrifol
    - Cyswllt wyneb i wyneb, ffôn neu e-bost gyda 35 o randdeiliaid lleol allweddol (Cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf a chynrychiolwyr o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol);
    - Cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda chyfanswm o 45 o reolwyr a staff prosiectau Cronfa Grantiau (llawer ohonynt ar ddau neu fwy achlysur) yn ymwneud â chyfanswm o 39 prosiect (ychydig dan 20% o'r holl brosiectau a gymeradwywyd) a chraffu ar ddogfennau allweddol yn gysylltiedig â'r prosiectau hyn (ceisiadau, ffurflenni monitro ac mewn rhai achosion adroddiadau cau);
    - Cyfweliadau wyneb-i-wyneb neu drafodaethau grŵp bach gyda 78 o "fuddiolwyr" unigol 19 prosiect Cronfa Grantiau[2];
    - Paratoi a diweddaru adroddiad astudiaeth achos ar bob un o'r ardaloedd (ym mhob achos, cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer pob un o'r astudiaethau achos yn llwyr gan un aelod o'r tîm ymchwil);
- Cynnal gwaith maes cyfyngedig mewn tair ardal grŵp rheoli, yn cynnwys cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda chwe unigolyn allweddol.

Fel y gwelir, mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer gwerthusiad o'r prosiect. Ar yr un pryd, byddem yn tynnu sylw at nifer o wendidau yn y sylfaen tystiolaeth. Y cyntaf yw diffyg data cyson o'r prosiectau Cronfa Grantiau am allbynnau neu ganlyniadau.

---

[1] Dewiswyd yr astudiaethau achos mewn cytundeb gyda'r Grŵp Llywio i roi cymysgedd cynrychioladol o brofiad o'r Rhaglen ac yn cynnwys o leiaf un maes/prosiect o feysydd cyfrifoldeb pob un o'r Broceriaid oedd yn ei le adeg yr Adroddiad Llinell Sylfaen.

[2] Mewn rhai achosion, roedd cyfweleion unigol yn cynrychioli grwpiau cymunedol oedd wedi manteisio o gymorth o'r prosiectau Cronfa Grantiau; yn achos llawer o brosiectau, roedd rheolwyr prosiect a staff hefyd yn "fuddiolwyr" ond ni chawsant eu cyfrif yn y ffigur hwn.

Er bod angen i brosiectau unigol gyflwyno nifer o amcanion meintiol ac ansoddol (targedau) o fewn eu cais oedd yn ei gwneud yn bosibl monitro cynnydd prosiectau unigol, nid oedd unrhyw fformat safonol ar eu cyfer a dim diffiniadau cyffredin hyd yn oed ar gyfer targedau a ymddangosai'n debyg (gweler hefyd Adran 2.3.2).

Er i ni dynnu sylw at hyn wrth ddatblygu ein fframwaith monitro a gwerthuso, roedd y ffaith fod y Gronfa Grantiau erbyn y pwynt hwnnw eisoes wedi derbyn nifer fawr o geisiadau (76 wedi'u cymeradwyo a 92 yn yr arfaeth erbyn amser yr Adroddiad Llinell Sylfaen) yn golygu y teimlwyd ei bod yn amhosibl cyflwyno system fwy cydlynol yn ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu ei bod bron yn amhosibl rhoi unrhyw ddata meintiol cronnus ystyrlon un ai ar gyfer yr holl brosiectau Cymorth Grant neu'r rhai o fewn ardaloedd ein hastudiaethau achos.

Yr ail yw'r anhawster cymharol a gawsom wrth gyfweld â "buddiolwyr" prosiect Cronfa Grantiau (er i ni fedru cyfweld â 78), yn neilltuol o gofio am y nifer fawr iawn o fuddiolwyr cyffredinol y dywedwyd eu bod wedi bod mewn cyswllt â'r holl brosiectau Cronfa Grantiau (gweler Adran  3.3.1).

Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu'r amserlenni cyfyngedig iawn yr oedd llawer o brosiectau Cronfa Grantiau yn gweithredu ynddynt, hyd yn oed lle oeddent yn cynnwys cyflogi staff yn hytrach na dim ond prynu offer: mewn llawer o achosion, nid oedd prosiectau wedi cychwyn adeg ein gwaith maes yng ngwanwyn 2007 ac roeddent wedi dirwyn i ben cyn ein gwaith maes yn haf 2008. Yn rhannol, mae hyn hefyd yn dangos yr anhawster wrth wahaniaethu (yn neilltuol yn achos y grantiau llai) rhwng y rhai yn rheoli prosiectau a'r buddiolwyr. Ond, yn rhannol, y gwir yw bod grwpiau gwirfoddol a chymunedol bach yn gweithredu mewn modd mor anffurfiol a hyblyg fel na ddaeth neb i'r fei mewn gwirionedd hyd yn oed pan oeddent wedi ymgymryd i sicrhau fod defnyddwyr unigol neu aelodau grŵp yn bresennol ar amser pan oeddem wedi cytuno ymweld.

Er y cafwyd llawer o dystiolaeth ansoddol ddefnyddiol gan y buddiolwyr hynny y bu modd i ni eu cwrdd, mae'n amlwg nad yw'r sampl yn ddigon mawr i ganiatáu am fwy nag arsylwadau cyffredinol, tra bod y ffaith fod y buddiolwyr a gyfwelwyd yn dal i fod yn gysylltiedig â'r prosiectau'n gostwng y cyfle i ymchwilio canlyniadau. Hyd yn oed pe bai'r adnoddau wedi bod ar gael, byddai wedi bod yn amhosibl cynnal arolwg mwy strwythuredig o fuddiolwyr oherwydd nad oedd angen i brosiectau gadw data cyswllt ffurfiol ar gyfer unigolion oedd wedi'u defnyddio, ac yn gyffredinol ymddengys nad oeddent wedi gwneud hynny.

Yn drydydd, mae diffyg unrhyw ddata o'r brig i lawr i olrhain yr hyn fu'n digwydd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn nhermau defnydd technoleg ddigidol o gymharu gyda thueddiadau cenedlaethol (a medrai roi "gwiriad pwyll" defnyddiol ar gyfer y dystiolaeth yn deillio o'r prosiectau am eu "hymdreiddiad"). Bu trafodaethau o fewn y Grŵp Llywio os medrid comisiynu dadansoddiad yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd ar ardal is-ward yn Lloegr am y defnydd o gysylltiadau rhyngrwyd (fel dirprwy ar gyfer ymrwymiad gyda TGCh) o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o gymharu â Chymru yn gyffredinol, ond cydnabuwyd y byddai angen cyfres-amser er mwyn cael data ystyrlon, ac yn y diwedd profodd hyn yn anymarferol. Mae'n bosibl y gall peth data ddod ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn o'r arolwg "Byw yng Nghymru".

Yn olaf, problem lai fu'r ffaith na fu'n rhwydd cynnal gwaith maes yn ardaloedd y tri grŵp rheoli,  oherwydd (heb fod yn annisgwyl) nad oedd y darpar gyfranogwyr yn

gwybod dim am y Rhaglen ac nid oedd ganddynt fawr o reswm gwrthrychol i ddymuno rhoi gwybodaeth. Ar ôl dweud hyn, ym mhob achos bu modd i ni ddod o hyd i o leiaf un unigolyn gwybodus o fewn y ward oedd yn barod i gynorthwyo a medrwyd cynnal yr ymchwil ar sail hydredol.

Roeddem hefyd wedi rhagweld y medrai'r ymagwedd o ddilyn nifer o ardaloedd astudiaeth achos/prosiectau dros oes y Rhaglen beryglu gwyro ymdrechion y tîm Cymunedau@Ei Gilydd i'r ardaloedd hyn. Efallai oherwydd na wnaeth ein hymchwil gychwyn nes bod y Rhaglen wedi hen ddechrau (a llawer o brosiectau Cronfa Grantiau eisoes wedi eu dynodi), rydym yn hyderus nad felly y bu mewn gwirionedd. Fel y gwelir, mae'r sampl yn cynnwys cyfuniad o ardaloedd lle cyflawnwyd llawer a lle cyflawnwyd cymharol ychydig ac o brosiectau llwyddiannus a llai llwyddiannus.

### *1.3 Strwythur yr Adroddiad*

Bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn un sy'n sefyll ar ei ben ei hun, ac yn hygyrch i ddarllenwyr na welodd yr adroddiadau cynharach.

Daw'r rhan fwyaf o Bennod 2 sy'n ystyried y cyd-destun y gweithredodd y Rhaglen ynddo  o'r Adroddiad Llinell Sylfaen, er y diweddarwyd Adran 2.4 i adlewyrchu datblygiadau polisi dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae Pennod 3 yn ystyried canfyddiadau'r ymchwil ac fe'i strwythurwyd i edrych yn ei dro ar fewnbynnau, prosesau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau (gan gydnabod fod hyn yn golygu, i ryw raddau, yn golygu peth ailadrodd).

Yn olaf ym Mhennod 4, cyflwynwn ein casgliadau ac argymhellion.

## 2.0 Cyd-destun: Y Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd

### *2.1 Cynhwysiant Digidol a Gwreiddiau'r Rhaglen*

Yn y ddau ddegawd diwethaf, mae TGCh wedi trawsnewid bywyd mewn cymdeithasau datblygedig: p'un ai ar gyfer cadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a pherthnasau mewn rhannau eraill o'r byd, ar gyfer galluogi pobl i weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg (megis pobl yn gweithio o'u cartrefi a gweithredu busnesau "rhithiol"), ar gyfer siopa ac ar gyfer osgoi darparwyr gwasanaeth traddodiadol megis asiantau taith neu froceriaid yswiriant, neu ar gyfer cyrchu gwybodaeth am, a chynnal busnes gyda llywodraeth, mae TGCh un ai wedi ail-lunio mewn ffordd flaengar y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau neu wrthi'n gwneud hynny.

Ond mae'r union ffaith fod gan y TGCh botensial i rymuso unigolion a chymunedau'n golygu y gall gwahaniaeth mewn mynediad i TGCh, cyfarwyddineb gyda TGCh a'r defnydd o TGCh waethygu'r bwlch rhwng grwpiau mwy cyfoethog a mwy grymus mewn cymdeithas - p'un ai os ydynt yn cael eu diffinio mewn termau cymdeithasol neu mewn termau gofodol - â'r rhai sy'n llai breintiedig. Er bod "costau mynediad" i ddefnyddio TGCh yn nhermau caledwedd a mynediad i'r rhyngrwyd wedi dod yn gynyddol is, maent yn dal i fod yn ffactor ar gyfer rhai ar incwm isel sefydlog. Hyd yn oed yn bwysicach, gall y bwlch rhwng y "cyfoethog mewn gwybodaeth" a'r "tlawd mewn gwybodaeth" olygu, hyd yn oed lle mae mynediad i'r seilwaith TGCh, y caiff ei ddefnyddio mewn ffordd llawer llai cyfyngedig gan grwpiau a chymunedau sydd wedi eu hallgau. Arweiniodd hyn at ddatblygiad cysyniad "cynhwysiant digidol" - proses sy'n anelu i sicrhau mynediad mwy cyfartal i fuddion posibl TGCh i'r grwpiau hynny a fedrai fel arall fod wedi eu hallgau am resymau economaidd, cymdeithasol, gofodol neu ddiwylliannol ac i fynd ymhellach drwy ddefnyddio TGCh fel ffordd o rymuso pobl i drawsnewid eu bywydau.

Roedd "cynhwysiant digidol" yn nod sylfaenol i Cymunedau@Ei Gilydd. Targedwyd y Rhaglen, a lansiwyd yn Ionawr 2006 a'i hariannu gan yr hyn oedd ar y pryd yn Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru (bellach yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol) a Chronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop (o'r Rhaglen Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r Rhaglen Amcan 2 ar gyfer Dwyrain Cymru[3]), targedwyd y Rhaglen at yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf: 100 ward a 32 is-ward, a ddynodwyd yn 2000 fel ffocws rhaglen datblygu cymunedol arweiniol tymor-hir i roi cefnogaeth holistig i'r cymunedau mwyaf amddifadus yng Nghymru.

Dechreuwyd datblygu'r Rhaglen yn ail hanner 2004 a chafodd ei harwain gan gyfle ar y cychwyn. Neilltuwyd cyllid o tua £4.5 miliwn yn anffurfiol dan Flaenoriaeth 2, Mesur 2 (*"Ysgogi a Chefnogi'r Galw am TGCh")* Rhaglen Amcan 1 ar gyfer prosiect yn anelu i arddangos manteision TGCh i'r gymuned yn gyffredinol a chefnogi cymunedau i gynyddu eu mynediad i TGCh a'r defnydd ohonynt.[4] . Bu Awdurdod Datblygu Cymru fel yr oedd ar y pryd yn datblygu prosiect (a elwid yn *"e-gymunedau")* gyda'r nod o ddatblygu hyn, ond ganol 2004 cafodd ceisiadau cyllid Amcan 1 yr Awdurdod eu hail-flaenoriaethu a rhoddwyd y gorau i waith ar y prosiect.

---

[3] Er bod strwythur y Rhaglen Amcan 2 yn golygu fod pedwar prosiect ERDF ar wahân i gyd (Amcan 1, Amcan 2 Craidd, Amcan 2 Trosiannol ac Amcan 2 Gwledig). Darparwyd cyllid ar gyfer rhannau o Gymru nad oedd yn gymwys dan unrhyw un o'r Amcanion hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr.

[4] Atodiad Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Tachwedd 2002, tudalen 24 – 5.

Ar y pwynt hwn gofynnwyd i Gyfarwyddiaeth Cymunedau'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ddod yn gyfrifol am ddatblygu prosiect arall (ac i ganfod arian cyfatebol amdano) a fedrai hyrwyddo "cynhwysiant digidol" a mynediad cymunedol i TGCh.

Datblygwyd cysyniad a syniad y Rhaglen - oedd yn y dyddiau cynnar yn canolbwyntio ar dargedu'r cynllun ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf - gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, ond gan ddefnyddio ymgynghoriad anffurfiol helaeth a chefnogaeth rhwydwaith anffurfiol (a fodolai eisoes) o sefydliadau ac unigolion gyda diddordeb yn yr agenda yn ystod ail hanner 2004. Sicrhawyd arian cyfatebol o'r tu mewn i gyllidebau Llywodraeth y Cynulliad. Datblygwyd cais ffurfiol ar gyfer prosiect Amcan 1 yn hanner cyntaf 2005 a sicrhawyd cyllid, a phenodwyd y staff cyntaf yn hydref 2005.

*2.2. Cymunedau@Ei Gilydd: Nodau ac Amcanion*

Prif nod Cymunedau@Ei Gilydd oedd *"helpu i gyflawni cynhwysiant cymdeithasol trwy ddefnyddio technoleg – cynhwysiant digidol"* ac yn fwy neilltuol *"galluogi cymunedau i ddefnyddio TGCh mewn ffyrdd sy'n berthnasol iddynt er mwyn gwella eu hansawdd bywyd, goresgyn anawsterau a'u galluogi i gyflawni eu potensial cymdeithasol, economaidd a diwylliannol"*[5]**.**

Yn y cyd-destun hwn, ar y dechrau roedd gan Cymunedau@Ei Gilydd bedwar amcan rhyng-gysylltiedig (fel y nodir ym Mlwch 2.1 trosodd)[6]:

Er i'r Adroddiad Gwerthuso Llinell Sylfaen awgrymu y dylid rhoi'r gorau yn ffurfiol i'r olaf o'r amcanion hyn, gan ei bod yn glir nad oedd hyn yn ymarferol yn brif thema i'r Rhaglen, nid yw'n ymddangos yr aethpwyd â hyn ymlaen: nododd adroddiad i'r Grŵp Ymgynghori ym Mai 2007:

*"mae agenda llawer ehangach o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt e-ymrwymo, ac y medrai fod angen i Cymuendau@Ei Gilydd gysylltu ag ef. Mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio felly yn rhoi ystyriaeth i'r argymhelliad hwn, cyn dod i gasgliad"*[7]**.**

O'i hanfod, felly, bwriadwyd i'r Rhaglen:

- ddefnyddio sefydliadau cymunedol fel ffordd o roi mynediad i seilwaith TGCh i'r cymunedau hyn a chyfleoedd i ddefnyddio a manteisio mwy ar TGCh mewn ystod o ffyrdd yn cynnwys gwell cysylltiad gyda darparwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda golwg ar hyrwyddo adfywio economaidd a chymdeithasol, a

- cryfhau'r sector cymunedol ei hunan drwy annog y defnydd mwyaf effeithlon o TGCh a hefyd adeiladu cydweithredu agosach rhwng sefydliadau cymunedol amrywiol yn gweithredu yn yr un ardaloedd a chynyddu cydweithrediad rhwng sefydliadau cymunedol a darparwyr gwasanaeth statudol.

[5] Canllawiau t. 11
[6] Cynllun Prosiect t. 3-4
[7] Adroddiad Rheolwr y Prosiect i Grŵp Ymgynghori'r Prosiect, Mai 2007

*Blwch 2.1: Amcanion Cymunedau@Ei Gilydd*

**Galluogi cymunedau i fanteisio ar TGCh -** annog a chefnogi cymunedau i ddefnyddio TGCh i sicrhau mynediad i TGCh, cynyddu sgiliau ac ymestyn allan i'r rheiny sydd wedi dieithrio. Bydd yn helpu i ymrwymo dinasyddion mewn sefydliadau a gweithgareddau cymunedol. Bydd yr amcan hwn yn sicrhau fod darpariaeth cefnogaeth TGCh addas ar gael ym mhob rhan o ardal y prosiect, gan ddefnyddio darpariaeth bresennol lle'n bosibl ond wedi'i gyflwyno i drothwy ansawdd cyffredin.

**Strwythurau gwybodaeth a chefnogaeth cenedlaethol a lleol -** sicrhau bod y prosiectau lleol sy'n cyflenwi'r rhaglen yn cael eu llywio'n dda a bod ganddynt y gallu i sicrhau canlyniadau, y caiff adnoddau eu sianelu mor effeithlon ag sydd modd ac y sefydlir rhwydwaith o gefnogaeth a rhannu. Caiff arfer da ei ddynodi a sefydlir patrymau fel pwyntiau cyfeiriad ar gyfer sefydliadau cymunedol eraill sy'n ymwneud â'r cynllun.

**Sector cymunedol sy'n manteisio ar TGCh -** datblygir sector a gaiff ei gydlynu'n dda gyda phartneriaethau adfywio lleol ac a all wneud y defnydd strategol gorau o TGCh ar gyfer gweithrediadau effeithiol o fewn ei sefydliadau ei hun a hefyd y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Bydd y prosiect yn rhoi adnoddau i Froceriaid cymunedol lleol i roi cefnogaeth i sefydliadau cymunedol i ddatblygu ystod o brosiectau. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi sefydliadau lleol i ymrwymo arbenigwyr TGCh lleol i gefnogi eu gwaith, gan felly greu swyddi newydd mewn technoleg uchel mewn busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol.

**Cyflenwi gwasanaeth wedi'i alluogi yn well -** annog cymunedau i ymgysylltu'n well gyda chyflwynwyr gwasanaeth allweddol, yn cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaeth iechyd, yr heddlu, gwasanaethau cyflogaeth a gyrfaoedd a chanolfannau dysgu. Bydd y prosiect yn annog darparwyr gwasanaeth i wneud defnydd blaengar o'r cyfrwng er mwyn gwneud cysylltiadau gwell gyda chymunedau a mireinio eu gwasanaethau i angen lleol. Bydd hefyd yn galluogi sefydliadau cymunedol i sicrhau cysylltiadau cryfach gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ardaloedd blaenoriaeth.

Roedd y Rhaglen wedi'i seilio'n gadarn ar annog cynlluniau cymunedol o'r gwaelod i fyny, ond ar yr un pryd roeddent eisiau darparu arbenigedd "canolog", sicrhau safonau ansawdd cyffredin a lledaenu arfer da. Roedd egwyddorion sylfaenol y Rhaglen (gweler Blwch 2.2)[8] yn tanlinellu pwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth bresennol, yn cynnwys adeiladu cysylltiadau newydd rhwng darpariaeth TGCh presennol, yn hytrach na chreu strwythurau cyfochrog.

[8] Canllawiau, t. 12

*Blwch 2.2: Egwyddorion Sylfaenol Cymunedau@Ei Gilydd*

| |
|---|
| Dod â darpariaeth newydd i ardaloedd lle nad yw’n bodoli ar hyn o bryd;<br><br>Ymestyn darpariaeth bresennol i roi gallu allgymorth ar gyfer y grwpiau sydd fwyaf ar yr ymylon;<br><br>Cysylltu gweithgareddau TGCh sydd eisoes yn eu lle fel nad ydynt mwyach yn sefyll ar ben eu hunain ac y medrant fanteisio o weithio a dysgu gyda’i gilydd a rhannu profiadau;<br><br>Blaenoriaethau’n cael eu dynodi’n lleol gan grwpiau cymunedol mewn cysylltiad â brocer cymunedol |

### *2.3 Dulliau Cyflenwi Cymunedau@Ei Gilydd*

#### 2.3.1 Cyllideb

Cafodd cyfanswm cyllideb wreiddiol Cymunedau@Ei Gilydd ei gosod am £9.565 miliwn ar gyfer y cyfnod hyd fis Mehefin 2008. Cafodd ychydig dros £5 miliwn o hyn ei glustnodi’n wreiddiol ar gyfer y Gronfa Grantiau, gydag ychydig dros £1.5 miliwn wedi’i ddyrannu ar gyfer costau'r Tîm Canolog (staff, costau rheoli a gorbenion y corff rheoli a marchnata). Dyrannwyd gweddill y cyllid - tua £3 miliwn - ar gyfer costau allgymorth, gyda thua £1.7 miliwn o hyn wedi’i ddyrannu at gostau Broceriaid cymunedol (costau staff a lleoliad) a’r gweddill ar gael ar gyfer cefnogaeth dechnegol.

Fodd bynnag, bu newidiadau sylweddol yn nhermau’r fframwaith cyllidebol yn ystod oes y prosiect. Fel canlyniad i wanhau’r bunt yn erbyn yr euro, daeth adnoddau ychwanegol ar gael yn 2008 ar gyfer y Rhaglen Amcan 1, ac arweiniodd hyn at gynnig cyllid ychwanegol i Cymunedau@Ei Gilydd hefyd: erbyn mis Awst 2008, roedd cyfanswm y gyllideb ar gyfer Cymunedau@Ei Gilydd wedi cynyddu i £10,457 miliwn.

Ymhellach, arweiniodd y galw cryf am y Gronfa Grantiau a’r galw cyfyngedig ar adnoddau ar gyfer cymorth dechnegol at benderfyniad i drosglwyddo cronfeydd i’r Gronfa Grantiau, gan gynyddu hyn i £6.884 miliwn[9]. Cynyddwyd hyn ymhellach i £7.44 miliwn (bron 50% yn uwch na’r ffigur gwreiddiol) ar ôl i fwy o gyllid ddod ar gael i’r Rhaglen gan WEFO yn ystod 2008. Golygai’r newidiadau hyn fod y Gronfa Grant erbyn diwedd y Rhaglen yn cyfrif am 71% o gyfanswm cyllid y Rhaglen o gymharu â’r 53% a gynlluniwyd ar y dechrau.

#### 2.3.2 Y Gronfa Grantiau

Roedd y Gronfa Grantiau yn elfen allweddol o’r Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd - er i ddechrau rhoddwyd pwyslais mawr ar y ffaith y bwriadwyd i’r Rhaglen fod yn fwy na Chynllun Grantiau.

Yn ôl Canllawiau Cymunedau@Ei Gilydd[10], bwriadwyd i’r Gronfa Grantiau roi grantiau o unrhyw faint i grwpiau sydd:

[9] Papur i Grŵp Ymgynghori’r Prosiect, Mai 2007
[10] t. 43

- yn grŵp sector cymunedol neu wirfoddol nid-er-elw (yn cynnwys Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf)
- fel arfer yn gweithio mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf ac yn cynnwys pobl o'r ardal honno, neu os y tu allan i'r ardal, rhaid i'r gweithgaredd fod o fudd uniongyrchol i'r ardal Cymuendau yn Gyntaf;
- â chyfansoddiad neu set o reolau, gyda dyddiad arnynt ac wedi'i llofnodi fel bod wedi eu "mabwysiadu" gan y Cadeirydd, neu uwch swyddog arall ar ran y grŵp
- â chyfrif banc, yn enw'r grŵp, gydag angen o leiaf ddau lofnod
- yn medru rhoi copi o'r cyfrifon diweddaraf neu ddatganiad o incwm a gwariant a chyfriflen banc.

Dim ond gyda chefnogaeth Brocer Cymunedol[11] y medrid cyflwyno ceisiadau ond nid oedd terfyn uchaf nac isaf ar faint y cais.

Asesid ceisiadau mwy (dros £15,000) gan Banel Grantiau, oedd yn cynnwys aelodau o'r Panel Ymgynghori (gweler 2.3.4). Roedd hwn yn cwrdd o leiaf bob chwarter, ac ar rai pwyntiau ym mywyd y Rhaglen, yn fisol. Asesid ceisiadau dan £5,000 gan banel "mini-Grantiau" yn cynnwys aelodau uwch o'r Tîm Canolog (oedd hefyd yn sgrinio ceisiadau mwy cyn eu cyflwyno i'r Panel Grantiau llawn). Y bwriad gwreiddiol oedd i bob cais dros £5,000 gael ei asesu yng nghyfarfodydd Panel Grantiau ond cytunwyd yn ddilynol y dylai ceisiadau rhwng £5,000 a £15,000 gael eu hasesu gan y panel mini-Grantiau ac yna eu hystyried gan y Panel Grantiau drwy weithdrefn ysgrifenedig[12]. Ym mhob achos, roedd y Meini Prawf Asesu a ddefnyddiwyd yr un rhai ac fe'u hamlinellir ym Mlwch 2.3 (trosodd).

Er bod y meini prawf gwreiddiol ar gyfer y grantiau yn hepgor sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol, edrychodd y Panel Ymgynghori ar hyn eto ym mis Mai 2006 pan benderfynwyd y medrid ystyried prosiectau a hyrwyddwyd gan sefydliadau cenedlaethol lle roedd Rheolwyr Broceriaid Cymunedol yn cadarnhau na fedrai'r gwasanaeth neu brosiect gael ei ddarparu fel arall gan grŵp cymunedol/gwirfoddol lleol[13]. Penderfynodd yr un cyfarfod y medrid hefyd ystyried prosiectau a hyrwyddwyd gan gyrff statudol (ond nid gan gwmnïau preifat er elw), cyn belled â bod y Rheolwyr Broceriaid cymunedol wedi'u darbwyllo na fedrid gwneud prosiect tebyg o fewn y sector gwirfoddol neu gymunedol.

Roedd grantiau ar gael ar gyfer ystod eang o brosiectau, cyfalaf a refeniw, yr ystyriwyd eu bod yn helpu i hyrwyddo cynhwysiant digidol. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn y Canllawiau yn cynnwys nid yn unig gefnogi prosiectau TGCh presennol lleol a sefydlu darpariaeth gyfrifiadurol newydd mewn cymunedau lle nad oedd hyn ar gael yn rhwydd, ond hefyd brosiectau i gefnogi mentora unigolion wrth ddefnyddio TGCh a cheisiadau gan brosiectau cymunedol heb ffocws penodol ar TGCh sy'n dangos ymagwedd flaengar at ddefnyddio TGCh a phontio'r "bwlch digidol" yn eu hardal[14]. Nl chyfyngwyd cymorth i grwpiau oedd yn rhoi mynediad cyffredinol i'r cyhoedd i offer a chafodd TGCh ei ddiffinio'n fwriadol mewn modd eang:

[11] Canllawiau, t. 45
[12] Cofnodion y Cyfarfod Grŵp Ymgynghori a gynhaliwyd ar 10 Mai 2006
[13] Cofnodion y Cyfarfod Grŵp Ymgynghori, 10 Mai 2006, Dogfen 3, t.1
[14] Canllawiau, t. 45- 46

*Blwch 1: Meini Prawf Asesu Cronfa Grantiau*

**Budd Cymunedol**
A ddynodwyd angen clir ar gyfer y prosiect?
A yw'r cais o fudd i'r gymuned, yn gyffredinol, yn ei gyfanrwydd ac a yw ar gael i'r holl gymuned?
A oes unrhyw rannau o'r gymuned a fyddai'n cael budd uniongyrchol o'r prosiect?
A oes tystiolaeth y gall y prosiect gyflawni'r canlyniadau a ddisgrifir yn y cais?

**Grwpiau ar yr Ymylon**
A yw'r cais yn helpu cynhwysiant digidol e.e.
Grwpiau Lleiafrif Ethnig, Pobl gydag Anableddau, Pobl Hŷn/Iau, Arall

**Arloesedd**
A yw'r cais yn arloesol wrth edrych ar ffyrdd newydd o ymrwymo pobl gyda TGCh?
A fydd yn dyddio'n gyflym?

**Cynaliadwyedd**
A yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir?
Beth sydd ei angen i'w wneud yn gynaliadwy yn y tymor hir?
A oes gan y prosiect y potensial i gynhyrchu incwm a symud tuag at fod yn hunan-gynaliadwy?

**Cefnogaeth**
A yw'r grŵp wedi dynodi'r sgiliau y mae eu hangen i wneud i brosiect weithio?
A oes gan y grŵp y sgiliau presennol i wneud y prosiect?
Pa gefnogaeth mae'r grŵp ei angen, a yw hyn wedi'i gynnwys yn y cynnig?

**Ymarferoldeb**
A yw'r prosiect yn ymarferol – os cânt sgiliau, costau a chefnogaeth?
Pa ddarpariaeth bresennol sydd eisoes yn y gymuned dan sylw?
A yw neu a ddylai gysylltu gyda phrosiectau eraill?
A oes cwmpas ar gyfer gweithio partneriaeth gyda phrosiectau lleol eraill?
A yw'r prosiectau'n dod â buddion ychwanegol os yw'n brosiect presennol?

**Cysylltiadau gyda Phartneriaethau/Strategaethau**

Pa dystiolaeth sydd o gysylltiadau gyda strategaethau eraill ar lefel leol a hefyd lefel genedlaethol?

**Swyddi (ar gyfer ceisiadau o fwy na £5,000)**
Faint o swyddi a fyddai'n cael eu creu drwy'r cais?
Faint o swyddi a fyddai'n cael eu diogelu drwy'r cais?
Pa hyfforddiant anffurfiol sydd ar gael ar gyfer Aelodau Grŵp?

**Perfformiad**
A yw'r ymgeisydd wedi gosod canlyniadau mesuradwy?

**Systemau rheoli**
A oes gan y grŵp y gallu i reoli'r grant/prosiect?

**Cymhwyster**
A yw'r prosiect yn diwallu gofynion cymhwyster WEFO yn cynnwys mesurau i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol? (gwirio beth yw'r gofynion WEFO a bydd hyn wedyn yn gwestiwn llawnach ar gyfer y Broceriaid i'w hateb)

**Cost effeithlonrwydd**
A yw'r prosiect yn dangos gwerth am arian?

*"Mae TGCh yn cyfeirio at unrhyw dechnoleg a ddefnyddir i drosglwyddo, darparu neu ganfod gwybodaeth. Yr enghreifftiau amlwg yw cyfrifiaduron, y rhyngrwyd, e-bost, ffonau, ffonau symudol a theledu a radio digidol"*[15]**.**

Gwnaed taliadau yn chwarterol a thalwyd ymlaen llaw ar gyfer elfennau refeniw mewn prosiectau.

Yn nhermau monitro, roedd angen i brosiectau Cronfa Grantiau osod nifer o amcanion ansoddol a meintiol (targedau) ar gyfer mesur cynnydd. Fodd bynnag, yn unol gydag athroniaeth "gwaelod i fyny" y Rhaglen a'r ffaith nad oedd WEFO angen unrhyw wybodaeth sylweddol am allbynnau neu ganlyniadau, ar ddechrau'r Rhaglen, nid oedd unrhyw ganllawiau canolog ar sut bethau y medrent fod na pha ddiffiniadau y medrid eu defnyddio.

Yn haf 2007, fe wnaeth tîm Cymunedau@Ei Gilydd gwblhau a dechrau gweithredu Fframwaith Monitro, a roddodd broses strwythuredig ar waith (a wahaniaethwyd yn dair haen[16]) yn galluogi'r Broceriaid a'r tîm canolog i ddynodi a chymryd camau i unioni lle'r oedd prosiectau'n syrthio ar ôl un ai yn nhermau eu hamserlen gweithredu neu yn nhermau cyflenwi eu targedau disgwyliedig. Ar gyfer prosiectau dros £15,000 roedd hyn yn cynnwys ymweliadau monitro yn cynnwys y Swyddog Monitro a/neu Froceriaid. Fel rhan o'r Fframwaith Monitro, gofynnwyd i bob prosiect lenwi Rhestr Wirio Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth, yn cynnwys data neu amcangyfrifon o'r nifer o bobl y bu'r prosiect mewn cysylltiad â hwy, ac i rannu'r rhif hwn yn ôl gwryw a benyw, oedran, anabledd a defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal â'r grwpiau ethnig a gymerodd ran.

Yn ogystal â'r Fframwaith Monitro, cyflwynwyd archwiliadau yn y fan a'r lle ar hap ar gyfer prosiectau mwy.

### 2.3.3 Y Tîm Canolog

Er mai Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd "perchen" y Rhaglen, a hwy oedd yr ymgeisydd ar gyfer cyllid yr ERDF, cafodd rheolaeth a chyflenwi'r Rhaglen eu contractio drwy broses caffaeliad cyhoeddus i Ganolfan Cydweithredol Cymru, sefydliad nid-er-elw gyda hyrwyddo menter gymdeithasol yn brif gylch gorchwyl iddo. Roedd Tîm Canolog y Rhaglen yn seiliedig ym mhencadlys y Ganolfan yng Nghymru ac yn cynnwys:

- Rheolwr y Rhaglen, Alun Burge, a gafodd ei recriwtio drwy gystadleuaeth agored ond oedd ar secondiad o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a oedd yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen yn ei rôl flaenorol fel Pennaeth Cymunedau yn Gyntaf[17];
- Dau i ddechrau, ond wedyn un, Reolwr Brocer Cymunedol gyda chyfrifoldeb rheolaeth llinell am y Broceriaid Cymunedol ond hefyd yn gwneud nifer o rolau eraill o fewn y Rhaglen;
- Swyddog Cyllid (wedi'i integreiddio gyda Thîm Ariannol y Ganolfan) a chydweithwyr cefnogi;

[15] Canllawiau, t. 21
[16] Prosiectau angen taliad unnigol yn unig neu'n parhau am lai na 3 mis; grantiau dan £15,000; a grantiau dros £15,000)
[17] Dychwelodd Alun Burge i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mehefin 2008 i gynnal gwaith ar y prosiect i olynu Cymunedau@Ei Gilydd

- Un (yn ddiweddarach dau) Swyddog Marchnata/Cyfathrebu (yn gweithio wrth ochr Rheolwr Marchnata y Ganolfan ei hunan);
- Swyddog Monitro;
- Swyddog Cefnogaeth Dechnegol yn rhoi cyngor yn uniongyrchol i ymgeiswyr a phrosiectau Cronfa Grant yn ogystal ag i staff y Rhaglen[18];
- Swyddog Gweinyddol.

Rôl gyffredinol y Tîm Canolog[19] oedd:

- Rhoi cymorth rheoli i Froceriaid Cymunedol;
- Sicrhau fod Broceriaid Cymunedol yn gwybod am gynlluniau diddorol fel bod grwpiau cymunedol a grwpiau diddordeb yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf;
- Rheoli'r Gronfa Grantiau a ddefnyddiwyd i ariannu prosiectau a rhoi cymorth technegol ar lefel leol;
- Cadw cysylltiad gyda chynlluniau a datblygiadau eraill ar draws Cymru a thu hwnt;
- Rhoi adroddiadau chwarterol i WEFO a'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau;
- Sicrhau y caiff y cynllun ei farchnata mewn modd addas.

Rheolwr llinell y tîm oedd Lesley Jones, Dirprwy Brif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru.

Cafodd y Tîm Canolog ei gynorthwyo gan y Grŵp Ymgynghori, a sefydlwyd ar gais yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (fel yr oedd ar y pryd), gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn penodi Aelodau.

Cylch Gorchwyl y Grŵp, a gytunwyd yn ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ym mis Tachwedd 2005 [20] oedd cefnogi cyflenwi'r prosiect yn llwyddiannus drwy roi cyngor gwybodus i Ganolfan Cydweithredol Cymru a Rheolwr y Prosiect ac yn fwy neilltuol:

- Trafod a chynghori ar gyfeiriad strategol cyffredinol y prosiect;
- Derbyn ac ystyried adroddiadau chwarterol ar weithgaredd prosiectau yn cynnwys ystadegau'n cyfeirio at dargedau prosiectau;
- Enwebu nifer o gynrychiolwyr i fod yn aelodau o'r Panel Grantiau a fydd yn asesu ceisiadau grant gan sefydliadau cymunedol a gwneud argymhellion ar gyfer taliadau grant i Ganolfan Cydweithredol Cymru;
- Rhoi cyngor ar gaffaeliad a darpariaeth cefnogaeth dechnegol ar lefel leol;
- Ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ychwanegol a gaiff eu dynodi a'u cytuno gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru.

Cadeirydd y Panel oedd David Jenkins, Cadeirydd Canolfan Cydweithredol Cymru sydd hefyd â nifer o swyddi eraill perthnasol. Cyfarfu'n chwarterol.

### 2.3.4. Broceriaid Cymunedol ac "Allgymorth"

Yn ôl canllawiau Cymunedau@Ei Gilydd, mae *"Broceriaid Cymunedol yn hollbwysig i fenter Cymunedau@Ei Gilydd "*[21]*.* Roedd cyfanswm o 12 Brocer[22]. Er eu bod

[18] Gadawodd y Swyddog Cefnogaeth Technegol ym mis Rhagfyr 2007 ac ni phenodwyd nebv i gymryd ei le
[19] Canllawiau, t. 17
[20] Drafft Gylch Gorchwyl a Chofnodion Cyfarfod 1 Tachwedd 2005.

hwythau hefyd ar gyflogres Canolfan Cydweithredol Cymru ac wedi eu recriwtio'n ganolog, roeddent yn gweithio yn y maes. I ddechrau, roeddent wedi'u lleoli gyda chyrff a dybiwyd fod ganddynt rôl hollbwysig yng nghyswllt cynhwysiant digidol ac i Cymunedau yn Gyntaf (yn bennaf awdurdodau lleol neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol), er wrth i'r Rhaglen ddatblygu penderfynwyd seilio rhai ohonynt o fewn swyddfeydd Canolfan Cydweithredol Cymru. Caiff eu cyfrifoldebau ffurfiol (fel y'u rhagwelir ar ddechrau'r Rhaglen) eu nodi ym Mlwch 2.4[23], er y disgwylid iddynt hefyd fod â rôl allweddol wrth ddynodi a lledaenu arfer gorau[24].

Mewn gwirionedd, fodd bynnag, esblygodd rôl y Broceriaid yn sylweddol ers datblygu'r "model" disgrifiad swydd gyda mwy o bwyslais ar ddatblygu rhwydweithiau a phartneriaethau ac yn fwy neilltuol helpu i ddatblygu, yn ogystal â chydlynu, ceisiadau ar gyfer y Gronfa Grantiau.

Disgwylid i froceriaid weithio'n agos gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, ond nid oeddent yn atebol iddynt yn uniongyrchol. I'r gwrthwyneb, mae'r Canllawiau'n gwneid yn glir y gall Broceriaid:

*"Lle bo'n briodol, gall Brocer Cymunedol gychwyn a gweithio gyda grŵp lleol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd yn lleol. Gall y Brocer Cymunedol weithio gyda grwpiau sydd eisoes yn bod hefyd. Fodd bynnag, y Brocer Cymunedol sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd nesaf"[25].*

Ar wahân i gymorth uniongyrchol y Broceriaid, tybiwyd fod gan y Rhaglen rôl allweddol i'w chwarae wrth adeiladu argaeledd lleol cymorth technegol, drwy gynyddu gallu sefydliadau cymunedol eu hunain a hefyd drwy annog datblygu entrepreneuriaid cymdeithasol lleol a fedrai roi cefnogaeth o'r fath. Ystyriwyd bod sicrhau darpariaeth cymorth technegol digonol a thymor hir yn ffordd hanfodol o fod yn sylfaen i gynaliadwyedd y Rhaglen, gan fod ymchwil blaenorol wedi awgrymu fod diffyg cymorth technegol yn aml yn achos pam na ddefnyddid seilwaith TGCh o fewn cymunedau amddifadus[26].

---

[21] t. 17

[22] Penodwyd 11 Brocer i ddechrau. Rhagwelwyd deuddegfed swydd i ddechrau ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, ar ddechrau'r Rhaglen cytunwyd gyda'r awdurdod lleol fod rhywfaint o orgyffwrdd gyda phrosiect Amcan 1 arall dan arweiniad yr Awdurdod Lleol, Shape-IT.org, ac na fyddai Cymunedau@Ei Gilydd yn cael ei hyrwyddo yn RhCT am y chwe mis cyntaf. Adolygwyd hyn ar ôl chwe mis ac er y cytunwyd y byddai'n addas hyrwyddo Cymunedau@Ei Gilydd yn RhCT, erbyn hyn roedd y Gronfa Grantiau eisoes wedi'u hymrwymo'n helaeth, felly penderfynwyd peidio penodi Brocer ychwaneogl yn RhCT. Fodd bynnag, penodwyd Brocer ychwanegol yn Ionawr 2007 i weithio yng Ngogledd Cymru..

[23] Canllawiau, t. 18-19 a "disgrifiad swydd enghreifftiol ar gyfer Brocer Cymunedol" yn Atodiad B, t.69 ymlaen

[24] Cynllun Prosiect, t. 14

[25] t. 18

[26] BT: archwiliad Cymunedau@Ei Gilydd, t1.

*Blwch 2.4: Rolau a chyfrifoldebau broceriaid*

Sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau gydag asiantaethau lleol allweddol (cymunedol/gwirfoddol, statudol a phreifat) a datblygu eu rôl mewn cynhwysiant digidol.

Gweithio wrth ochr pobl leol i'w helpu i oresgyn rhwystrau i fynediad a chyfleusterau.

Adolygu adnoddau TGCh a Rhyngrwyd lleol, cyfleusterau a rhwystrau i fynediad.

Cynorthwyo i ddod â gwybodaeth llinell sylfaen ynghyd er mwyn dynodi bylchau yn y ddarpariaeth a mynediad presennol a datblygu ffyrdd creadigol ac effeithlon o ddiwallu anghenion e.e. drwy gynnwys lleol a rhwydweithiau.

Hyrwyddo a gwella'r defnydd o adnoddau a chyfleusterau lleol ymysg defnyddwyr newydd a defnyddwyr presennol.

Cynghori defnyddwyr newydd a phresennol y Rhyngrwyd a grwpiau am hawliau a chyfrifoldebau ac unrhyw godau, protocolau neu safonau perthnasol.

Cydlynu ceisiadau gan grwpiau lleol a'u cyflwyno i'r Grŵp Ymgynghori eu hystyried.

Helpu grwpiau cymunedol lleol i gael mynediad i ffynonellau cyllid eraill posibl.

Cymell a gweithio gyda thîm o hyrwyddwyr cymunedol gwirfoddol ac actifyddion a thiwtoriaid cymunedol sy'n hyrwyddo diddordeb mewn dysgu yn lleol.

Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr dysgu lleol eraill i greu llwybrau dilyniant dysgu.

Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol i greu ymagweddau cydlynol at ddatblygu sgiliau a chwilio am swydd.

Hyrwyddo gwasanaethau'r llywodraeth ar-lein drwy sianeli lleol addas.

Dywedodd y Cynllun Prosiect y byddai arbenigwyr TGCh lleol yn un o elfennau allweddol y Rhaglen (wrth ochr yr asiantaeth rheoli a'r uned ganolog, y Grŵp Ymgynghori, y Broceriaid Cymunedol, a'r Gronfa Grantiau). Rhagwelwyd y byddent yn cael eu hariannu am gefnogaeth prosiect drwy'r gronfa ganolog. Byddent yn cael eu hannog i wneud cais am statws ymgynghori fel modd o greu mentrau cymdeithasol diriaethol. Byddant ar gael fel adnodd i'r Broceriaid Cymunedol i greu prosiectau o'r gwaelod i fyny, cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau/materion yn ymwneud â TG a chynghori ar faterion o'r fath pan fo angen.[27].

Crëwyd Cronfa Cefnogaeth Dechnegol, gyda chyllideb o ymhell dros £1m i fod yn sylfaen i'r ymdrechion hyn, er fel y nodwyd eisoes, gostyngwyd llawer ar hyn yn ddilynol fel canlyniad trosglwyddiadau i'r Gronfa Grantiau.

[27] t. 7

2.3.5 Lledaenu a Chyhoeddusrwydd

Yn nhermau lledaenu, cynhaliodd y Rhaglen amrediad o weithgareddau wedi'u cyfeirio at sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn ymwneud â'r Rhaglen a hefyd â chynulleidfa ehangach. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu gwefan (www.cymunedau@eigilydd.org);
- Cynhaliwyd cynhadledd Cynhwysiant Digidol ym mis Mawrth 2008 a ddenodd tua 170 o gynrychiolwyr ac a dynnodd sylw at y cynnydd a wnaed gan Cymunedau@Ei Gilydd ers ei lansio;
- Cyfres o weithdai ar gyfer prosiectau Cronfa Grant ar ddefnyddio technolegau newydd a diogelwch ar-lein;
- Sicrhau y rhannwyd deunyddiau yn gysylltiedig â'r Rhaglen ar wefannau perthnasol, yn neilltuol felly wefan epractice y Comisiwn Ewropeaidd (www.epractice.eu/cases/communities@one);
- Sicrhau y cynhwyswyd gwybodaeth ar y prosiectau a dderbyniodd gyllid ar gronfa ddata Llywodraeth y Deyrnas Unedig a grëwyd i gynorthwyo datblygu arfer gorau ar gynhwysiant digidol;
- Sicrhau sylw mewn amrywiaeth o bapurau newydd a chylchgronau;
- Datblygu amrywiaeth o astudiaethau achos ar brosiectau unigol Cronfa Grantiau.

*2.4 Polisi Cynhwysiant Digidol*

Yn ein Hadroddiad Gwerthuso Llinell Sylfaen yn Chwefror 2007, ystyriwyd polisi cynhwysiant digidol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ar gyfer yr Adroddiad Gwerthuso terfynol hwn, rydym yn ystyried yn fyr nifer o ddogfennau strategaeth ac astudiaethau ymchwil yn ymwneud â pholisi cynhwysiant digidol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol.

2.4.1 Polisi Cynhwysiant Digidol yn y Deyrnas Unedig

Daeth cynhwysiant digidol yn fwyfwy pwysig o fewn syniadaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn blynyddoedd diweddar. Dangosir hyn gan y ffaith fod Gweinidog Llywodraeth y DU ar Gynhwysiant Digidol (Y Gwir Anrh. Paul Murphy AS), sydd hefyd yn dal swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn cadeirio Pwyllgor y Cabinet ar Gynhwysiant Digidol a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2008.

Dywedwyd mai prif swyddogaeth y Pwyllgor yw cydlynu polisïau a strategaeth gydlynol fel y gall pob dinesydd, yn arbennig y rhai dan anfantais, fanteisio o dechnoleg newydd[28]. Rhoddir mewnbwn penodol Gymreig i waith y pwyllgor gan Huw Irranca-Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru. Disgwylid cyhoeddi'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Digidol yn fuan adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn nhermau ymchwil sylfaenol am gynhwysiant digidol yn y Deyrnas Unedig, mae *"Digital Inclusion: A Discussion of the Evidence Base"* (a baratowyd gan Fresh Minds ar gyfer canolfannau ar-lein y DU , Gorffennaf 2007) yn gyhoeddiad allweddol diweddar. Dywedwyd y comisiynwyd yr ymchwil gan ganolfannau ar-lein y DU er mwyn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael sy'n berthnasol i faterion cynhwysiant digidol

[28] Ffynhonnell: news.BBC.co.uk. Detholiad o Araith y Gweinidog i'r gynhadledd Cynhwysiant Digidol yn Llundain ar 29 Ebrill 2008.

a'r bwlch digidol[29]. Ei brif nod oedd bod yn sylfaen i'r drafodaeth dan arweiniad tîm Adolygu Strategaeth Ddigidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig[30]. Dywedodd mai ei amcanion oedd:

- Asesu'r sylfaen tystiolaeth bresennol ar gynhwysiant digidol a'r bwlch digidol;
- Trafod y cysyniad cyfredol o gynhwysiant digidol a'r bwlch digidol;
- Ymchwilio a gwerthuso'r fframweithiau presennol ar gyfer mesur y bwlch digidol;
- Proffilio segmentau'r boblogaeth y mae'r bwlch digidol yn effeithio arnynt;
- Trafod y ffactorau a all ddylanwadu ar esblygiad y bwlch digidol yn y dyfodol;
- Archwilio'r achos dros fethiant y farchnad ac ymyriad y sector cyhoeddus i bontio'r bwlch digidol;
- Awgrymu rhai ffyrdd o fynd i'r afael â bylchau yn y sylfaen tystiolaeth cyfredol.[31]

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar Loegr, mae nifer o adrannau yn berthnasol i'r prosiect Cymunedau@Ei Gilydd a'r agenda cynhwysiant digidol yng Nghymru.

Yng nghyd-destun cynhwysiant digidol, mae'r adroddiad yn awgrymu wrth i fwy a mwy o bobl gael eu cynnwys yn ddigidol, bod risg gwirioneddol y bydd y bobl eraill sy'n parhau wedi eu hallgau yn llusgo ymhellach ar ôl gweddill cymdeithas. Bydd difrifoldeb eu hallgau yn dyfnhau - gan olygu y byddant yn colli cyfleuster, gostwng costau byw, mynediad uwch i rwydweithiau cymdeithasol, a mynediad i gyfleoedd cyflogaeth y gall TGCh ei alluogi.[32]

Aiff yr ymchwil ymlaen i wneud nifer o bwyntiau diddorol am gynhwysiant digidol, yn cynnwys:

- Nid un 'bwlch digidol' sydd: mae diffyg cydraddoldeb yn bodoli mewn llawer agwedd o ddefnydd TGCh mewn cymdeithas, ond mae'r gwahaniaethau hynny yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig;
- Mae cynhwysiant digidol yn gymharol: gall cynnydd yn y defnydd o dechnolegau ddyfnhau allgau'r rhai a adewir ar ôl (yr un pwynt â'r uchod);
- Yn nhermau deall maint a natur allgau digidol, dywed yr adroddiad mai'r ffordd fwyaf perthnasol o wneud hyn yw ystyried galluoedd swyddogaethol unigolion - yr hyn y medrant ei gyflawni, yn hytrach na sut y maent yn ei gyflawni;
- Mae trafodaeth bob amser wedi canolbwyntio ar y rhyngrwyd yn hytrach na thechnolegau cyfathrebu eraill - ond mae gan dechnolegau eraill hefyd effaith sylweddol ar fywyd pobl, a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu yn y dyfodol;
- Mae rhyngweithgaredd yn fwyaf cyffredin gyda defnydd rhyngrwyd ar gyfrifiaduron personol; felly mae'n aml yn ffocws llawer o'r ymchwil.[33] .

Canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn nhermau 'mesur' a dadansoddi natur cynhwysiant digidol yw bod:

[29] t.6
[30] t.6
[31] t.6
[32] t.11
[33] t.14

- Technolegau yn tueddu i gyrraedd 'gwastatir' lle mae eu hymdreiddiad marchnad yn aros. Ymddengys fod hyn wedi digwydd eisoes ar gyfer ffonau symudol (ar tua 85-90% o'r boblogaeth fel perchnogion a defnyddwyr) ac ar gyfer y rhyngrwyd (ar 60-61% o'r boblogaeth fel defnyddwyr*)*[34]*";*
- Mae angen i unigolion gael mynediad, cymhelliant, sgiliau a hyder ar gyfer defnyddio unrhyw dechnoleg. Medrir cael gwell dealltwriaeth o nodweddion defnyddwyr a rhai nad ydynt yn defnyddio technoleg drwy edrych ar y rhwystrau sy'n cyfyngu cymhelliant, sgiliau neu hyder pobl*"*[35] *;*
- Mae diffyg sgiliau yn rhwystr i wneud defnydd soffistigedig o TGCh, hyd yn oed ymysg defnyddwyr cyson [36]*";*
- Mae allgauedd digidol yn fwyaf cyffredin ymysg rhai grwpiau sydd mewn risg o allgau cymdeithasol, yn cynnwys yr henoed, pobl economaidd segur, pobl gyda chymwysterau isel neu bobl sy'n byw ar ben eu hunain*"*[37]*;*
- Mae'r rhai sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol deirgwaith yn fwy tebygol o beidio bod yn ddefnyddwyr nag yn ddefnyddwyr y rhyngrwyd[38]
- Mae tystiolaeth bod y rhai sy'n gwneud y gofynion mwyaf ar wasanaethau cyhoeddus hefyd yn tueddu i fod yn llai tebygol o fod wedi'u cynnwys yn ddigidol[39]*;*
- Mae rhai grwpiau mewn risg o gael eu hallgau'n gymdeithasol yn neilltuol o debygol o ddibynnu ar bwyntiau mynediad cyhoeddus i'r rhyngrwyd, yn cynnwys pobl ddi-waith a rhieni unigol [40]*.*

Mae'r adroddiad wedyn yn amlinellu cyfres o 'ysgogwyr newid' sy'n cynnwys:

- Gall y farchnad am fynediad rhyngrwyd a ffonau symudol eisoes bod wedi dod yn gylchol: mae'n debyg fod ffocws y diwydiant TGCh yn awr ar gwsmeriaid presennol, yn hytrach nag ymestyn ei ymdreiddiad marchnad i grwpiau anos eu cyrraedd [41]*;*
- Bydd newid cenhedlaeth yn helpu i ostwng mynychder allgauedd digidol - ond dim ond yn araf. Gan ganiatáu ar gyfer effaith newid cenhedlaeth yn unig (gan gadw pob ffactor arall yn gyson), bydd 31% yn parhau i beidio bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 2015, a 24% yn 2025. Aiff ymlaen i ddweud y bydd bodolaeth craidd pobl ifanc wedi eu hallgau yn golygu y bydd y ffenomen yn parhau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â mwy o bobl, ar wedd technolegau newydd - yn neilltuol mewn teledu digidol rhyngweithiol [42]*.*

Mae'r adroddiad yn cyfeirio wedyn at adroddiad *"Long-term opportunities and challenges"* Trysorlys EM ym mis Tachwedd 2006 a ddywedodd y disgwylir i ostyngiadau parhaol ym mhris TGCh, poblogaeth sy'n gynyddol hyddysg mewn TGCh a chydgyfeiriad technolegau megis mwy o gysylltiadau rhyngrwyd ar ffonau symudol oll i gynyddu defnydd o TGCh yn cyffredinol a gostwng y bwlch digidol ymhellach "(Trysorlys EM 2006)[43] .

[34] t.26
[35] t.26
[36] t.26
[37] t.34
[38] t.34
[39] t.34
[40] t.34
[41] t.40
[42] t.40
[43] t.40

Yng nghyd-destun pontio'r bwlch digidol fel blaenoriaeth polisi, dywed yr adroddiad er fod gostyngiadau brys a chydgyfeirio technolegol yn bendant yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer ymestyn cynhwysiant digidol, nid yw'n glir o gwbl (fel y mae adroddiad y Trysorlys yn ei awgrymu) y bydd hon yn broses organig ac anochel. Bydd angen gweithgareddau allgymorth ar gyfer annog y rhai sydd wedi eu hallgau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r technolegau hyn ar gyfer cyfathrebu, cynnal trafodion a rhyngweithio ar-lein, wedi'i gefnogi gan gynnwys defnyddiol ac ymarferol. Dywedir fod gan gyflenwyr gwasanaeth sector cyhoeddus gymhelliant i arwain yn y maes hwn[44] .

Daw'r adroddiad i'r casgliad fod manteision clir i'w hennill i'r Deyrnas Unedig gyfan o hyrwyddo defnydd technolegau digidol rhyngweithiol. Dywed ymhellach fod y manteision hyn yn cynnwys:

- Mynd i'r afael â rhai o achosion allgau cymdeithasol ac amddifadedd, drwy alluogi pobl gyda chyfleoedd newydd i ryngweithio a gwella eu cyfleoedd bywyd [45];
- Enillion effeithlonrwydd i ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy gynyddu rhyngweithiad gyda'u cleientiaid drwy dechnolegau[46];
- Gwella gallu cystadleuol rhyngwladol, fel canlyniad uwchraddio'r sylfaen sgiliau cenedlaethol a chynyddu effeithiolrwydd[47];
- Cynyddu twf economaidd yn ganlyniad cynyddu effeithiolrwydd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat [48].

Daw'r adroddiad hefyd i'r casgliad fod, serch hynny, gymhlethdodau wrth gynllunio math a maint ymyrriad sector cyhoeddus:

- Daw'r budd posibl mwyaf i gyflenwyr gwasanaeth o ymrwymo gyda'r grwpiau sydd wedi eu hallgau fwyaf yn gymdeithasol mewn TGCh: ond mae'r bobl hyn hefyd yn debygol o fod yr anoddaf eu cyrraedd[49];
- Ni fydd canolbwyntio ar y sylfaen sgiliau TGCh ar gyfer gallu cystadleuol rhyngwladol yn unig yn rhoi dadl ar gyfer estyn allan i rai o'r rhai sydd wedi eu hallgau fwyaf a gall waethygu eu hallgauedd [50].

Yn nesaf ystyriwn *"The Digital Inclusion Landscape in England: Delivering Social Inclusion through ICT"*. (Y Tîm Cynhwysiant Digidol, Mawrth 2007).

Nod y ddogfen hon yw disgrifio tirlun gweithgareddau cynhwysiant digidol yn Lloegr. Y diffiniad bras o gynhwysiant digidol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth oedd defnyddio technoleg, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i wella bywydau a chyfleoedd bywyd pobl a'r lleoedd y maent yn byw ynddynt[51].

Cynhyrchwyd y ddogfen yn dilyn ymchwil gyda rhanddeiliaid ar draws llywodraeth, awdurdodau lleol, diwydiant, academia a'r trydydd sector. Sefydlwyd y Tîm

[44] t.40
[45] t.43
[46] t.43
[47] t.43
[48] t.43
[49] t.44
[50] t.44
[51] t.2

Cynhwysiant Digidol[52] ym mis Mai 2006 fel canlyniad argymhelliad yn adroddiad yr Uned Cynhwysiant Cymdeithasol yn 2005 *"Inclusion Through Innovation"*.

Mae'r adroddiad yn casglu gwybodaeth ar fwy na 260 o brosiectau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn Lloegr. Mae ei brif ganfyddiadau'n cynnwys fod TGCh wedi trawsnewid y ffordd y mae pobl byw, dysgu, gweithio a chwarae, ac ar gyfer llawer o bobl ei bod yn rhwyddach dod o hyd i swyddi, mae gwasanaethau yn fwy cyfleus, nwyddau yn rhatach, rhwydweithiau cymdeithasol yn ddyfnach a medrir clywed barn yn fwy eang. Fodd bynnag, aiff yr adroddiad rhagddo i ddweud nad yw tua 40% o oedolion yn cael manteision y gymdeithas wybodaeth, gyda llawer ohonynt hefyd yn dioddef anfanteision cymdeithasol lluosog[53] ac nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bu unrhyw newid i'r sefyllfa hon ers 2004.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai cynhwysiant digidol fod yn gyfle sy'n croesdorri[54] i fynd i'r afael â phroblemau allgau cymdeithasol, gan amcangyfrif fod tua 15% o'r oedolion ymhlith y boblogaeth yn Lloegr (6 miliwn o bobl) yn dioddef o allgau cymdeithasol a diffyg ymrwymiad gyda TGCh.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o gasgliadau cyffredinol sy'n cynnwys:

- Mae polisïau a strategaethau a defnydd dinasyddion a'r gymunedol o TGCh wedi'u darnio ar draws llywodraeth, diwydiant a'r trydydd sector;
- Mae adnoddau a gwaith hefyd wedi'i ddarnio. Nid yw rhaglenni a pholisïau a fedrai gael eu huno yn cael eu cysylltu. Mae dyblygu ac mae hefyd fylchau;
- Mae rhaglenni a phrosiectau sydd wedi cael effaith gymdeithasol ac sy'n ffurfio sylfaen ardderchog i adeiladu arno, ond mae'r rhain yn tueddu bod yn anodd eu gweld;
- Mae bwlch gwybodaeth eang rhwng timau polisi cymdeithasol ac arbenigwyr technoleg nad yw'n cael ei bontio, gan arwain at ymwybyddiaeth isel o'r cyfleoedd;
- Caiff 'digidol' yn rhy aml ei weld fel diben ynddo'i hunan.[55.]

O ddiddordeb penodol i'r prosiect Cymunedau@Ei Gilydd, aiff yr adroddiad yn ei flaen i dynnu sylw at nifer o rwystrau sy'n llesteirio maint ac ailadrodd cynlluniau llwyddiannus, yn cynnwys:

- Bod cynaliadwyedd yn aml yn fater allweddol ac mae llawer o brosiectau sy'n defnyddio technoleg i sicrhau canlyniadau cymdeithasol yn cael anhawster yn cyflawni model busnes cynaliadwy neu nid ydynt hyd yn oed yn ceisio gwneud hynny. Mae prosiectau'n aml yn parhau'n ddibynnol ar gyllid grant;
- Mae cyllid yn aml wedi ei gloi mewn seilo ar lefel leol ac yn anodd ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion croesdorri fel allgau cymdeithasol;

---

[52] Caiff y Tîm Cynhwysiant Digidol ei ariannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (adran Cymunedau a Llywodraeth Cynulliad Cymru) a'i gynnal gan Ddinas Llundain i weithredu'r adroddiad "Inclusion Through Innovation" a gyhoeddwyd yn 2005. Mae ein ffocws ar sut y gall defnyddio technolegau digidol, o unrhyw fath, mewn modd blaengar wella bywyd a chyfle bywyd pobl sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol a chymdogaethau amddifadus yn Lloegr. Gweler http://digitalinclusion.pbwiki.com/About+Us

[53] t.5

[54] t.20

[55] t.6

- Mae dulliau cyllido yn cael prosiectau peilot ar waith ond anaml y maent yn rhoi adnoddau ail don i alluogi cynyddu maint a throsglwyddo gwybodaeth. Daw llawer o brosiectau i ben ar ddiwedd y cyfnod peilot;
- Heb unrhyw un pwynt ffocws ar gyfer cyllid, gall timau prosiect llwyddiannus wastraffu'r adnoddau sydd ar gael yn mynd o amgylch y llywodraeth a diwydiant yn chwilio am adnoddau newydd[56].

Yn olaf, mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion yn cyfeirio at ardaloedd lle medrid gwneud mwy. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys:

- Gwella strategaeth, dull llywodraethu ac arweinyddiaeth gweithgareddau i gynyddu effaith gymdeithasol technoleg;
- Gallu a meithrin gallu mewn llywodraeth leol a'r trydydd sector yn ymwneud â defnyddio technoleg i gefnogi pobl dan anfantais;
- Uno ac ysgogi rhaglenni pwysig a fedrai fanteisio neu ehangu cynhwysiant digidol, a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau presennol;
- Buddsoddi mewn seilwaith cenedlaethol sy'n hollbwysig i gynyddu effaith cymdeithasol technoleg;
- Mynd i'r afael â rhwystrau i gynyddu maint prosiectau peilot sydd wedi dangos yn glir beth oedd eu hargraff gymdeithasol, yn arbennig canfod modelau cyllid cynaliadwy;
- Dod â'r cymunedau polisi cymdeithasol, ymarferydd a TGCh ynghyd i bontio'r bwlch gwybodaeth ac ysgogi arloesedd;
- Cefnogi partneriaethau effeithlon rhwng llywodraeth, diwydiant a'r trydydd sector;
- Adolygu sut y gall deddfwriaeth bresennol, codau ymarfer a fframweithiau caffaeliad gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a digidol[57].

Yn awr ystyriwn yn fyr *"Digital Inclusion in Partnership"*. (Gweithrediadaeth yr Alban, Chwefror 2007).

Diben y cyhoeddiad hwn yw cofnodi yr hyn a gyflawnodd Llywodraeth yr Alban (fel yr oedd ar y pryd) ers iddi gyhoeddi ei Strategaeth 2001 *"Connecting Scotland's People".*

Mae Adran 1 y cyhoeddiad yn dechrau gyda dadansoddiad gweddol fanwl o ddefnydd TGCh yn yr Alban. Casgliadau allweddol y dadansoddiad hwn yw:

- Bod angen gwneud mwy o waith gyda'r pwyslais ar ymagwedd wahanol i fynd i'r afael â'r themâu allweddol;
- Dengys tystiolaeth fod rhai grwpiau dan anfantais (megis pobl anabl, pobl hŷn a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd amddifadus) yn parhau i fod wedi eu hallgau'n ddigidol;
- Mae 10% o bobl gydag anabledd neu salwch tymor hir 60+ oed yn defnyddio'r rhyngrwyd o gymharu â 23% o bobl o'r un oedran heb unrhyw anabledd neu salwch;
- Mae pobl, yn neilltuol bobl anabl sy'n byw mewn aelwydydd gydag incwm dros £25,000, yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd na rhai gydag incwm dan £10,000;
- Mae ardaloedd amddifadus yn gysylltiedig gyda lefelau isel o ddefnydd rhyngrwyd mewn cartrefi;

[56] t.6
[57] t.7

- Fodd bynnag, mae'n amlwg fod cysylltiad clir rhwng incwm blynyddol aelwyd â defnyddio TGCh.[58].

Mae'r cyhoeddiad yn blaenoriaethu pedair thema allweddol wrth symud ymlaen; sef, yn gryno:

- Hygyrchedd – gwella hygyrchedd ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn;
- Ymwybyddiaeth/Marchnata - datblygu arwyddion a brandio mwy effeithlon ar gyfer pwyntiau mynediad i'r rhyngrwyd sydd ar gael yn lleol a chodi ymwybyddiaeth gyda mwy o darged i amlinellu manteision defnyddio TGCh;
- Hyfforddiant a chefnogaeth – wedi'i deilwra a'i gyfeirio mewn modd priodol yn dibynnu ar y grŵp targed. Mae cwmpas ar gyfer gwell cydlynu rhwng hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i osgoi dyblygu gwaith;
- Ymgyfraniad y gymuned – dylai mynediad cyhoeddus TGCh a rhyngrwyd fod yn targedu cymunedau dan anfantais (yn bennaf mewn ardaloedd amddifadus) gydag incwm isel a lle mae'r mynediad cyhoeddus yn gyfyngedig (e.e. cymunedau gwledig anghysbell).

2.4.2 Polisi'r Undeb Ewropeaidd

Mae polisi'r Undeb Ewropeaidd ar gynhwysiant digidol yn cynnwys nifer o ddogfennau gwahanol ond rhyng-gysylltiedig sy'n cynnwys strategaeth i2010 a lansiwyd ym Mehefin 2008 ac a fwriadwyd fel fframwaith polisi cydlynol ar gyfer oes gwasanaethau telathrebu a chyfryngau sy'n cydgyfeirio.

Prif linynnau strategaeth e-gynhwysiant y Comisiwn yw:

- Gweithredoedd galluogi i bawb gymryd rhan yn y gymdeithas wybodaeth[59]. Mae'r llinyn hwn yn cynnwys mesurau arfaethedig i:
    - Bontio'r bwlch band eang;
    - Pontio'r bwlch e-Hygyrchedd;
    - Mynd i'r afael â'r bwlch gallu digidol.

- Cyflymu cyfranogiad effeithlon o grwpiau targed sydd mewn risg o gael eu hallgau a gwella ansawdd bywyd[60]. Mae'r llinyn hwn yn cynnwys mesurau i:
    - Gynnwys y rhai sydd dan anfantais gymdeithasol drwy e-wasanaethau cyhoeddus modern;
    - Trin heneiddio, amodau iechyd ac anabledd yn y gymdeithas wybodaeth;
    - Ymchwilio cyfleoedd a alluogir gan TGCh ar gyfer pobl ifanc ar yr ymylon ac ymfudwyr mewn risg cael eu hallgau.

- Integreiddio camau gweithredu e-gynhwysiant i gynyddu effaith parhaol i'r eithaf[61]. Mae'r llinyn hwn yn cynnwys mesurau arfaethedig i:
    - Hyrwyddo a chynnal effaith drwy brif ffrydio a chydlynu;

[58] t.4-5
[59] t.6-8
[60] t.8-9
[61] t.9-10

- o Gwella dealltwriaeth a chymharu cynnydd ar e-gynhwysiant.

Cafodd y pwyslais ar gynhwysiant digidol (neu e-gynhwysiant fel y caiff ei alw’n fel arfer yng nghylchoedd yr Undeb Ewropeaidd) ei danlinellu ymhellach ar ôl lansio i2010 ym Mehefin 2006 gyda’r hyn a alwyd yn “Ddatganiad Riga” oedd yn cydnabod pwysigrwydd TGCh mewn termau cymdeithasol ac economaidd ac a ymrwymodd yr UE i nifer o nodau polisi yn gysylltiedig ag e-gynhwysiant.

Amlinellodd Datganiad Riga bwysigrwydd TGCh yn yr Undeb Ewropeaidd drwy ddweud bod TGCh yn sbardun grymus ar gyfer twf a chyflogaeth a bod chwarter twf GDP yr Undeb Ewropeaidd a thua 50%o’r twf cynhyrchiant oherwydd TGCh.

Soniodd hefyd am rai o’r gwahaniaethau y gall TGCh eu creu gan ddweud fod llawer o bobl Ewrop yn dal heb fedi fawr neu ddim buddion o TGCh a bod bylchau’n parhau mewn defnydd o TGCh.

Aeth y Datganiad ymlaen i ganolbwyntio ar nifer o nodau’n gysylltiedig â pholisi dan y penawdau dilynol:

- Mynd i’r afael ag anghenion gweithwyr hŷn a phobl oedrannus [62]*;*
- Gostwng bylchau digidol daearyddol (yn cynnwys targed penodol y dylai gorchudd band eang gyrraedd o leiaf 90% o boblogaeth yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2010)[63];
- Gwella e-Hygyrchedd a’i wneud yn fwy hylaw[64];
- Gwella llythrennedd a galluoedd digidol (gyda tharged penodol i haneru’r bwlch rhwng grwpiau dan anfantais a chyfartaledd poblogaeth yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2010[65]);
- Hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol yng nghyswllt cynhwysiant[66];
- Hyrwyddo e-Lywodraeth cynhwysol (yn cynnwys targed penodol i sicrhau hygyrchedd yr holl wefannau cyhoeddus erbyn 2010)[67]”.

Ym mis Tachwedd 2007, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Gyfathrebiad i’r Senedd Ewropeaidd, Cyngor y Gweinidogion, ECOSOC[68] a Phwyllgor y Rhanbarthau dan y teitl *“To be part of the information society – European i2010 initiative on e-inclusion”*[69].

Mae’r cyfathrebiad hwn yn cyflwyno strategaeth e-gynhwysiant y Comisiwn a gwnaeth hi’n glir fod cynnydd yn dal yn brin er gwaethaf cynlluniau gwerthfawr ac y gall fod na fedrir cyflawni’r rhan fwyaf o dargedau Riga. Mae darnio ymdrechion a diffyg cydweithredu yn parhau.

Aeth ymlaen i ddweud fod yn rhaid gwneud llawer mwy i gyflawni e-gynhwysiant a thargedau Riga[70]*.*

---

[62] t.2
[63] t.3
[64] t.3
[65] t.4
[66] t.4
[67] t.4-5
[68] Y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd.
[69]http://ec.europa.eu/information_society/activities/einclusion/docs/i2010_initiative/comm_native_com_2007_0694_f_en_acte.pdf
[70] t.1

Yn olaf, mae *"Preparing Europe's digital future - The i2010 Mid-Term Review"* [71] (Ebrill 2008), yn tynnu sylw at rai o'r cyflawniadau allweddol a weithredwyd ers strategaeth ddechreuol i2010 a Datganiad Riga. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith rheoliadol newydd ar gyfer gwasanaethau cyfryngau clywedol;
- Cynigion i ddiwygio rheoleiddiad cyfathrebu electronig;
- Rheoleiddiad i greu marchnad sengl ar gyfer defnydd ffonau symudol ar draws ffiniau;
- Cynlluniau i hybu cynnwys ar-lein ar draws Ewrop;
- Cynlluniau cyllid ymchwil a datblygu arloesedd newydd;
- Partneriaethau cyhoeddus preifat (cynlluniau cyd-dechnoleg) a lansio cynlluniau e-gynhwysiant newydd [72].

Yn berthnasol i'r prosiect Cymunedau@Ei Gilydd a'r agenda cynhwysiant digidol yng Nghymru, mae'r adolygiad canol tymor hefyd yn cynnwys adran benodol ar e-gynhwysiant. Prif ganfyddiadau'r adran hon (ar lefel Ewropeaidd) yw:

- 2007 oedd y flwyddyn gyntaf i dros hanner poblogaeth yr Undeb Ewropeaidd ddefnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd (cyrchodd 51% o ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd y Rhyngrwyd o leiaf unwaith yr wythnos, cynnydd o 8% ers 2006);
- Mae'r twf mewn termau defnydd yn amrywio'n sylweddol ar draws 27 aelod yr UE, gyda'r twf uchaf yn Iwerddon (i fyny gan 20%) a Ffrainc (i fyny gan 18%). Roedd y twf lleiaf ym Mwlgaria, Yr Eidal, Portiwgal a Romania. Mae Denmarc, Gwlad yr Iâ a'r Iseldiroedd ar frig y tabl ar ddefnydd a dywedant eu bod yn agos at ddirlawn gyda bron yr holl oedolion ymhlith y boblogaeth yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn rheolaidd yn 2007[73].

Er gwaethaf rhai o'r canfyddiadau calonogol hyn, mae'r adroddiad hefyd yn dweud:

- Nad yw 40% o boblogaeth yr Undeb Ewropeaidd erioed wedi defnyddio'r Rhyngrwyd;
- Bod ymchwil manwl a wnaethpwyd fel rhan o gynllun e-gynhwysiant i2010 yn dangos fod gwahaniaethau mawr mewn defnydd o'r rhyngrwyd a llythrennedd digidol rhwng poblogaeth yr Undeb Ewropeaidd yn gyffredinol a grwpiau dan anfantais. Mae'r ymchwil yn cadarnhau mai'r henoed a'r economaidd segur sy'n llusgo mwyaf ond bod menywod a'r di-waith yn agosáu at gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd;
- Wrth i fwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus a phreifat ddod ar gael ar lein, mae'r bobl sy'n methu eu cyrchu yn wynebu llawer mwy o anfantais[74].

### 2.4.3 Ymchwil yn yr Unol Daleithiau ar Gynhwysiant Digidol

Yma ystyriwn yn fyr *"Power Up: The Campaign for Digital Inclusion. Digital Inclusion Imperatives Offer Municipalities New Social and Economic Opportunities"*. (Papur Gwyn gan Maria E. Wynne a Lane F. Cooper ar gyfer Microsoft Corporation. Heb

[71] Y Seithfed Fframwaith Ymchwil a Rhaglen Cefnogaeth Polisi TGCh dan y Rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi (CIP).
[72] t.8
[73] t.47
[74] t.48

ddyddiad). Mae'r adroddiad hwn a gynhaliwyd ar gyfer Swyddfa Datblygu Economaidd ac Arloesedd Microsoft yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol yn America ac mae'n dechrau drwy amcangyfrif bod degawd fwy neu lai ers cyflwyno'r term Bwlch Digidol i drafodaeth genedlaethol ar bolisi cyhoeddus[75].

Ers hynny, dywed yr adroddiad fod mynediad i dechnoleg gwybodaeth wedi dod yn ffaith dybiedig economaidd-gymdeithasol. Eto aiff ymlaen i ddweud mai ychydig o gynnydd a wnaed wrth wneud technoleg yn hygyrch i bawb. Yn ddiddorol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio yn neilltuol ar y cysylltiad rhwng allgau digidol a chynhyrchiant economaidd, gan ddweud ei bod yn ffaith fod y rhai sydd â mynediad ar-lein ac yn llythrennog yn ddigidol yn fwy tebygol o fod â sicrwydd economaidd ac mewn llai o risg na'r rhai sydd ddim[76].

Fel gyda nifer o adroddiadau o'r Deyrnas Unedig y rhoddwyd sylw iddynt eisoes, mae'r papur hwn hefyd yn awgrymu nad yw mynediad ar ben ei hun yn gyfystyr â chynhwysiant digidol gan bwysleisio fod yn rhaid i lywodraethau ddilyn cynlluniau ehangach i ateb yr her.

Mae'r adroddiad yn ymchwilio rhai "materion allweddol" diddorol sy'n berthnasol i gyd-destun Cymunedau@Ei Gilydd.

Yn nhermau datblygiad economaidd, mae'r adroddiad yn awgrymu fod goblygiadau'r bwlch digidol yn cynyddu wrth i lythrennedd cyfrifiadurol yn America ddod yn ofyniad cynyddol ar gyfer pob math o swydd yn cynnwys rhai a ystyriwyd yn draddodiadol fel rhai llafuriol[77].

Yn benodol, mae'n awgrymu heb fynediad i'r Rhyngrwyd, ei bod yn dod yn gynyddol anodd dod i wybod am gyfleoedd swydd ac ar lefel genedlaethol, bod arbenigwyr yn rhagweld y bydd diffyg llythrennedd digidol yn cael effaith sy'n lleihau cynnydd economaidd[78].

Ar fater cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus drwy TGCh, dywed yr adroddiad fod asiantaethau'r Llywodraeth yn hyrwyddo eu cynlluniau e-Lywodraeth eu hunain i wella gwasanaethau dinasyddion a gwella effeithlonrwydd gweithredol.

Yn seiliedig ar yr ymgyrch gynyddol hon gan lywodraethau i gyflenwi gwasanaethau drwy TGCh, dywed yr adroddiad yn ogystal â bod yn rhwystr wrth gael mynediad i adnoddau technoleg, bod y bwlch digidol yn gynyddol yn llesteirio'r modd y mae'r dinasyddion mwyaf bregus yn derbyn gwasanaethau cymdeithasol hollbwysig[79].

Efallai o'r diddordeb mwyaf uniongyrchol i'r prosiect Cymunedau@Ei Gilydd, mae'r adroddiad yn dynodi nifer o elfennau arfer da a ganfyddir mewn prosiectau cynhwysiant digidol yn yr Unol Daleithiau. Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnwys:

- Ymddengys mai rhaglenni gydag ymagwedd gynhwysol at ymgysylltu â phartneriaid cymunedol sydd wedi mwynhau'r lefelau uchaf o lwyddiant;
- Bod llawer o'r cynlluniau cynhwysiant digidol mwyaf llwyddiannus yn dechrau gyda phenodi tasglu gan faer neu weithgor mewnol. Yn

[75] t.2
[76] t.2
[77] t.4
[78] t.4
[79] t.5

ddiweddarach, caiff yr ymdrechion hyn eu symud i sefydliad elusennol gyda chenhadaeth yn seiliedig ar weithredu ac ehangu cynllun cynhwysiant digidol y ddinas;

- Bod cyfres integredig o strategaethau a gyflwynir mewn camau i ddod â chaledwedd, meddalwedd a gwasanaethau mynediad i'r Rhyngrwyd i'r cymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu. Mae'r adroddiad yn ehangu ar hyn i roi enghreifftiau o asiantaethau cyhoeddus yn amnewid technolegau bwrdd gwaith a rhwydweithio yn eu swyddfeydd, ailwampio ac adnewyddu hen asedau i'w gosod mewn cyfleusterau cyhoeddus neu eu cynnig ar ddisgownt sylweddol i breswylwyr cymwys;
- Bod y cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn cymryd rhan mewn cynlluniau allgymorth ymosodol a gynlluniwyd i dargedu'r holl brif grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaeth digidol, yn cynnwys:

  - Teuluoedd ac unigolion incwm isel
  - Plant
  - Pobl hŷn
  - Pobl gydag anableddau
  - Mewnfudwyr heb fod yn siarad Saesneg.[80]

Gan barhau gyda'r thema nad yw trafod materion ochr gyflenwi (yn nhermau gwneud TGCh ar gael) yn ddigon ynddo'i hunan i bontio'r bwlch digidol, mae'r adroddiad yn awgrymu fod yn rhaid i ganolfannau technoleg cymunedol, tiwtora a chynlluniau addysgol eraill fod yn rhan hollbwysig o gynllun cynhwysiant digidol. Ymhellach, rhaid i'r cwricwlwm fod â chwmpas eang ac ar yr un pryd gyflawni anghenion cynulleidfaoedd targed. Y nod yw rhoi'r sgiliau digidol i'r boblogaeth darged y maent ei hangen i un ai ymrwymo mewn cyfleoedd cyflogaeth neu, yn achos yr anabl neu'r henoed, i gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau bob dydd gyda'r sgiliau mynediad perthnasol [81].

Eto, yn uniongyrchol berthnasol i Cymunedau@Ei Gilydd, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid ystyried cynlluniau cynhwysiant digidol fel dimensiwn tymor hir, hyd yn oed efallai barhaol, o gynnig y gymuned i'w dinasyddion. I hynny o beth, mae'n bwysig dynodi ffynonellau ariannol lluosog a sicrhau strwythur cyflenwi gwasanaeth nad yw'n cael ei newid yn ôl y gwynt gwleidyddol neu dderbyn arian unwaith yn unig.[82]

Aiff ymlaen i dynnu sylw at bwysigrwydd monitro a gwerthuso cynlluniau cynhwysiant digidol, gan ddweud y dylai'r holl nodau perthnasol a nodir ar ddechrau cynllun cynhwysiant digidol gael eu clymu i fesurau penodol y medrir eu holrhain yn annibynnol gan fudd-ddeiliaid allweddol. Bydd diffiniad clir o nodau, amcanion ac amserlen y rhaglen yn allweddol i werthusiad tymor byr o gynnydd a llwyddiant. Mae llywodraethau sy'n ymrwymo i gadw eu hunain yn atebol yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus.[83]

Yn olaf, mae'r adroddiad yn gwneud rhai sylwadau diddorol iawn am yr angen am bartneriaethau traws-sector cryf i gyflenwi'r agenda cynhwysiant digidol, gan ddweud ei fod yn ymwneud yn llwyr â grymuso dinesydd yr 21ain ganrif yn economaidd - gan

[80] t.6-7
[81] t.9
[82] t.9
[83] t.9

eu darparu ar gyfer cyfranogiad llawn ym mhopeth sydd gan yr economi digidol a byd-eang i'w cynnig. Dywedir y bydd angen arloesi ar bob lefel i sicrhau llwyddiant, yn cynnwys partneriaethau na welwyd o'r blaen ymysg y llywodraeth, y sector preifat, arweinwyr dyngarol a chymunedol i sicrhau na chaiff unrhyw ddinesydd ei adael allan o ddyfodol economaidd America [84].

2.4.4 Ymchwil ddiweddar yng Nghymru

Yma ystyriwn bapur gwaith dan y teitl *"Transforming access to public services through ICT enabled channels: Issues for hard-to-reach-groups"*.

Mae hon yn ddogfen ymchwil y bwriadwyd iddi fod yn sylfaen i weithrediad Cynllun e-Fynediad arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o agenda Creu'r Cysylltiadau.

Dywedir y bydd canfyddiadau'r adroddiad yn sylfaen i ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at hyrwyddo a sicrhau mwy o e-gynhwysiant fel rhan o'i hymagwedd strategol at gyflawni cyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl Cymru drwy raglenni megis Cymunedau yn Gyntaf a Cymunedau@Ei Gilydd.[85]

Nod yr ymchwil yw adeiladu dealltwriaeth o broblemau a chyfleoedd yn ymwneud â sut mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus drwy sianeli a alluogir gan TGCh[86].

Tair amcan benodol yr ymchwil oedd asesu:

- Mynediad grwpiau anodd eu cyrraedd i wasanaethau cyhoeddus drwy sianeli a alluogir gan tGCh: gofynion a phroblemau;
- Ffyrdd y gall llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus wella mynediad grwpiau anodd eu cyrraedd i wybodaeth cyngor a gwasanaethau drwy sianeli a alluogir gan TGCh; ac
- yn fwy eang, dylunio gwybodaeth gwasanaeth cyhoeddus sydd â dylanwad sylweddol ar effeithlonrwydd pob sianel mynediad[87.]

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth ac ymgysylltu gydag ystod o randdeiliaid.

Prif ganfyddiadau'r ymchwil yn nhermau mynediad i wasanaethau cyhoeddus gan grwpiau anodd eu cyrraedd yw:

- Bod tystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod cyswllt dros y ffôn a wyneb i wyneb yn parhau'r sianel a ffafrir gan grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol ar gyfer ymgysylltu gyda gwasanaethau cyhoeddus;
- Bod ymchwil Cyngor Defnyddwyr Cymru (adroddiadau "Anghydraddoldeb Rhyngrwyd yng Nghymru") yn awgrymu mai pobl hŷn (56+) neu o ddosbarth cymdeithasol sy'n defnyddio lleiaf ar y rhyngrwyd. Dywedir fod hyn yn bwysig oherwydd bod ymchwil hefyd yn awgrymu fod aelwydydd tlotach hefyd yn debygol o fod â mwy o angen gwasanaethau cyhoeddus a

[84] p.10
[85] p.5
[86] p.5
[87] p.6

gwybodaeth, eto medrai problemau wrth iddynt gael mynediad drwy dechnolegau newydd olygu, heb gael ymyriadau wedi'u targedu'n ofalus, y medrai'r dechnoleg hon gynyddu yn hytrach na helpu mynd i'r afael â'r anfantais yma.[88]

Ym mhennod 5 (yn debyg iawn i ddogfennau polisi eraill a adolygwyd), mae'r adroddiad yn dweud fod y grwpiau dilynol yn debygol o gael mwy o broblemau/anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus ar-lein:

- Pobl anabl;
- Pobl gyda Sgiliau Sylfaenol isel
- Pobl hŷn
- Pobl ddu a lleiafrif ethnig.[89]

Mae Pennod 6 yr adroddiad hwn[90] yn trafod canllawiau ac arfer da yng nghyswllt cynhwysiant digidol. Mae'n dweud er y gall ymyriadau gwasanaeth cyhoeddus llywodraeth Cymru o amgylch dylunio technoleg gymhorthol fod yn gyfyngedig iawn, y bu ymyriadau sylweddol i roi cyfle, hyder a sgiliau i bobl anodd eu cyrraedd i ddefnyddio TGCh. Mae Cymunedau@Ei Gilydd a Credu Digilabs yn amlwg ymhlith yr ymyriadau hyn.

Yn olaf, ystyriwn yn fyr Adroddiad Cenhedloedd a Rhanbarthau OFCOM ar gyfer Cymru, sy'n ystyried y darlun yng nghyswllt argaeledd a defnydd band eang.

Dywed yr adroddiad fod defnydd band eang yng Nghymru wedi cynyddu gan 3 bwynt canran i 45% ers diwedd 2006.  Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dweud mai Cymru sydd â'r ymdreiddiad band eang isaf o blith cenhedloedd y Deyrnas Unedig a bod hyn yn gwrthgyferbynnu gyda thwf sylweddol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig; yn Lloegr cynyddodd defnydd o 44% i 57%, yn yr Alban o 46% i 57% ac yng Ngogledd Iwerddon o 42% i 52%.

Yn nhermau sut y caiff ymdreiddiad band eang i ledaenu ar draws Cymru, canfu adroddiad OFCOM ei fod yn uwch ar draws yr ardaloedd trefol mwy yn y de (58% yng Nghaerdydd a 56% yn Abertawe) ac yn is yn nhrefi llai y de (34%). Mae defnydd band eang yng Nghymru wledig yn debyg i'r hyn yw yn ardaloedd gwledig Gogledd Iwerddon, ond yn is nag yn Lloegr a'r Alban.

Mae hefyd yn werth nodi i Ystadegau Gwladol [91] yn ystod mis Awst gyhoeddi ffigurau ar fynediad i'r Rhyngrwyd yn y Deyrnas Unedig. Er bod yr ystadegau hyn yn cyd-fynd ag asesiad OFCOM y bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o fand eang yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (roedd gan 56% o holl aelwydydd y DU gysylltiad band eang yn 2008, wedi cynyddu o 51% o 2007), yn wahanol i OFCOM, mae'n awgrymu mai'r rhanbarth sydd â'r lefel mynediad isaf i'r Rhyngrwyd yw Gogledd Ddwyrain Lloegr gyda 54%. Ymhellach, ac yn wahanol iawn i OFCOM, mae Ystadegau Gwladol yn awgrymu fod Cymru yn awr wedi goresgyn Lloegr gyda 67% o'r aelwydydd â mynediad i'r Rhyngrwyd o gymharu â 66% yn Lloegr a 61% yn yr Alban.

[88] t.6-7
[89] t.26-29
[90] t.30-33
[91] Ffynhonnell: www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=8

Mae'n bwysig nodi fod data Ystadegau Gwladol (sy'n rhoi Cymru o flaen Lloegr) yn cyfeirio at fynediad i'r Rhyngrwyd, tra bod data OFCOM yn cyfeirio'n unig at ymdreiddiad band eang. Serch hynny, mae'n amlwg bod rhyw reswm am yr y gwahaniaeth rhwng y ddwy ffynhonnell ddata wahanol hyn.

### 2.4.5 Casgliadau'r Adolygiad Polisi

Mae nifer o negeseuon a themâu allweddol sy'n deillio o'r adolygiad polisi sy'n berthnasol i'n dealltwriaeth o'r prosiect Cymunedau@Ei Gilydd:

- Ymddengys fod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn gynyddol fel amcan polisi pwysig ar draws y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt. Mae'r ffaith fod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig Weinidog gyda chyfrifoldeb arbennig dros gynhwysiant digidol a Phwyllgor Cabinet sy'n paratoi strategaeth a chynllun gweithredu yn tanlinellu lefel yr ymrwymiad a roddir iddo ar lefel y Deyrnas Unedig;
- Ymddengys fod cydnabyddiaeth glir (mewn cyd-destun Ewropeaidd ac yn fwy eang e.e. yn yr Unol Daleithiau) fod cysylltiad agos iawn rhwng allgau digidol, tlodi a grwpiau dan anfantais;
- Wrth i nifer gynyddol o bobl ym mhob rhan o'r byd gael mynediad i TGCh a dod yn fwy llythrennog mewn TGCh, bydd y rhai sydd hebddo yn cael eu hallgau'n gymdeithasol hyd yn oed yn fwy (er enghraifft o gyfleoedd marchnad lafur a mynediad cyfartal i wasanaethau cyhoeddus);
- Ymddengys fod cydnabyddiaeth eang fod rôl ar gyfer ymyriad gan y llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wrth fynd i'r afael ag allgauedd digidol ac awgrym fod cyfraddau ymdreiddiad technoleg yn cyrraedd gwastad, gyda'r sector preifat yn canolbwyntio mwy ar werthu cynnyrch mwy datblygedig i ddefnyddwyr presennol nag ar ddenu defnyddwyr newydd;
- Er bod y rhesymeg dros ymyriad yn ymddangos heb ei gwestiynu, mae mynd i'r afael â'r bwlch digidol yn her gymhleth a thrwy ddiffiniad mae'r rhai sydd wedi eu hallgau yn debygol o fod yn grwpiau 'anodd eu cyrraedd';
- Mae cynlluniau cynhwysiant digidol llwyddiannus yn galw am gyfeiriad polisi cryf, arweinyddiaeth glir ac amserlenni cymharol glir, gyda'r prosiectau a'r rhaglenni mwyaf llwyddiannus yn cynnwys elfennau allgymorth rhagweithiol;
- Yn ogystal â sylfaen polisi cryf, mae tystiolaeth i awgrymu fod partneriaethau gweithgar ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn bwysig iawn i gynaliadwyedd parhaus cynlluniau cynhwysiant digidol.
- Erys llawer i'w wneud i hyrwyddo argaeledd a defnydd TGCh yng Nghymru: er gwaethaf data mwy calonogol gan yr Ystadegau Gwladol ar fynediad i'r Rhyngrwyd, mae data diweddar gan OFCOM yn awgrymu fod Cymru'n llusgo'n sylweddol ar ôl y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn nhermau ymdreiddiad band eang.

Yn olaf, mae'n glir y cyflwynwyd Cymunedau@Ei Gilydd yn gynharach na chryn nifer o'r cynlluniau polisi a strategaeth cynhwysiant digidol hyn (gan olygu iddo gael ei ddatblygu a'i weithredu o leiaf ar y dechrau mewn gwagle polisi). Mae'r ffaith fod amcanion a gweithgareddau Cymunedau@Ei Gilydd yn cyd-fynd mor dda gyda'r blaenoriaethau polisi presennol ac yn wir lawer o'r arfer da a ddynodwyd o wledydd eraill yn dangos yn ein barn ni y bu'r rhaglen yn flaengar ac "o flaen y gêm" mewn llawer ffordd. Yn y cyd-destun hwn, dylai profiad

Cymunedau@Ei Gilydd fod yn berthnasol wrth fod yn sylfaen i'r tirlun polisi Cynhwysiant Digidol sy'n esblygu, yn neilltuol o fewn y Deyrnas Unedig.

## 3.0 Canfyddiadau

Yn yr Adran hon adroddwn ein canfyddiadau, gan ddefnyddio'r gwaith maes a gynhaliwyd yn ystod pob un o'r tri cham o'r gwerthusiad yn ein hardaloedd astudiaethau achos ac ardaloedd grwpiau rheoli, yn ogystal ag ymchwil desg a chyfweliadau gyda staff a "rhanddeiliaid canolog". Ystyriwn yn eu tro y mewnbynnau a ffactorau allanol, prosesau'r Rhaglen a'r ffordd yr oeddent yn gweithredu, effeithiau uniongyrchol (neu allbynnau) gweithgaredd y Rhaglen ei hun a'r prosiectau sydd eisoes wedi derbyn cyllid, effeithiau tymor hwy (neu ganlyniadau) ac effeithiau'r Rhaglen.

### *3.1 Mewnbynnau a Ffactorau Allanol*

3.1.1 Mewnbynnau ar lefel ganolog

Ar wahân i'r adnoddau uniongyrchol oedd ar gael ar gyfer gweithredu'r Rhaglen, roedd nifer o ffactorau galluogi a gynorthwyodd Cymunedau@Ei Gilydd.

Yn gyntaf, yn amlwg, fel prosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru, bu maint perchnogaeth ac ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad yn bwysig. Roedd yn glir adeg ein Hadroddiad Llinell Sylfaen fod ymrwymiad sylweddol gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, hyd yn oed os oedd adnoddau staff yn gyfyngedig. Ymhellach, gwelwyd fod ymrwymiad gwleidyddol ar lefel uchaf.

Os unrhyw beth, ymddengys fod maint yr ymrwymiad gwleidyddol i'r rhaglen wedi cynyddu yn ystod oes y Rhaglen ac yn y gwaith maes cam olaf, soniodd llawer o'r staff a'r budd-ddeiliaid canolog am bwysigrwydd ymgyfraniad cyhoeddus iawn Leighton Andrews AC, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, fel cefnogwr y Rhaglen.

Ar yr un pryd, ar bob cam o'r gwaith maes, mynegodd rhanddeiliaid canolog rai amheuon i ba raddau yr oedd Cymunedau@Ei Gilydd yn gweithio o fewn fframwaith polisi eglur:

*"Cyn belled ag y gwn nid yw'r Cynulliad erioed wedi cael polisi ar gynhwysiant digidol, felly doedd dim polisi iddo eistedd o'i fewn, cyd-destun strategol".*

*"Dwi ddim yn cael teimlad o agenda [cynhwysiant digidol cyflawn".*

Roedd hefyd gonsensws eang ymysg rhanddeiliaid tra ystyrid bod cynhwysiant digidol yn bwysig (yn gynyddol felly yn ystod oes y Rhaglen) gan unigolion mewn ystod o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, nid oedd hyn o reidrwydd yn cael ei ddeall yn eang yn eu mysg:

*"Byddwn yn dweud fod unigolion sydd yn deall pa mor bwysig yw ... ac os pe medrid ei drosi yn strategaeth go iawn ... yna y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr"*

*"Mae cynhwysiant digidol yn cael ei ddeall gryn dipyn yn well nag a gafodd erioed ond dwi ddim yn meddwl ein bod yno eto".*

Nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen fod llawer o randdeiliaid yn ystyried fod diffyg ymrwymiad gan AADGOS[92] ar y pryd yn rhwystr. Er bod cynrychiolwyr o APADGOS wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori yn rheolaidd, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn dal i deimlo tuag at ddiwedd y Rhaglen fod diffyg ymrwymiad gwirioneddol, er y câi hyn yn awr ei weld fel mwy o fater strwythurol, gan adlewyrchu'r flaenoriaeth isel a gaiff dysgu yn y gymuned o fewn yr Adran - a'i chyllideb.

*"Dwi ddim yn gweld unrhyw dystiolaeth yn stwff APADGOS eu bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd dysgu anffurfiol".*

Yn ail, yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen gwnaethom esbonio sut y medrodd Cymunedau@Ei Gilydd o'r cychwyn cyntaf ddefnyddio rhywfaint o arbenigedd a brwdfrydedd a fodolai eisoes gan ystod o sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru (yn cynnwys BT Cymru, Citizens Online, y BBC ac Ymddiriedolaeth Scarman) a bod unigolion allweddol o'r sefydliadau hyn wedi cymryd rhan mewn ffordd agored iawn o gam cynnar yn natblygiad y prosiect. Nodwyd fod yr unigolion hyn wedi mynd ymlaen i fod â rhan bwysig yn y Rhaglen drwy gymryd rhan yn y Grŵp Ymgynghori a'r Panel Grantiau.

Parhaodd pwysigrwydd cyfraniad yr unigolion hyn (gyda chefnogaeth eu sefydliadau) i gael ei weld fel ffactor alluogi allweddol ar gyfer y Rhaglen gan staff a rhanddeiliaid canolog drwy gydol oes y Rhaglen, er bod pwyslais cryfach yn y gwaith maes cam terfynol ar faint bychan y "craidd" hwn".

*"Roedd ychydig o unigolion oedd â'r ddealltwriaeth a gweledigaeth a'r wybodaeth dechnegol i raddau oedd yn ddoeth iawn ac a helpodd lawer arnom ac roedd hynny'n nifer fach iawn ... dwi'n meddwl ei fod yn anodd mewn rhai achosion ... roedd ychydig o bobl oedd heb ddiddordeb breiniol eu hunain ac roedden nhw'n wirioneddol ddefnyddiol".*

*"Fe fyddwn i'n dweud ei fod yn teimlo fel bod craidd bychan iawn, pedwar neu bump o bobl ... roedd yn grŵp mwy ar bapur, neu un ai doedden nhw ddim yn dod i gyfarfodydd neu os oedden nhw, doedden nhw ddim yn dweud llawer iawn o gymharu â'r pedwar neu bump o rai uchel eu cloch, yn fy nghynnwys i".*

Credai fod bron yr holl randdeiliaid yn hollbwysig i lwyddiant y Rhaglen, ond er efallai na fydd yn rhwydd atgynhyrchu'r raddfa hon o ymrwymiad, nododd un unigolyn allweddol y sicrhawyd cefnogaeth drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf, a bod eu syniadau'n cael eu croesawu'n ddiffuant gan y rhai'n gyfrifol am ddatblygu'r prosiect:

*"Crëwyd amgylchedd ar eu cyfer .. oedd yn agored, deinamig, creadigol .. doedd gennym ni ddim agenda ffurfiol .. cafodd gofod ei greu ar gyfer trafodaeth, lle aethom i fewn am 2 neu 3 awr bob pythefnos a mynd i'r afael â'r materion pwysicaf ... un ar y tro .. fe aethom i'r afael hwy nes bod canlyniad ar ddiwedd y broses, sef y prosiect."*

Fel canlyniad, fel y dywedodd un o'r rhanddeiliaid allweddol hyn:
*"Doedden ni byth yn ei chael yn anodd cytuno beth oedden nhw'n ceisio ei wneud".*

[92] Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Nawr yn APADGOS – Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Trydydd "ffaith dybiedig" ar gyfer y Rhaglen - yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio oedd yn ei noddi - oedd targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Adeg yr Adroddiad Llinell Sylfaen, gwelsom fod rhanddeiliaid canolog yn ystyried bod hyn yn ffactor cadarnhaol, gan fod strwythurau wedi eu sefydlu ar gyfer y Rhaglen, ac yn fwy neilltuol y Broceriaid, i gyfeirio atynt ac adeiladu arnynt, neu ar ei waethaf yn mynd rhwng y cŵn a'r brain, o gofio am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Rhaglen a'r amserlenni byr y datblygwyd y Rhaglen ynddi.

Roedd safbwyntiau ar ddiwedd y Rhaglen yn fras debyg gyda mwyafrif y rhanddeiliaid (yn neilltuol ymysg y staff oedd yn ymwneud â chyflenwi'r Rhaglen) yn teimlo y bu'n hanfodol cael ffocws clir ar y dechrau, ac i weithio mewn ardaloedd lle'r oedd strwythurau sefydledig yn eu lle:

*"Fe alluogodd y Rhaglen i fod yn hylaw ... fe'n galluogodd i fagu dannedd".*

*"Roeddem angen strwythurau yn y fan a'r lle ac roedd Cymunedau yn Gyntaf yn wirioneddol bwysig i fod yn gorn bwch ... fe fedrem fynd at y Cydlynwyr a gofyn pwy oedd y bobl bwysig ... dyw'n model ni ddim yn gweithio ar dir llwm, byddech angen model gwahanol".*

Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn parhau i  weld y ffocws ar Cymunedau yn Gyntaf yn hanfodol gwaetha'r modd:

*"Fe fedrai wedi bod yn brosiect gwell byth pe byddai'n brosiect Cymru gyfan... fy nheimlad greddfol yw fod pobl wedi eu hallgau'n ddigidol ym mhob rhan o Gymru ... ond rwy'n cydnabod y cyfyngiadau amser, y cyfyngiadau cyllid, yr holl bethau hynny".*

*"Roeddwn bob amser yn teimlo ei fod yn drueni ... mae digon o bobl sydd wedi eu hallgau'n ddigidol y tu allan i'r ardaloedd hynny ... ond mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn anodd gweld pa ffordd arall y medren ni fod wedi mynd"*

Ffactor alluogi arall i'r Rhaglen oedd sgiliau a phrofiad Canolfan Cydweithredol Cymru - yn neilltuol mewn rheoli prosiectau ac, yn fwy penodol, mewn rheoli prosiectau sy'n cael eu hariannu gan Ewrop. Roedd rhanddeiliaid yn ystyried bod hyn yn neilltuol o bwysig wrth gael cychwyn cyflym i'r Rhaglen, nid yn lleiaf yn nhermau recriwtio'r Broceriaid.

Yn olaf, fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, un maes gwendid yn sylfaen i'r Rhaglen y siaradodd nifer o randdeiliaid amdano oedd diffyg unrhyw fapio cydlynol ar gyfleusterau a gallu ar draws ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Er y medrodd y Rhaglen ddefnyddio nifer o astudiaethau, a gynhaliwyd gan Citizens On-line, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (ar ran ELWa fel yr oedd bryd hynny ac yn canolbwyntio ar ddefnydd y sector gwirfoddol o e-ddysgu) a BT, cyfaddefodd y rhai oedd yn gysylltiedig gyda'r astudiaethau hyn eu bod yn *"gyflym ac yn fudr",* gan ddangos rhai gwersi generig (er enghraifft, roedd y materion allweddol yn ymwneud â sgiliau a chymhelliant pobl mewn cymunedau amddifadus i ddefnyddio offer, ac nid am fodolaeth yr offer ei hunan) a'r grwpiau demograffig oedd fwyaf tebygol o fod wedi eu hallgau'n ddigidol. Yn ymarferol, ni roddodd yr ymchwil unrhyw beth tebyg i mapio gofodol cynhwysfawr a fedrai fod wedi bod yn sylfaen i ddatblygiad prosiectau ar lefel leol - barn a gadarnhawyd gan ein hadolygiad ein hunain o'r dogfennau hyn.

### 3.1.2 Mewnbynnau ar y Lefel Leol

Roedd yn amlwg o'n gwaith dechreuol gyda'r ardaloedd astudiaeth achos mai un o'r materion cyd-destunol allweddol yn llunio gwaith Cymunedau@Ei Gilydd yn y maes oedd y ffordd yr oedd Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu yn ardaloedd yr astudiaeth achos. Adeg yr Adroddiad Llinell Sylfaen, amcangyfrifwyd fod proses a strwythurau Cymunedau yn Gyntaf yn broblemus iawn ac yn achosi rhwyg mewn pedair allan o'r deg ardal[93], roedd problemau llai difrifol mewn tair ardal ac roedd Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu'n llyfn mewn tair ardal arall.

Dros oes y Rhaglen ymddengys y bu peth newid yn y deinameg cefndir hyn. Erbyn cam olaf ein hymchwil, roedd y berthynas waith o fewn Cymunedau yn Gyntaf mewn dwy o'r ardaloedd lle bu gan Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf broblemau gweddol ddifrifol wedi gwella cryn dipyn ac adroddwyd y bu peth gwelliant mewn traean ohonynt ynghyd ag un o'r ardaloedd lle bu anawsterau llai difrifol. Ar y llaw arall, roedd rhai anawsterau wedi codi'n ddilynol mewn dwy o'r tair ardal lle ymddangosai fod Partneriaethau Cymuendau'n Gyntaf yn gweithio'n rhesymol dda yn 2006.

Fodd bynnag, byddai'n ymddangos fod y ffordd yr oedd partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu wedi dylanwadu ar effeithlonrwydd neu ddiffyg effeithlonrwydd yr ymdrech i ymrwymo grwpiau cymunedol yn Cymunedau@Ei Gilydd ond nid yn ei bennu. Roedd ein hardal astudiaeth achos oedd â'r casgliad mwyaf egniol o brosiectau Cymunedau@Ei Gilydd yn ardal lle'r oedd proses Cymunedau yn Gyntaf i ddechrau wedi cael anawsterau sylweddol, er ei bod hefyd yn un lle'r oedd Cymunedau yn Gyntaf wedi dechrau cyflenwi dros y cyfnod gwerthuso. Yn yr ardal hon a dwy ardal arall lle'r oedd y berthynas rhwng y gwahanol bartneriaid yn cymryd rhan yn Cymunedau yn Gyntaf yn broblemus, roedd y Broceriaid wedi llwyddo i beidio cael eu dal yn y wleidyddiaeth leol ac mewn canfod ffyrdd eraill "i mewn" i'r sector gwirfoddol a chymunedol.

*"Fe wnes hi'n ddigon clir o'r cychwyn mod i'n mynd i gadw allan ohoni, nad oeddwn i'n mynd i gymryd ochr. Rwyf wedi gorfod ceisio'n eithaf caled i gadw allan ohoni oherwydd maent i gyd wedi bod yn ceisio cael cefnogaeth ... mae'r un peth yn wir gyda'r gwrthdaro rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r Cyngor ... rydwi wedi cadw fy nhrwyn allan o'r holl wleidyddiaeth".*

Er y gall cael Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf effeithlon fod wedi bod yn bwysig wrth gael sbringfwrdd i'r Brocer i ymgysylltu gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach mewn rhai ardaloedd, nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu fod Cymunedau@Ei Gilydd yn parhau wedi plethu gyda Cymunedau yn Gyntaf: mewn un ardal, lle'r oedd y Brocer wedi dibynnu'n helaeth ar Cymunedau yn Gyntaf ar y dechrau, ychydig o gysylltiad oedd erbyn cam y gwaith maes terfynol.

Fodd bynnag, mewn tair o'n deg ardal astudiaeth achos, ymddengys fod materion yn ymwneud â'r berthynas o fewn Cymunedau yn Gyntaf a rhwng y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf a chwaraewyr allweddol eraill wedi "mygu" gweithgaredd ar ran Cymunedau@Ei Gilydd: dim ond un proisect a ariannwyd ym mhob un o'r ardaloedd hyn ac roedd yn eglur fod Broceriaid wedi blaenoriaethu ardaloedd eraill

[93] Dim ond naw astudiaeth achos "ardal" sydd ond mae un o'r tair astudiaeth achos "prosiect" wedi ei lleoli mewn dim ond un ardal Cymunedau yn Gyntaf, felly cafodd yr ardal ei hystyried wrth ochr y naw arall ar gyfer dibenion y dadansoddiad

Cymunedau yn Gyntaf yn eu "hardal" oherwydd yr anhawster tybiedig o weithio gyda hwy:

*"Mae ynglŷn â'r bobl sy'n sefyll rhyngoch chi a'r gymuned, dydyn nhw ddim yn wir yn deall Cynhwysiant Digidol"*

Ymddengys mai ffactor allanol bwysicach wrth benderfynu llwyddiant neu fel arall Cymunedau@Ei Gilydd – efallai heb fod yn syndod – yw egni'r sector cymunedol a gwirfoddol ehangach yn yr ardal dan sylw. Nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen fod hyn yn amrywio'n helaeth rhwng gwahanol ardaloedd astudiaethau achos, gyda phedair o'r ardaloedd â sector gwirfoddol a chymunedol gweddol gyfyng gydag, ym mhob achos, dim ond un neu lond dwrn o sefydliadau gyda staff cyflogedig a chwech ohonynt heb hyd yn oed un Ganolfan Gymunedol gyda staff cyflogedig ynddynt.

Cafodd y patrwm ei adlewyrchu yn nhermau'r seilwaith TGCh a fodolai eisoes gyda phedair ardal (yr un pedair y nodwyd fod ganddynt sector cymunedol/gwirfoddol gweddol fawr), gyda nifer o gyfleusterau TGCh rhesymol dda, ar agor i'r cyhoedd neu i sectorau neilltuol o'r gymuned (yn neilltuol bobl ifanc) un ai o fewn y ward Cymunedau yn Gyntaf neu'n agos iawn ati; pedair ardal gyda chyfleusterau mwy cyfyngedig, a fodolai cyn y Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd, o fewn y ward oedd yn rhoi peth mynediad i sefydliadau cymunedol ac unigolion i TGCh a'r rhyngrwyd; a dwy ardal heb unrhyw gyfleusterau TGCh ar gael i'r cyhoedd yn agos er yn y ddau achos roedd ystafelloedd TGCh mewn llyfrgell ar gael o fewn pellter cerdded.

Yn ddiddorol, mewn pump o'n hardaloedd astudiaethau achos, dim ond un sefydliad oedd yn derbyn cyllid Cymunedau@Ei Gilydd (ac mewn tri o'r achosion hyn, y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ei hunan oedd hynny) ac roedd y pump hyn i gyd ymysg y chwech yr aseswyd nad oedd ganddynt fawr iawn o seilwaith gwirfoddol neu gymunedol yn bodoli eisoes a fawr neu ddim o ran cyfleusterau TGCh mynediad agored. Yn yr ardal arall (lle'r oedd y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys yr ardal astudiaeth achos a'r ward gyfagos, oedd hefyd yn gymwys am Cymunedau yn Gyntaf), derbyniodd pedwar sefydliad gyllid (er bod un wedi'i seilio'n ffisegol yn ardal yr astudiaeth achos, gyda'r tri arall yn y ward gyfagos). Yma, er bod nifer y sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn fach, roedd y Brocer wedi medru dibynnu ar rwydwaith a fodolai eisoes o sefydliadau oedd wedi rhoi "ffordd i mewn" i'r sector. Roedd tri o'r pedwar sefydliad a ariannwyd wedi cymryd rhan gyda'r rhwydwaith hwn, gyda'r pedwerydd yn cael ei redeg gan unigolion yr oedd eu teuluoedd yn cael eu cyflogi gan un o'r sefydliadau eraill.

Oherwydd amserlen fyr y Rhaglen a'r bwriad eglur i weithio o'r gwaelod i fyny, nid yw'r gydberthynas rhwng llwyddiant Cymunedau@Ei Gilydd wrth gael cynlluniau ar waith ac egni blaenorol y sector cymunedol yn syndod.

Fodd bynnag, y mae'n golygu fod Cymunedau@Ei Gilydd wedi gweithio'n fwyaf effeithlon yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd eisoes gryn dipyn o weithgaredd ac wedi llwyddo llai cystal lle nad oedd y tir mor ffrwythlon.

Ymhellach, yn yr holl ardaloedd astudiaethau achos, nid oedd tystiolaeth o unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn nhermau seilwaith TGCh heb fod yn gysylltiedig â Cymunedau@Ei Gilydd. Yn wir, mewn un neu ddwy o'r ardaloedd, os unrhyw beth roedd pethau wedi mynd ar i nôl; mewn un achos, er enghraifft, roedd ystafell TGCh mewn ysgol a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgareddau allgymorth ar gyfer oedolion wedi'i thynnu'n ôl, tra mewn ardal arall roedd canolfan gymunedol, oedd wedi cynnig

peth mynediad i gyfrifiaduron personol hŷn ar gyfer defnyddiau anffurfiol a mwy ffurfiol, wedi ei chau. Os yw hyn yn awgrymu yn absenoldeb Cymunedau@Ei Gilydd, y medrai mynediad TGCh hygyrch i'r cyhoedd fod wedi dod yn fwy anodd, yn hytrach na llai anodd, yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, byddai'n ymddangos fod hyn y cadarnheir hyn gan y tair ardal grŵp rheoli.

Mewn dwy o'r ardaloedd hyn bu mynediad cyfyngedig i gyfleusterau TGCh drwy lyfrgelloedd lleol adeg ein gwaith maes dechreuol. Yn y ddwy ardal, cadwyd hyn ond mewn un achos heb adnewyddu'r cyfrifiaduron personol. Yn y llall, er symud i safle newydd, roedd yr oriau agor wedi parhau wedi'u cyfyngu i bedwar hanner diwrnod yr wythnos.

Ymhellach, yn achos yr un ardal grŵp rheoli lle bu peth hyfforddiant TGCh ar gael fel canlyniad i'r cyrsiau allgymorth a gafodd eu rhedeg gan y Coleg lleol, roedd y rhain wedi dod i ben erbyn adeg ein gwaith maes diweddaraf oherwydd na chredai'r Coleg y medrai sicrhau nifer digonol o gofrestriadau: mewn ardal arall, nid oedd ymdrechion i annog darparwyr dysgu i gynnal cyrsiau TGCh mewn prosiect cymunedol wedi llwyddo ac yn wir, roedd prosiect a roddodd rai cyfleoedd dysgu ar fin cau.

Yn y drydedd ardal, nad oedd ganddi ddim o ran darpariaeth cyfleusterau neu hyfforddiant TGCh hygyrch i'r cyhoedd adeg yr Adroddiad Llinell Sylfaen, ymddangosai na fu unrhyw gynnydd yn ystod y ddwy flynedd y bu Cymunedau@Ei Gilydd yn gweithredu.

Felly mae'r ardaloedd grwpiau rheoli yn awgrymu'n gryf, ar lefel Rhaglen, y gwrthffeithiol yw mai ychydig o wella i'r "cynnig" yn nhermau mynediad wedi'i gyfryngu i TGCh i bobl heb fynediad i offer, neu'r sgiliau i'w ddefnyddio, y medrid fod wedi'i ddisgwyl.

O fewn yr ardaloedd astudiaethau achos, ymddengys mai ychydig o newid fu yn nhermau mynediad i hyfforddiant TGCh mwy ffurfiol. Er bod ein hymchwil llinell sylfaen yn awgrymu nad oedd Broceriaid (a phartneriaid eraill) mewn gwirionedd wedi llwyddo i gynnal mapio manwl o argaeledd hyfforddiant o'r fath, ymddangosai'n glir fod gan bron y cyfan o'r ardaloedd astudiaeth achos fynediad i hyfforddiant TGCh ar ddim cost neu ar gost isel gan ystod o ddarparwyr o fewn yr ardal neu'n agos iawn ati, gyda'r rhwystrau i unigolion sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol rhag dilyn y cyfleoedd heb fid yn rhai ffisegol neu hyd yn oed ariannol ond yn rhai agweddol.

Yn gyffredinol, lle'r oedd gwybodaeth ar gael, nid oedd yn ymddangos y bu llawer o newid yn nhermau argaeledd cyfleoedd dysgu TGCh lleol (heblaw am y rhai a ddarparwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd ei hunan) erbyn adeg ein gwaith maes terfynol, er mewn un ardal roedd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), y prif ddarparydd, yn ddiweddar wedi dechrau codi tâl am gyrsiau a chredid fod hynny yn cael effaith negyddol ar y galw. Mewn ardal arall teimlid fod y ddarpariaeth wedi gwella rywfaint fel canlyniad i gyrsiau allgymorth a gaiff eu rhedeg fel rhan o gynllun Cymunedau yn Gyntaf.

Fodd bynnag (fel yng ngham llinell sylfaen yr ymchwil), yn gyffredinol nid oedd gan Froceriaid a rhai eraill a gyfwelwyd wybodaeth fanwl o ba gyrsiau oedd ar gael ble.

Adeg ein hymchwil llinell sylfaen, roedd y dystiolaeth a gynigwyd gan gyfweleion (er yn ddarniog) mewn wyth o'r ardaloedd yn awgrymu mai'n gyffredinol ar gyfer tasgau gweinyddol gweddol sylfaenol (e.e. ysgrifennu llythyrau a dogfennau, cyfrifon,

cynhyrchu taflenni a chyhoeddusrwydd arall) yn unig oedd grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol gyda staff taledig yn defnyddio TGCh, ac yn aml nid oedd grwpiau a gâi eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr hyd yn oed yn defnyddio TGCh ar gyfer hynny. Yn neilltuol yn y Cymoedd, teimlid fod mwyafrif grwpiau cymunedol yn ymdopi gyda defnydd cyfyngedig iawn neu ddim defnydd o gwbl o TGCh, a ddangoswyd gan Gadeirydd un grŵp a dderbyniodd gyllid gan y Rhaglen oedd wedi dechrau defnyddio ei gyfrifiadur cartref i gynhyrchu cofnodion cyfarfodydd ond iddo roi'r gorau i wneud hynny oherwydd:

*"Wydden nhw* [aelodau eraill y Pwyllgor] *beth i'w wneud hefo'u darnau papur, felly dwi wedi mynd yn ôl i'w darllen o'r llyfr cofnodion".*

Ymddangosai hyn yn wir hefyd yn ardaloedd y grwpiau rheoli. Mewn dwy ardal astudiaeth achos, fodd bynnag, y ddwy yn ardaloedd gyda nifer fawr o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn yr ardal, teimlid fod mwy o grwpiau yn defnyddio cyfrifiaduron personol ar gyfer gweinyddiaeth fewnol ac yn y ddau achos bu cefnogaeth benodol ar gyfer hyn i'r sector gwirfoddol lleol yn y gorffennol. Hyd yn oed yn yr ardaloedd astudiaethau achos hyn, fodd bynnag, credid mai ychydig o grwpiau oedd yn defnyddio TGCh yn rhagweithiol i ymgysylltu gyda neu ddarparu gwasanaethau i'w cleientiaid.

Mae'n amlwg, o gofio ffocws y Rhaglen ar weithio gyda a thrwy grwpiau gwirfoddol a chymunedol, ei bod yn anodd, os nad yn amhosibl gwahanu newidiadau i ddefnydd technoleg gan grwpiau o fewn yr ardaloedd astudiaeth achos o'r Rhaglen (ac felly ystyrir hyn yn Adran 3.3). Mae tystiolaeth gyfyngedig iawn o'r ardaloedd astudiaethau achos yn awgrymu ei bod yn debyg y bu newidiadau tu allan i Cymunedau@Ei Gilydd yn eithaf araf, er yr hyn a ymddengys i fod yn fynediad cynyddol i TGCh gartref. Mewn un ardal grŵp rheoli, dywedodd un cyfwelai er bod e-bost gan lawer o'r Bartneriaeth adfywio leol:

*"Chi'n gorfod mynd â llawer o gopïau caled i'r papur, oherwydd does neb yn eu hargraffu ar ôl eu cael.... dwi ddim yn meddwl fod y rhan fwyaf hyd yn oed yn agor yr atodiadau".*

Fodd bynnag, mewn ardal grŵp rheoli arall, datblygwyd gwefan gymunedol a oedd er yn gyfyngedig yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymunedol gweithgar a'r Cyngor Cymunedol.

Yn olaf, un o'r ffactorau cyd-destunol allweddol (ac efallai yn ddangosydd allweddol o lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y Rhaglen) y methodd y gwerthusiad fynd i'r afael ag ef yn anffodus yw argaeledd a defnydd TGCh yn y cartref gan y boblogaeth yn gyffredinol (ystyriwn hyn ymhellach yn Adran 4.5). Adeg ein hymchwil llinell sylfaen, ychydig o dystiolaeth galed oedd ar gael o'r gwaith maes am hyn - ar wahân i dystiolaeth gyfyngedig iawn mewn un neu ddwy ardal fod y gyfran o aelwydydd gyda mynediad i gyfrifiaduron personol a chysylltiadau rhyngrwyd yn is na'r cyfartalog. Yn yr un modd, adeg ein gwaith maes terfynol, nid oedd fawr neu ddim tystiolaeth gadarn o'n hardaloedd astudiaethau achos am y materion hyn, ac eithrio un ardal lle dangosodd oedd arolwg cymharol ddiweddar o aelwydydd a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf fod cyfrifiadur personol gan 56% o aelwydydd (er nid o reidrwydd gysylltiad rhyngrwyd).

Roedd cyfweleion yn gyffredinol yn dangos cred fod mynediad i gyfrifiaduron personol a chysylltiadau rhyngrwyd gartref wedi cynyddu o fewn yr ardaloedd

astudiaeth achos yn unol â thueddiadau cenedlaethol (er yn dal i fod ar lefel is na'r cyfartalog), er mewn ardal un grŵp rheoli, credai gweithiwr Datblygu Cymunedol newydd oedd wedi symud yn ddiweddar o Dde Orllewin Lloegr, gan nodi'r defnydd cyfyngedig iawn gan yr ysgol uwchradd wrth gyfathrebu gyda rhieni a phlant o gymharu â'i brofiad diweddar :

*"Mae'n bendant yn teimlo fel nad yw pobl eisiau defnyddio technoleg, neu o leiaf ddim i'w photensial llawn".*

Yn nhermau astudiaethau achos y prosiect[94], fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, roedd y ddau brosiect hyn yn adeiladu ar seilwaith trefniadol a fodolai eisoes a ariannwyd gan Amcan 1. Mewn un achos, adeiladwyd y prosiect o amgylch partneriaeth ffurfiol o sefydliadau cymunedol oedd wedi datblygu o brosiect Amcan 1 (a orffennodd yn 2005) oedd wedi adeiladu rhwydwaith o ganolfannau dysgu seiliedig ar TGCh. Yn yr ail, roedd y prosiect wedi datblygu allan o brosiect oedd wedi gweithredu am fwy na chwe blynedd, gyda chyllid yn gyntaf o Amcan 5b ac yna o Amcan 1. Yn y ddau achos, fodd bynnag, roedd prosiect Cymunedau@Ei Gilydd yn ddatblygiad o'r prosiectau blaenorol, ac yn yr achos olaf, bu newid yn ei ffocws gofodol (gan ganolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ond dros ardal ddaearyddol llawer ehangach).

Yn y ddau achos roeddent yn adeiladu ar seilwaith sefydledig, yn nhermau caledwedd a hefyd ddarpariaeth hyfforddiant, mewn o leiaf ran o'r ardal yr oedd y prosiect newydd yn gweithredu ynddo. Roedd yn glir ar y cam llinell sylfaen yn yr ardaloedd yr oedd un o'r prosiectau yn gweithredu fod *"eitha tipyn yn digwydd"* hyd yn oed y tu allan i ffiniau'r sefydliadau'n gysylltiedig â'r prosiect, ond teimlid fod hyn yn bennaf yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol ac yn dibynnu ar farchnata cymharol lefel isel a fyddai'n annhebyg o oresgyn amharodrwydd neu ddiffyg diddordeb y rhai oedd â lleiaf i'w ddweud wrth TGCh. Ar y llaw arall:

*"Mae'r prosiect hwn yn gadael i ni roi cynnig ar y dull tawel-tawel mwy anffurfiol. Fydd peth o'r gwaith ddim yn arwain at achrediad ffurfiol – nid dyna'r pwynt – ond mae dysgu ac mae hwyl – dyna beth mae'r prosiect amdano".*

Mae'n amlwg yn anodd cyffredinoli am ddatblygiadau cyd-destunol i seilwaith TGCh a darpariaeth hyfforddiant yn yr ardaloedd daearyddol mwy lle gweithredai'r prosiectau hyn, er yn gyffredinol byddai'n ymddangos eu bod yn cadarnhau profiad darpariaeth y tu allan i Cymunedau@Ei Gilydd o fod yn weddol sefydlog neu'n dioddef mân gwtogi. Yn ddiddorol, fodd bynnag, ac efallai yn unol gyda'r awgrym uchod fod cyllid Cymunedau@Ei Gilydd wedi llwyddo orau mewn ardaloedd gyda'r gallu (yn nhermau'r diwylliant mwyaf deiamig a fodolai o weithgaredd gwirfoddol a chymunedol) i ddefnyddio'r cyfleoedd a gyflwynai, mewn un o'r astudiaethau achos, oedd yn cynnwys pedwar sefydliad cymunedol gwahanol mewn pedair ardal wahanol, nid oedd y sefydliad a dybiwyd ar y cam llinell sylfaen fel yr un lleiaf soffistigedig o ran ymagwedd erioed mewn gwirionedd o blaid ail agwedd y prosiect (oedd yn ymwneud gyda darparu gweithwyr allgymorth i ddenu ac annog brwdfrydedd pobl am ddysgu anffurfiol am TGCh) o gymharu â 'r cyntaf, oedd yn rhoi

[94] Derbyniodd pob un o'r "prosiectau" hyn ddau gam ar wahân o gyllid o'r Gronfa Grantiau, ac felly'n cyfrif am bedwar o gyfanswm y prosiectau a archwiliwyd. Fel y nodwyd uchod, roedd yr astudiaeth achos arall seileidig ar brosiect wedi ei grwpio gydar astudiaethau achos ardal ar gyfer dibenion dadansoddi oherwydd ei fod yn seiliedig mewn un ardal Cymunedau yn Gyntaf.

adnodd technegol i gynnal 'offer' a fodolai eisoes a chynnig gwasanaeth atgyweirio i breswylwyr lleol a maes o law fe adawodd y bartneriaeth.

*"Mewn gwirionedd, dim ond yn agweddau cymorth technegol y prosiect oedd ganddyn nhw ddiddordeb ... roeddent yn gweld y gweithwyr allgymorth fel ychydig o niwsans".*

Yn wahanol, efallai, yn yr ail astudiaeth achos seiliedig ar brosiect, roedd y ffocws ar Cymunedau yn Gyntaf a ystyrid i ddechrau yn negyddol (oherwydd ei fod yn cyfyngu'r sefydliad nawdd i dargedu cefnogaeth ar nifer fechan o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn hytrach na'r holl sir) ar gamau olaf y prosiect ystyriwyd fod hynny'n fantais oherwydd eu bod wedi eu gorfodi i fod yn rhagweithiol, mynd i ardaloedd lle nad oedd pobl ar lefel lle'r oeddent yn barod i ymrwymo h.y. y rhai yn yr angen mwyaf yn hytrach na dim ond ymateb i grwpiau mwy croch oedd yn gofyn am gymorth.

Un "mewnbwn" olaf a ddangosodd ei hunan yn neilltuol o bwysig oedd profiad blaenorol Broceriaid Cymunedau@Ei Gilydd eu hunain. Fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, daeth y Broceriaid gyda'i gilydd â chyfoeth o brofiad perthnasol o gyflogaeth flaenorol i'r Rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys:

- Mewn dau achos, profiad o weithio ar y rhaglen "Everybody Online" oedd â nod bras debyg i Cymunedau@Ei Gilydd ac mewn dau achos, brofiad o weithio gyda phrosiect 'Shape.IT.org' Rhondda Cynon Taf;
- Mewn dau achos arall, wedi gweithio fel hyrwyddwr "e-ddysgu" fel rhan o'r prosiect mapio a ariannwyd gan ELWa;
- Ym mron bob achos, profiad o waith datblygu cymunedol ymarferol yn cynnwys fel Cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf. Ymddangosai hyn yn neilltuol o bwysig wrth roi'r sgiliau i Froceriaid, a hyd yn oed yn fwy y reddf yr oeddent ei hangen i ymdopi gyda'r amgylchiadau aml yn anodd mewn ardaloedd unigol.

Efallai hyd yn oed yn bwysicach, bu cryn sefydlogrwydd ymysg y garfan Broceriaid: dim ond un oedd wedi ymddiswyddo (a dim ond ym Mehefin 2008 y gadawodd y Brocer hwn wrth i'r Rhaglen ddod i ben). Mae hyn yn wahanol iawn i drosiant Cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf oedd yn uchel iawn yn nyddiau cynnar Cymunedau yn Gyntaf (fel yr adlewyrchwyd yn ein hardaloedd astudiaeth achos). Ymddengys y bu hyn yn allweddol i allu'r Rhaglen i gyflenwi'n effeithlon, fel y dywedodd un o'r Grŵp Ymgynghori:

*"Gydag un neu ddau eithriad ... bu'n grŵp rhagorol o bobl ... y ffordd ddeallus y gwnaethant drin y prosiectau, eu hangerdd a'u gwybodaeth hollol fanwl oedd yr hyn wnaeth argraff wirioneddol arnaf ... o ble bynnag y daeth* (y model Brocer] *roedd yn ganolog i'w lwyddiant".*

### *3.2 Prosesau*

<u>3.2.1 Cymunedau@Ei Gilydd a Rhanddeiliaid Cymru-gyfan</u>

Gwelsom eisoes (Adran 2.21) fod ymrwymiad cryf gyda rhanddeiliaid allanol allweddol, yn neilltuol y rhai o fewn y Grŵp Ymgynghori, yn ffactor cyd-destunol bwysig yn sylfaen i weithrediad Cymunedau@Ei Gilydd. Parhaodd hyn i fod yn ased sylweddol i'r Rhaglen drwy gydol ei hoes, gyda'r rhanddeiliaid allanol yn ystod cam

olaf y gwaith maes yn parhau i danlinellu eu brwdfrydedd dros y Rhaglen a'u profiad cadarnhaol ohoni:

*"Cefais hwn yn un o'r grwpiau mwyaf gwerth chweil i mi weithio arno ... oherwydd un o'r pethau rwy'n credu sy'n eithaf prin yw bod pawb o amgylch y bwrdd eisiau iddo weithio o ran ei hunan ... doedd neb ohonon ni'n cael dim allan ohono ... roedd pawb eisiau iddo weithio ac roedd gan bawb arbenigedd gwahanol iawn i'w roi iddo, a dyna pam y gofynnwyd i bawb ohonon ni mae'n debyg".*

Mae rhanddeiliaid hefyd yn gyffredinol yn credu fod staff y Rhaglen wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ymgysylltu ar lefel genedlaethol gyda rhanddeiliaid allweddol eraill megis llywodraeth leol a'r strwythurau cynrychioladol ffurfiol ar gyfer y sector gwirfoddol (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phwyllgorau Gwirfoddol Sirol), er bod rhai'n cydnabod fod yr ymateb yn anochel o ddarniog, o gofio am yr amserlenni byr yn gysylltiedig â datblygu a chyflenwi'r Rhaglen a'r ffaith fod y lefel dealltwriaeth a diddordeb yn amrywio o fewn partneriaid:

*"Dydyn ni ddim wedi cael yr amser na'r moethusrwydd o fedru cynllunio'r holl gysylltiadau strategol ..."*

*"Yn sinigaidd, fe ddiflannodd diddordeb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn eitha sydyn unwaith na chawson nhw'r contract ac mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn amrywio'n fawr, maen nhw'n aml yn cael eu harwain gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol beth bynnag, ar wahân i PAVS*[95] *ac mae ychydig ond nid llawer iawn yn cefnogi"*

Ar y cam llinell sylfaen, teimlai'r rhai a gyfwelwyd fod y berthynas graidd gydag Adran Cyfiawnder Cymdeithas ac Adfywio a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyffredinol yn cael eu rheoli'n dda iawn a pharhaodd hyn ar gam olaf y gwerthusiad, gyda chydnabyddiaeth gref o rôl hollbwysig y rheolwr prosiect, ei hunan ar secondiad o Lywodraeth y Cynulliad.

*"Mae hynny'n rhannol oherwydd Alun Burge ... mae'n wych wrth rwydweithio".*

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, ystyriwyd bod diffyg perthynas gref gyda APADGOS yn ystyriaeth, hyd yn oed tuag at ddiwedd y Rhaglen, ac i rai medrai hyn fod yn broblem sylweddol:

*"A bod yn onest roeddem wedi fwy neu lai wedi anghofio am APADGOS ... ond fedrwn ni ddim gwneud hyn yn y dyfodol ... mae cymaint o'r hyn mae Cymunedau@Ei Gilydd wedi cymryd rhan ynddo a'i gyflawni, mae cymaint yn cyfeirio at yr agenda sgiliau ar gyfer gwaith ... mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod yr agenda sgiliau ar gyfer gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith y mae Cymunedau@Ei Gilydd 2 yn mynd ymlaen ag ef"*

Un maes lle teimlai rhai rhanddeiliaid, erbyn adeg cam olaf y gwaith maes, y bu'r Rhaglen yn llai llwyddiannus oedd mewn ymgysylltu'n effeithlon gyda darparwyr TG sector preifat mawr, er y priodolwyd hyn yn llai i ddiffyg ymdrech ar ran y Rhaglen nag anhawster clymu chwaraewyr o'r fath i ymgyfraniad go iawn:

[95] Cymdeithas Gwasanaeth Gwirfoddol Sir Benfro.

*"Rydyn ni wedi cael cryn nifer o gyfarfodydd gyda sefydliadau sector preifat, ac mae llawer o wasanaeth gwefus, ond fawr o ddim arall a dweud y gwir ... maen nhw'n canolbwyntio cymaint ar eu llinell isaf economaidd fel nad oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn fawr ddim arall, a CSR[96], mae eu cyllidebau mor fach"*

Yn fwy annisgwyl, efallai, dadleuodd un neu ddau o'r rhai a gyfwelwyd y medrid bod wedi gwneud mwy i integreiddio Cymunedau@Ei Gilydd gyda'r agenda cymorth busnes, yn cynnwys gyda gwaith prif ffrwd Canolfan Cydweithredol Cymru:

*"O fewn y Coop ... mae'r rhan cymorth busnes y medrent efallai fod wedi cymryd mwy o ddiddordeb ynddo, bob amser wedi bod ychydig ar wahân".*

Roedd cydnabyddiaeth gan staff Canolfan Cydweithredol Cymru eu hunain a oedd adeg y gwaith maes wedi bod yn ystyried sut y medrid integreiddio cyflenwi Rhaglen olynol ymhellach gyda staff eraill y Ganolfan:

*"Mae'n rhywbeth yr hoffem wneud llawer mwy ohono, nag ydyn ni wedi gwneud digon ohono".*

<u>3.2.2 Ymrwymiad Broceriaid gyda Rhanddeiliaid Lleol a Grwpiau Cymunedol</u>

Awgrymodd ein hymchwil llinell sylfaen fod Broceriaid yng nghamau cynnar y Rhaglen gan fwyaf yn effeithlon wrth wneud cysylltiadau gyda rhanddeiliaid lleol allweddol yn nhermau codi ymwybyddiaeth am y Rhaglen a'r Gronfa Grant a chynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol. Roedd mwyafrif helaeth y rhai oedd wedi ymwneud gyda Broceriaid ar y cam hwn yn rhoi canmoliaeth uchel i'r ffordd yr oedd Broceriaid yn gwneud eu gwaith.

*"Dwi'n cael fy synnu gan nifer y sefydliadau y mae wedi ymrwymo â hwy mewn amser mor fyr".*

*"Mae wedi bod yn wych ... yn ddi-fai".*

Mewn ardaloedd lle'r oedd Cymunedau yn Gyntaf yn achosi rhwyg, ymddangosai fod Broceriaid yn gyffredinol wedi osgoi cael eu tynnu i mewn i wrthdaro, ac mewn rhai o'r achosion hynny, roedd y rhai oedd mewn anghydfod â'i gilydd yn eu canmol, hyd yn oed wrth iddynt ymosod ar ei gilydd.

Fodd bynnag, roedd yn glir hyd yn oed yn y camau cynnar, fod gwahanol Froceriaid wedi defnyddio gwahanol dactegau yng nghyswllt rhanddeiliaid lleol, gyda dau yn meithrin perthynas agos gydag ystod eang o bartneriaethau a gweithgorau yn ymwneud â Cymunedau yn Gyntaf, adfywio a dysgu gydol oes (oedd yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan bawb yn gysylltiedig, ond oedd â'r anfantais o fedru mynd â chryn dipyn o amser y Broceriaid), tri yn gweithio'n agos gyda'r tîm Cymunedau yn Gyntaf ac eraill yn gweithio'n weddol annibynnol o'r rhanddeiliaid sefydledig.

Yng nghamau diweddarach ein gwaith maes ymddangosai'n glir i ni, wrth i'r Rhaglen symud ymlaen, fod Broceriaid yn tueddu i ymrwymo llai neu fod yn llai amlwg i randdeiliaid megis Awdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (heblaw lle'r oedd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol eu hunain yn cyflenwi prosiectau). Dywedodd un cyfwelai Awdurdod Lleol:

[96] Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

*"Dwi ddim wedi clywed dim mewn gwirionedd gan y brocer yn y flwyddyn ddiwethaf ..."*

barn a gafodd ei hategu gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn yr un ardal. Mewn ardaloedd eraill, ni wnaeth rhanddeiliaid allanol y cysylltwyd â hwy sawl tro ar gyfer cam olaf yr ymchwil ymateb i'n ceisiadau ar gyfer cyfweliadau, sydd hefyd efallai'n adlewyrchu lefel isel o ymrwymiad gyda'r Broceriaid neu'r Rhaglen.

Yn nhermau Cydlynwyr a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, roedd gan Froceriaid yn gyffredinol gysylltiadau da neu resymol gyda'r Partneriaethau, er i ryw raddau roeddent yn cael eu gyrru gan ymrwymiad y partneriaethau mewn prosiectau cronfa grantiau: yn hanner ein hardaloedd astudiaeth achos, roedd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn derbyn grant eu hunain, ac mewn tair ohonynt, hwy oedd yr unig brosiectau i gael eu hariannu. Yn yr ardaloedd eraill, roedd y berthynas gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn fwy cyfyngedig: mewn tair (un ohonynt lle bu'r berthynas yn dda ar y dechrau), nid oedd dim neu ychydig iawn o gysylltiad, tra yn y bedwaredd, lle'r oedd Cymunedau@Ei Gilydd yn ariannu'r unig sefydliad gwirfoddol sylweddol yn yr ardal, ond a oedd benben gyda'r Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, roedd Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf yn amlwg yn amheus o Cymunedau@Ei Gilydd oherwydd yr ymgyfraniad hwn a dywedodd:

*"Dim ond unwaith y gwnes gwrdd â hi* [y Brocer]".

Yn yr achos olaf, un lle'r oedd Cymunedau yn Gyntaf mewn anawsterau difrifol adeg ein hymchwil llinell sylfaen, roedd y berthynas rhwng y Brocer a'r Cydlynydd wedi dod yn agos iawn.

Mae'n bwysig pwysleisio ei bod yn amlwg fod Broceriaid a Cymunedau@Ei Gilydd yn gyffredinol wedi gwneud yn dda mewn llawer o ffyrdd i sicrhau perthynas waith resymol gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf tra'n cadw eu hunaniaeth neilltuol ac - o gofio am y gwrthdaro mawr oedd mewn llawer o Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf - i osgoi cael eu tynnu i anghytundeb sylweddol.

Dim ond mewn un o'n hardaloedd astudiaethau achos y bu ar unrhyw bwynt wrthdaro sylweddol rhwng Cymunedau@Ei Gilydd a Cymunedau yn Gyntaf ac roedd hyn yng nghamau cymharol gynnar y Rhaglen. Yn yr achos hwn, roedd y tîm Cymunedau@Ei Gilydd wedi gweithredu'n gyflym i geisio cymodi (er y byddai'n ymddangos mewn llawer o ffyrdd fod y Brocer cael ei ddal mewn achosion eraill o anghydfod o fewn yr ardal), symud y Brocer a chyflogi Brocer newydd oedd wedi llwyddo mewn sefydlu perthynas waith resymol.

Fodd bynnag, roedd ein gwaith maes - nid yn lleiaf gyda'r Broceriaid eu hunain - yn awgrymu'n gryf wrth i'r Rhaglen ddatblygu bod ffocws eu gwaith wedi gostwng i ganolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi prosiectau Cymorth Grant, a bod y rhan o'u rôl a ystyriwyd yn wreiddiol fel:

*"Sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau gydag asiantaethau lleol allweddol* (cymunedol/gwirfoddol, statudol a phreifat) *a datblygu eu rôl mewn cynhwysiant digidol"*[97]

[97] Gweler Adran 2.3.4 uchod

wedi crebachu dan bwysau cyflenwi'r Gronfa Grant. Adlewyrchwyd hyn mewn sylw gan Froceriaid yn ymchwil haf 2007:

*"Does gennym ni ddim amser i gymryd rhan ar y lefel strategol".*

Ond ymddengys yr un mor wir fel bod y Rhaglen yn dod i ben (er bod angen cydnabod y gall cyfryngwyr o'r fath hefyd wedi bod â llai o ddiddordeb wrth siarad gyda Broceriaid unwaith yr oedd arian y Gronfa Grantiau yn dechrau dod i ben).

Yn nhermau ymrwymo sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, cawsom adeg yr ymchwil llinell sylfaen y bu Broceriaid yn gyffredinol yn effeithlon iawn wrth ymestyn allan i sefydliadau o fewn yr ardaloedd astudiaethau achos, gan adeiladu ar rwydweithiau a fodolai eisoes ac nad oedd neb a gyfwelwyd ar y cam hwnnw yn medru dynodi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol y medrai unrhyw Frocer fod wedi gweithio gyda hwy nad oeddent wedi eu hymrwymo, Yn hynod, o gofio am y problemau o fewn rhai o'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, ni chlywsom ychwaith unrhyw awgrym fod Broceriaid wedi bod unrhyw beth heblaw hollol ddiduedd yn y ffordd yr oeddent wedi mynd ati i weithio gyda gwahanol grwpiau.

Ar yr un pryd, fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, yn tua hanner yr holl achosion, dim ond gyda nifer cymharol fach o sefydliadau yr oedd y Brocer wedi gweithio, gan awgrymu bod tueddiad i ganolbwyntio ar weithio'n weddol ddwys gyda grwpiau a fedrai gyflenwi *"enillion cyflym"* yn nhermau datblygu ceisiadau grant.

Nid yw'n ymddangos fod hyn wedi newid yn sylweddol yn ystod oes y Rhaglen. Fel y nodwyd eisoes, mewn pump o'r ardaloedd dim ond un sefydliad oedd wedi cyrchu cyllid, ac yn y 18 mis rhwng yr ymchwil llinell sylfaen a'r ymchwil terfynol, y tu allan i ddwy o'r ardaloedd gyda'r sectorau gwirfoddol a chymunedol mwyaf deinamig (lle 'r oedd cyfanswm o bum sefydliad newydd *"wedi dod i'r ffrâm")* dim ond dwy ardal newydd arall ar draws saith ardal a ddaethpwyd i mewn i'r Rhaglen. Yn ymarferol, mae bron yn sicr bod hyn yn adlewyrchu prinder cymharol sefydliadau gwirfoddol a chymunedol addas i weithio gyda hwy, yn hytrach nag unrhyw ddiffyg dychymyg ar ran y Broceriaid ond y mae efallai'n awgrymu fod gweithgareddau "allgymorth" eraill wedi canolbwyntio'n drwm ar gam cynnar y Rhaglen pan oedd Broceriaid yn cael eu gyrru gan yr angen i ddynodi prosiectau Cronfa Grantiau. Cafodd hyn, fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol Cyntaf, ei adleisio gan Frocer a ddywedodd na fuont mewn cysylltiad â Chydlynydd Cymunedau yn Gyntaf mewn misoedd diweddar:

*"Dwi ddim yn marchnata ar hyn o bryd chwaith".*

Er hynny, credai Brocer arall yn ei ardal astudiaeth achos "ef":

*"Fe wnaeth bron bawb oedd eisiau darn o'r afael ei gael ... roeddwn yn daer i roi arian, roedd yn hurt".*

Ymddengys fod canolbwyntio ar gyflenwi a chefnogi prosiectau Cronfa Grantiau hefyd wedi gostwng y pwyslais - o gymharu gyda bwriad gwreiddiol y Rhaglen - ar:

*"Gweithio mewn partneriaethau gyda darparwyr dysgu lleol i greu llwybrau dilyniant dysgu"*[98].

[98] Ibid.

Yn ystod pob un o dri cham ein gwaith maes, cymharol ychydig o dystiolaeth a welsom o Froceriaid â chysylltiad agos gyda rhai darparwyr statudol allweddol o wasanaethau TGCh, megis llyfrgelloedd, canolfannau ieuenctid, canolfannau dysgu teulu mewn ysgolion, colegau addysg bellach neu'r Digilabs, gan ystyried yn hytrach mai eu ffocws oedd gweithio gyda grwpiau unigol oedd angen cefnogaeth[99], er y ffaith fod y Tîm Canolog yn weithgar wrth ddatblygu cysylltiadau a chodi ymwybyddiaeth o sefydliadau allweddol ar lefel genedlaethol megis Cymal a fforwm ac, yn sgil ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, mewn annog Broceriaid i wneud y cysylltiadau hyn [100].

3.2.3 Prosesau Cronfa Grantiau: Ceisiadau a Gwerthuso

Gan droi'n gyntaf at broses gais a gwerthuso prosiectau Cronfa Grant, fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, roedd bron yr holl randdeiliaid canolog wedi'u darbwyllo fod y prosesau Cronfa Grantiau yn gyffredinol yn fodel cadarnhaol iawn o sut i gyflenwi cynllun cyllid ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol bach, gyda chefnogaeth neilltuol o gryf ar gyfer yr hyn a dybiwyd fel y model Brocer neilltuol iawn lle rhoddwyd cefnogaeth ymarferol i grwpiau i ddatblygu ceisiadau am grant.

*"Treulio amser a chymryd y drafferth i weithio gyda phobl .... nid dweud wrthynt beth i'w wneud, ond eu rhoi ar ben y ffordd"*

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn awyddus i esbonio nad rôl y Panel Grantiau yn gymaint oedd cael gwared â cheisiadau gwael (gan fod ymgyfraniad y broceriaid a'r Tîm Canolog yn golygu fod ceisiadau anaddas yn cael eu dynodi ar gam lawer cynharach) ond yn hytrach:

*"Mae'n broses mireinio ... dim edrych i weld os oes angen eu gwrthod nhw ydyn ni ond i weld eu bod wedi ystyried yr holl faterion ac mewn rhai achosion rydyn ni wedi cynnig mwy nag oedden nhw eisiau ... gobeithio y byddwn wedi lliniaru diffyg profiad rhai o'r Broceriaid".*

Erbyn adeg y gwaith maes cyfnod olaf, nid oedd y brwdfrydedd ar gyfer y model Brocer ar ran staff a rhanddeiliaid canolog eraill wedi pylu:

*"Heb y model brocer, dwi ddim yn meddwl y bydden ni wedi cael unrhyw beth tebyg i gymaint o arian allan ... byddai ceisiadau wedi eu paratoi'n waelach a byddai prosiectau wedi methu. Yr hyn y gallodd Broceriaid ei wneud yw parhau i weithio yn y fan a'r lle gyda'r prosiectau".*

*"Mae llawer ohono oherwydd safon y broceriaid a rheolwr y broceriaid sy'n ymddangos yn drefnus iawn a gyda ffocws ... o fy safbwynt i un o'r agweddau mwyaf cadarnhaol ... oherwydd fe wnaethon ni wirioneddol ddysgu o Cymunedau yn Gyntaf."*

[99] Deellir yr anogwyd Broceriaid, fel rhan o'u hyfforddiant dechreuol i ganolbwyntio eu hymdrechion ar ymgysylltu gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol. Ymhellach, yn achos Digilabs cynghorodd WEFO y prosiect fod rheolau cyllid dwbl yn atal cydweithio rhwng y ddau brosiect: mewn rhai achosion, roedd yn amlwg fod Broceriaid yn gwybod am yr hyn roedd Digilabs yn ei ddarparu ond nad oeddent wedi ymrwymo â hwy am y rheswm yma.
[100] Cyfarfod o'r Grŵp Ymgynghori, 18 Mai 2007, Papur 5.

*"Fel aelod o'r Panel Grantiau, roeddech chi'n teimlo fod yr holl rai anobeithiol wedi eu chwynu ac nad oedden nhw'n dod o'n blaen ... a hefyd y ffaith eich bod chi'n teimlo fod peth ymrwymiad wedi digwydd gyda'r grwpiau hyn ac nad oedden nhw'n cael eu gadael yn ymdrybaeddu yn ceisio llenwi ffurflen gais am grant loteri neu rywbeth".*

Parhaodd staff a rhanddeiliaid hefyd i dalu teyrnged i'r ffordd y bu gan y Panel Grantiau rôl allweddol wrth ddatblygu prosiectau cadarn ac ymarferol:

*"Roedd yn rhoi llawer o fewnbwn a pheth sicrwydd ar gyfer y broses grantiau".*

Fodd bynnag, roedd y farn yn fwy cymysg os oedd y broses gais wedi bod mor llyfn ag y medrai fod wedi bod, gyda rhai o'r amheuon yn dod i'r amlwg am nifer yr iteriadau oedd eu hangen i symud o'r cais cychwynnol i gymeradwyaeth (gyda sylwadau ar wahân gan y Swyddog Cymorth Technegol, y Swyddog Cyllid, y Panel mini-Grantiau mewnol ac yna'r Panel Grantiau ei hunain) a fynegwyd adeg ein hadroddiad 2007 yn dod yn amlycach, yn neilltuol gan y staff:

*"Weithiau byddai'r Panel Grantiau allanol yn codi gwahanol gwestiynau ac fe fyddai'n rhaid i ni fynd yn ôl wedyn at y grŵp ... roedd yn ymddangos yn rhesymol iawn pan oeddem yn ei wneud, ond dwi ddim mor siŵr yn awr ... os oedd y Broceriaid ddim yn gwneud eu gwaith yn iawn mewn gwirionedd".*

Dadleuodd y cyfwelai yma wrth edrych yn ôl fod rhai materion cyffredin oedd yn codi'n aml tro ac y dylai rheolwyr y Rhaglen fod wedi bod yn llawer mwy rhagweithiol wrth ddynodi'r materion hyn, tynnu sylw'r Broceriaid atynt a'u hyfforddi i wneud yn siŵr nad oeddent yn codi dro ar ôl tro:

*"Wrth gwrs, fydden ni ddim wedi datrys 100% ... ond dwi'n credu fod pethau oedd yn fwy o batrwm, ac yna y medren ni fod wedi mynd i'r afael â'r rheini. Ond fel y dywedais ar y pryd, roedd yn ymddangos yn hollol iawn, y system, ond wrth edrych yn ôl roedd yn un o'r adborth a gawson ni, fod y broses yn eithaf dwys".*

Cydnabu rhanddeiliaid eraill fod faint o fanylion oedd ei hangen mewn ceisiadau yn ymddangos yn ormodol gydag un yn siarad am *"broblemau enfawr gyda pha mor fanwl oedd rhai o'r cwestiynau ..."* - yn neilltuol gyda'r angen i fod yn benodol tu hwnt ar wariant: *"gorfod dweud i lawr i'r geiniog olaf beth oedd pob eitem yn mynd i gostio".*

Fodd bynnag, roedd staff yn dal i dueddu i weld hyn yn ganlyniad pryderon i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion WEFO:

*"Roedd y broses wedi ei rhoi iddyn nhw yn hytrach na chael ei datblygu'n fewnol ... mae'n bendant fod ganddi stamp y gwasanaeth sifil. Y tro nesaf dwi'n gobeithio y bydden ni'n edrych yn agosach ar ein prosesau."*

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn am yr hyn, wrth edrych yn ôl, y medrid fod wedi'i wneud yn well yn pigo beiau cymharol fân o gymharu â llwyddiant ysgogi a phrosesu mwy na 200 o geisiadau mewn Rhaglen y bwriedid iddi barhau am lai na dwy flynedd a gydag ychydig iawn o gwynion:

*"Mae'n hollol ryfeddol ... rydyn ni wedi gwneud yr hyn wnaethon ni yn y ffordd y bwriaden ni wneud hynny ac i raddau helaeth wedi cael y canlyniadau yr oedden ni'n*

*gobeithio amdanyn nhw, heb bron unrhyw broblem yn ystod y cyfnod ... does neb yn sylwi ar y ffaith os ydych chi'n osgoi problemau"*

*"Mae'n broses daclus a llyfn .. ychydig iawn o gwynion gawson ni, felly mae'n rhaid ei bod wedi gweithio'n weddol dda".*

Yn nhermau'r canfyddiadau o'r astudiaethau achos, roedd yn eithaf eglur ar y cam llinell sylfaen ar gyfer y grwpiau llai yn neilltuol fod Broceriaid yn cymryd rhan weithgar iawn wrth ddatblygu prosiectau Cronfa Grant, wrth gynghori ar y ffordd benodol y dylid cwblhau cais y prosiect ac, mewn rhai achosion, wrth ysgrifennu'r cais ar ran y Grwpiau a wnaeth gais.

*"Rydwi'n ysgrifennu atyn nhw lle medraf neu eu eu cael hwy i ddweud beth maen nhw eisiau".*

Wrth adleisio hyn, dywedodd Brocer arall, oedd yn weddol feirniadol o'r ffurflen gais ei bod yn aml yn osgoi

*"Dangos y ffurflen i gyd iddyn nhw* [yr ymgeiswyr]".

Wrth helpu grwpiau i ddatblygu ceisiadau, dull y Brocer yma oedd *"dewis rhai cwestiynau allweddol iddyn nhw feddwl amdanyn nhw"* ac yna *"eistedd gyda nhw i drin y cwestiynau gwirion".*

Ar y cam llinell sylfaen, roedd yr ymgeiswyr yn gyffredinol yn adleisio'r farn hon, er efallai nad yw'n syndod eu bod yn tueddu i beidio tynnu sylw i ba raddau y buont yn hapus i adael i'r Brocer wneud llawer o'r gwaith: mewn un achos, lle dywedodd y Brocer iddo ysgrifennu'r cais, dywedodd y Grŵp:

*"Fe wnaethon ni o gyda'n gilydd ... fe ofynnodd o'r cwestiynau iawn ... a helpu i ddod o hyd i'r geiriau iawn ... roedden ni gyda'n gilydd yr holl ffordd trwodd".*

Dywedodd un arall yn blaenach:

*"Daeth y Brocer a gofyn i ni beth oedd ein cynlluniau a'n syniadau, yna fe wnaeth eu rhoi yn y mathau iawn o eiriau ar gyfer y bobl grant a dweud 'sut mae hwn yn swnio?"*

Fodd bynnag, ni welwyd fod pob Brocer yn cymryd rôl mor weithgar: mewn un achos (lle'r oedd cais yn achosi problemau) teimlai rhanddeiliad lleol nad oedd y Brocer wedi bod â'i ddwylo ar y llyw yn ddigonol, gan ddweud ei bod wedi bod yn:

*"Marcio'r cais fel athrawes gyda beiro goch".*

Er yr ystyriai'r holl Froceriaid fod helpu grwpiau ymgeiswyr i ddatblygu ceisiadau yn gyfannol i'w rôl, soniodd o leiaf bedwar ohonynt ar y cam llinell sylfaen y teimlent fod gan y rôl ffocws rhy gul ar yr agwedd hon o'r rôl. Credai un bod y broses wedi seilio i raddau llawer rhy helaeth ar:

*"Ei wneud o drosto ... mae'n colli grym i'r grwpiau ...gan dîm Cymunedau@Ei Gilydd mae'r ceisiadau mewn gwirionedd".*

Er y farn (leiafrifol) hon, roedd yn eithaf clir drwy ein gwaith maes astudiaeth achos fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr am grant yn werthfawrogol iawn o rôl y Brocer yn

nhermau datblygu a chefnogi ceisiadau a welwyd mewn ymagwedd wahanol iawn i gyllidwyr eraill. Disgrifiodd un person a gyfwelwyd, er enghraifft, y *"gefnogaeth enfawr"* a gafodd gan y brocer a gan staff y Tîm Canolog yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru a disgrifiodd Cymunedau@Ei Gilydd fel *"un o'r cyllidwyr gorau".*

Rhyngddynt, teimlai tua hanner (15 o 31) y grwpiau a gafodd arian o'r Gronfa Grantiau fod y cymorth a roddwyd gan y Brocer yn ardderchog gyda deg arall yn teimlo ei fod yn dda [101].

Mae'r dilynol yn sylwadau nodweddiadol gan ymgeiswyr:

*"Fe* wnaeth [y brocer] *lawer o waith gwirioneddol dda i'n helpu a gwneud y cynnig cam cyntaf yn eithaf syml".*

*"Fedra'i ddim canmol digon arno* [y Brocer] ... *fyddwn i ddim wedi medru gwneud y cais hebddo".*

*"Mae gen i lawer o barch at frwdfrydedd a phroffesiynoldeb y Broceriaid .. fe gefais i gymaint o gymorth ag oeddwn angen, a llawer mwy nag rwy'n ei gael fel arfer".*

Y nifer fechan o brosiectau (pedwar) nad oedd yn fodlon gyda mewnbwn y brocer ar y cam ymgeisio oedd dau brosiect yn yr ardal astudiaeth achos lle'r oedd anghydfod sylweddol gyda'r Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf (a lle cafodd y Brocer ei drosglwyddo yn ddilynol), un mewn ardal astudiaeth arall lle cadwyd y Brocer ar hyd braich gan Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ac un o'r astudiaethau achos seiliedig ar brosiect.

Credai'r rhan fwyaf o grwpiau gyda phrofiad o wahanol systemau cyllid fod y broses yn gymharol ddi-boen, er ei bod yn rhy faith i rai: mewn nifer o achosion, cymerodd prosiectau fwy na deuddeg mis o ddechrau cael eu datblygu i gael eu cymeradwyo. Cafodd rhai ymgeiswyr prosiect hefyd eu drysu gan y ffaith yr ymddangosai fod y rheolau sylfaenol yn newid wrth i'r cais fynd rhagddo, sy'n debyg yn cyfeirio'n ôl at y ffaith fod ceisiadau'n mynd drwy olyniaeth o gamau, pob un ohonynt yn arwain at sylwadau a cheisiadau am newidiadau (e.e. gan y Swyddog Technegol, y Swyddog Cyllid, y mini Banel Grantiau, y Panel Grantiau) a sianelwyd yn ôl drwy'r Brocer.

Fodd bynnag, roedd lleiafrif bychan o grwpiau (chwech i gyd[102]) a oedd yn fwy beirniadol o'r broses. Yn ddiddorol, roedd tri ohonynt yn brosiectau mwy, yn cynnwys dau o'r astudiaethau achos seiliedig ar brosiect. Sylw nodweddiadol yma oedd:

*"Roedd yr holl broses ychydig yn drwm ac fe aeth ar fy nerfau ... rwy'n teimlo eu bod yn dangos diffyg ymddiriedaeth go iawn ynddon ni fel partneriaid. Roedd lefel y manylion roedden nhw'n gofyn amdanynt ar ddyfynbrisiau ar gyfer offer yn gyfyngol iawn ac nid yw wedi rhoi unrhyw hyblygrwydd i ni o fewn y prosiect".*

---

[101] Gofynnwyd i reolwyr prosiect roi sylwadau ansoddol yn hytach na sgôr. Cafodd y graddiadau hyn eu priodoli gan y tîm prosiect ar sail y sylwadau a wnaed gan Reolwyr Prosiect.

[102] Roedd hyn yn cynnwys un oedd yn canmol ac un arall un niwtral am fewnbynnau Brocer, ond nid y broses yn ei chyfanrwydd.

O'n safbwynt ni fel tîm ymchwil, ymddengys fod y broses gais a gwerthuso yn gryfder yn Cymunedau@Ei Gilydd, gyda'r model Brocer yn arloesedd neilltuol o ddiddorol. Adeg ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, roddem yn bryderus y medrai ymrwymiad rhagweithiol iawn Broceriaid wrth ddatblygu syniadau prosiect fod wedi arwain at i grwpiau golli perchnogaeth o brosiectau a gyflwynwyd yn eu henw. Yn ymarferol, fodd bynnag, ymddengys mai ychydig iawn o'r prosiectau oedd wedi methu cyflenwi (gweler adran 3.3.2), a fyddai'n awgrymu na ddigwyddodd hyn yn helaeth. Nid yw tybiaeth y Panel Grantiau o blaid prosiectau (ac am weithio gyda cheisiadau annigonol i'w gwella i'r pwynt lle medrai'r prosiect dderbyn cyllid) ychwaith yn ymddangos iddo arwain at i nifer uwch o broseictau gwan gael eu cefnogi nag y medrid bod wedi'i ddisgwyl mewn system fwy cystadleuol. Ar yr un pryd, byddem yn cymeradwyo barn llawer o ymgeiswyr (ac o leiaf wrth edrych yn ôl, y staff) y medrai'r broses fod wedi cael ei symleiddio i osgoi gofyn sawl tro i grwpiau ymgeiswyr (a Broceriaid) ystyried materion newydd wrth i'r broses gais fynd ymlaen.

<u>3.2.4 Prosesau Cronfa Grantiau: Monitro a Hawliadau</u>

Os oedd y sylwadau am y broses gais yn gyffredinol gadarnhaol, roedd barn am y prosesau "at y cwsmer" , yn neilltuol y rhai'n ymwneud â phrosesau hawlio a monitro yn llawer mwy cymysg, er mewn rhai ffyrdd y Broceriaid ac nid y grwpiau a dderbyniodd gyllid oedd fwyaf beirniadol.

Yn ystod ein gwaith maes yng nghanol 2007, bu un brocer yn dadlau eu bod yn treulio *"tua 70%"* o'u hamser ar faterion ariannol ac er efallai nad oedd hyn yn nodweddiadol, yr oedd yn adlewyrchu barn gyffredinol fod y prosesau yn ymwneud â'r ffurflenni chwarterol yn feichus. Erbyn cylch olaf ein gwaith maes, cydnabu rhai Broceriaid fod systemau wedi gwella rywfaint, ond cwynodd sawl un ohonynt am y ffordd yr oedd grwpiau'n cael eu *"llethu"* gyda phapur o'r Tîm Canolog.

Yn ymarferol, mae'n glir ar gyfer llawer o'r grwpiau bach, fod angen i Froceriaid roi llawer o gefnogaeth ymarferol i wneud yn sicr fod y prosesau hawlio yn cael eu cwblhau:

*"Rydyn ni'n siarad gyda rhai ohonyn nhw sawl gwaith y dydd".*

Er bod Broceriaid yn gyffredinol yn canmol y gefnogaeth a gawsant gan y Tîm Canolog, dadleuodd sawl Brocer y dylent fod wedi cael hyfforddiant llawer gwell ar sut i helpu grwpiau i lenwi'r ffurflenni cais, gydag un yn dadlau y dylai Broceriaid:

*"Fod wedi mynnu hyfforddiant i grwpiau ar sut i lenwi'r ffurflenni yma ... esbonio pam fod angen eu llenwi ... byddai hynny wedi lliniaru llawer o'r straen a'r pwysau a gawso ni yn y lle cyntaf".*

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2007, mynegodd hyd yn oed y Broceriaid hynny oedd â chryn brofiad datblygu syndod am allu a phroffesiynoldeb oedd yn ymddangos yn gyfyngedig hyd yn oed ymhlith grwpiau gweddol fawr a phrofiadol i ddelio gyda rheolaeth prosiect sylfaenol a faint o ddal llaw yr oeddent ei angen, er y gwelwyd mewn rhai achosion fod cysylltiad rhwng hyn â'r ffaith na thybiwyd fod y prosiect Cronfa Grantiau yn ganolog i'r sefydliad. Daeth un Brocer i'r casgliad yn y diwedd fod pobl yn cymryd mantais arno:

*"Fe wnes ddechrau drwy wneud llawer o waith i grwpiau gan eu helpu gyda'u ffurflenni, ond fe wnes wedyn sylweddoli eu bod nhw'n cael hwyl ar fy mhen – fydden*

*nhw ddim yn gwneud unrhyw waith paratoi ac yn cymryd yr agwedd "dyma'r papur, trefna fo". Felly yn y diwedd fe wnes eu torri nhw'n rhydd, a wyddoch chi, wnaeth bron bob un ohonyn nhw ymdopi".*

Ond roedd Broceriaid eraill, hyd yn oed erbyn cam olaf ein hymchwil, yn dal yn ymarferol yn gwneud y gwaith caled ar gyfer Grwpiau, fel y cydnabuwyd gan y grwpiau eu hunain. Mewn un ardal gyda nifer fawr o brosiectau, dywedodd dau a gyfwelwyd o wahanol brosiectau:

"*Mae hi* [y Brocer] *wedi bod yn rhagorol ... fe gafodd y dyfynbrisiau i ni, mae'n dod i'n helpu gyda'r ffurflenni chwarterol.... fe fedrwn i fod wedi'i weithio allan ond mae hi'n fwy na hapus i helpu ac rydw i 'n fwy na hapus i dderbyn ei help".*

*"Dwi wedi gwneud tipyn o gadw llyfrau dros y blynyddoedd, ond doedd hynny fawr o help gyda'r ffurflen hawlio ... mae hi* [y Brocer] *yn ei wneud drosof ... mi fyddai'n arbed llawer o amser iddi os medrid gwneud y ffurflen yn haws .... nid bod o bwys ganddi ddod draw ... mae'n ymddangos wrth ei bodd fod y prosiect yn gweithio".*

Dywedodd trydydd prosiect yn yr un ardal fod y Brocer wedi dod ac *"wedi mynd â fy holl dderbynebau"* er mwyn llenwi'r ffurflenni hawlio.

Efallai oherwydd y graddau y cafodd prosiectau eu cysgodi gan Froceriaid rhag gwaith yn gysylltiedig â'r broses hawlio, efallai fod barn prosiectau eu hunain yn llai beirniadol na'r Broceriaid, er yn dal yn sylweddol fwy llugoer na'u hasesiad o'r mewnbynnau Brocer ar y cam cais. Ymddangosai fod gan tua hanner y grwpiau (15) farn "niwtral" ar y broses hawlio, mewn geiriau eraill nad oedd yn dda nac yn ddrwg, gyda'r gweddill wedi rhannu'n fras rhwng y rhai a gredai ei fod yn ardderchog (1) neu da (7) a'r rhai a gredai eu bod yn wael (6)[103] . Un ffynhonnell o boen neilltuol i'r rhai a deimlai fod y broses hawlio yn wael oedd y ffaith fod y system yn un ar bapur a heb fod yn electronig neu ar y we.

*"Yn y dyddiau yma, pan fo popeth ar gyfrifiadur, fe ddylen nhw wedi rhoi hynny ar ffurf electronig gyda thaenlenni y medrwch eu haddasu'n awtomatig a gwneud yr holl gyfansymiau i chi ... rydych yn ailddyfeisio'r olwyn drwy'r amser heb unrhyw reswm. ... a byddai'n haws clymu mewn gyda systemau electronig ein sefydliad".*

Ffynonellau cyffredin eraill o gŵyn oedd diffyg hyblygrwydd y cyllidebau a gytunwyd fel rhan o'r broses cymeradwyo prosiect a diffyg hyblygrwydd i drosglwyddo arian rhwng is-benawdau. Soniodd rheolwr un prosiect bychan am enghraifft o fod wedi rhoi swm yn y gyllideb ar gyfer prynu tri cherdyn cof ar gyfer camerâu: roedd wedyn wedi dod i hyd i gardiau rhad iawn gyda manyleb is ond codwyd cwestiwn am y gwariant pan brynodd chwe cherdyn er bod ganddynt yr un cyfanswm cof â'r fanyleb. Cwynodd prosiect arall mwy fod diffyg hyblygrwydd y fanyleb yn golygu ei bod yn amhosibl trosglwyddo arian (er, mewn egwyddor, caniateid i brosiectau wneud hynny am hyd at 10% o linell cyllideb) a dadleuodd trydydd prosiect fod diffyg hyblygrwydd i symud o benawdau cyllideb a gytunwyd ar y cam cais:

*"Wedi'i gwneud hi'n anos i ni wasgu mwy allan o'r cyflenwyr a sicrhau gwerth am arian".*

[103] Gofynnwyd i reolwyr prosiect roi sylwadau ansoddol yn hytach na sgôr. Cafodd y graddiadau hyn eu priodoli gan y tîm prosiect ar sail y sylwadau a wnaed gan Reolwyr Prosiect.

Yn gyffredinol, ymddangosai fod gan y rhan fwyaf o brosiectau llai berthynas ardderchog gyda'r Brocer ar ôl cymeradwyo'r Grant (sydd efallai yn clymu gyda'r argraff y bu ymrwymiad Broceriaid mewn llawer o ardaloedd astudiaethau achos, gyda chysylltiadau wedi'u sefydlu'n gynnar yn y Rhaglen). Roedd hyn yn llai gwir mewn dwy ardal lle'r oedd Broceriaid wedi'i chael yn anodd mynd o amgylch yr hyn a welwyd fel rhwystrau a godwyd gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Ymddengys hefyd fod rhywfaint llai o ymgyfraniad ar ôl cymeradwyaeth gyda phrosiectau mwy a oedd yn llai tebygol o fod wedi bod â cysylltiad rheolaidd gyda Broceriaid, gydag un o'r astudiaethau achos prosiect yn dweud yn ystod gwaith maes 2007:

*"Dwi'n meddwl y byddwn wedi meddwl y medrai'r Broceriaid fod wedi galw heibio i weld sut mae pethau'n mynd nawr ac yn y man, ond a bod yn onest, dydyn ni ddim wedi bod angen hynny mewn gwirionedd."*

Wrth droi at sylwadau'r rhanddeiliaid canolog, roedd hefyd farn gymysg am y broses fonitro a hawlio, gyda nifer o staff y Tîm Canolog yn dadlau y medrid bod wedi newid ychydig ar y prosesau ond heb eu gwella'n sylweddol:

*"Wrth edrych yn ôl, efallai y dylen ni fod wedi edrych ar bethau ychydig yn fwy gofalus, ond eto yn gyffredinol ymddengys fod popeth wedi'i gadw'n dyn ac mae pethau wedi rhedeg yn weddol llyfn".*

Cydnabu eraill fod problemau, gan ddweud fod adborth negyddol ar y broses hawlio yn:

*"Weddol gyffredinol. Mae'n eitha beichus... mae pawb a siaradais â nhw, 75% o'r bobl yn dweud fod y gwaith papur yn beth negyddol ar wahân am gefnogaeth y Broceriaid".*

Barn gyffredin ymysg staff oedd y bu gormod o bwyslais ar Froceriaid yn cwblhau gwaith papur ar gyfer grwpiau yn hytrach na'u cefnogi i wneud drostynt eu hunain. Ystyriwyd bod hyn yn rhannol yn ganlyniad ymgyfraniad y Broceriaid oedd yn aml yn eithaf dwfn gyda phrosiectau yr oeddent wedi helpu eu datblygu:

*"Mae'r Broceriaid yn eitha amddiffynnol o rai o'u grwpiau, maen nhw'n tueddu i ymladd eu cornel ... mae ganddyn nhw lawer o angerdd ... fyddwn i ddim yn dweud ei fod i bwynt obsesiwn, ond mae ganddynt lawer iawn o gymhelliant ac yn angerddol iawn am eu prosiectau."*

Ond i raddau helaeth ystyriwyd bod hynny'n ganlyniad gallu cyfyngedig iawn grwpiau, nad oedd llawer ohonynt erioed wedi cyrchu cyllid allanol o'r blaen:

*"Mewn llawer achos, ni oedd y cyllid cyntaf oll i'r grwpiau ei gael erioed ... ac mae'n rhaid ei fod yn eitha brawychus".*

Wrth edrych yn ôl, dadleuodd staff canolog y byddai wedi bod yn llawer gwell i roi llawer mwy o bwyslais ar hyfforddi grwpiau ar y prosesau yn ymwneud â chyflwyno hawliadau, yn hytrach na dibynnu mor helaeth ar y Broceriaid:

*"Wrth edrych yn ôl, mae'n ymddangos yn glir i mi y medren ni fod wedi dod â grwpiau at ei gilydd ac wedi rhoi hyfforddiant mewn adroddiadau cyllid sylfaenol, fel y bydden nhw'n dibynnu llai ar y Broceriaid ac wedi ennill rhai sgiliau a fedrai bod yn werthfawr iddyn nhw yn y dyfodol. Roedd llawer o grwpiau yn dibynnu'n llwyr ar Froceriaid i lenwi eu ffurflenni drostyn nhw, ond fe fedren ni'n lle hynny fod wedi rhoi'r sgiliau roedden nhw angen ar gyfer y dyfodol ... weithiau gall lefel y gefnogaeth fod yn anfantais y grŵp oherwydd nad ydyn nhw'n dysgu o'r broses oherwydd bod ganddyn nhw rywun i'w wneud drostyn nhw".*

Fodd bynnag, priodolodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd hyn i ormod o ffocws ar y Gronfa Grantiau, ar draul darparu adnoddau staff o fewn y Rhaglen i gynnal gwaith datblygu gyda Grwpiau a ariennir:

*"Ond mewn gwirionedd, rydyn ni bob amser wedi bod yn brin o adnoddau mewnol. Dwi'n meddwl y medren ni fod wedi gwneud gwell gwaith ohoni gyda mwy o bobl yn rhoi cefnogaeth, cefnogaeth datblygu, cefnogaeth rheoli prosiect unwaith fod y prosiectau'n gweithio yn hytrach na'r holl arian yn mynd i'r grŵp a dwi'n meddwl fod ein bod ni wedi dysgu'r wers honno".*

<u>3.2.5 Dal a Lledaenu Arfer Da</u>

Adeg ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, cawsom nad oedd rhanddeiliaid canolog yn gyffredinol wedi'u darbwyllo fod dulliau eisoes yn eu lle i ddal arfer da, ond teimlent y byddai hyn yn dod yn gynyddol bwysig wrth i'r Rhaglen symud o ddatblygu prosiect i weithredu.

Erbyn amser ein hadroddiad yn 2007, teimlai'r rhan fwyaf o randdeiliaid fod cynnydd ar hyn er pwysau'r lefel parhaol uchel o waith ar ddatblygu a chyflenwi prosiectau Cymorth Grant. Cyfeiriodd rhanddeiliaid yn neilltuol at:

- y ffaith y cynhaliwyd cyfres o weithdai yn canolbwyntio ar ddiogelwch rhyngrwyd a thechnolegau newydd ar ddechrau'r flwyddyn, ac er na chawsant eu marchnata'n glir fel bod yn hyrwyddo rhannu arfer da, teimlai nifer o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi dechrau ar y broses ac annog prosiectau i rannu syniadau.

- y ffaith fod gwaith ar y gweill i gomisiynu gwefan llawer mwy rhyngweithiol a fyddai'n galluogi prosiectau i gyfathrebu gyda'i gilydd a chofnodi llwyddiannau, yn cynnwys set o astudiaethau achos.

Yn ystod cam olaf ein gwaith maes, roedd yn eglur o safbwynt llawer o'r rhanddeiliaid fod sicrhau bod arfer da yn cael ei ddynodi, ei gofnodi a'i ledaenu yn dal i fod yn waith ar y gweill, gyda sawl un yn pryderu y bu llai o gynnydd ar hwn nag y medrent fod wedi'i ddisgwyl. Dywedodd un aelod allweddol o'r Panel Grantiau, er enghraifft:

*"Dwi'n credu ei bod yn drueni nad oes ganddon ni'r amser na'r adnoddau i wneud mwy am ledaenu'r dysgu".*

Dadleuodd y cyfwelai yma y medrai fod cwmpas i ymrwymo academyddion yn ystod unrhyw brosiect olynu i:

*"Ymchwilio mewn ffordd llawer mwy trwyadl ac ysgrifennu'r hyn ddigwyddodd a lledaenu arfer da".*

Dadleuodd rhanddeiliad arall:

*"Dwi'n credu fod Cymunedau@Ei Gilydd ei hunan wedi ei arddangos ar lefel Ewropeaidd ... ond mae'r arfer da yn rhywbeth y dylen nhw o ddifri fod yn ei wneud nawr."*

A dywedodd trydydd:

*"Dwi'n poeni mai dim ond ym mhen y Broceriaid mae llawer o'r stwff yma ac y bydd yn cael ei golli os yw'r Brocer yn mynd neu os nad oes prosiect yn y dyfodol... mae angen i ni hel y deunydd yma, ei gadw a'i roi rywle y medrwn ei ddefnyddio."*

Roedd y cyfwelai olaf yma yn feirniadol iawn o'r wefan newydd:

*"Yn nhermau dysgu ehangach a rhannu ehangach, dwi'n dal ddim i gredu ei fod mor dda ag y dylai fod ... dwi wedi bod ar y wefan a gafodd ei ail-lansio a dwi'n dal i fethu gweld llawer o brosiectau ... mae'r wefan yn wael ... mae'n well nag yr oedd, oherwydd yr oedd yn ofnadwy .... mae wedi mynd o ofnadwy i wael".*

Er efallai fod hon yn farn eithafol, teimlai nifer o randdeiliaid eraill fod dal i fod angen gwella'r wefan i'w gwneud yn *"fwy egniol"* a *"mwy rhyngweithiol",* a phan y gwnaethom edrych arni ym mis Awst 2008, dim ond saith astudiaeth achos oedd arni (er ei bod yn cynnwys disgrifiadau o'r holl brosiectau a gyllidwyd gyda manylion cyswllt).

Pwysleisiodd staff a gyfwelwyd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu nifer fwy o astudiaethau achos, yn ogystal â disgrifiadau prosiect ar gyfer pob prosiect Cronfa Grantiau, er i ryw raddau ystyriwyd fod hyn yn cael ei yrru gan ofynion WEFO:

*"Yr allwedd ... yw eu cael ar ffeil ac yna'u gwneud ar gael. Dwi'n credu mai'r peth pwysicaf yw eu cael gan y Cynulliad a'u bod yn cael eu gweld".*

Fe wnaethant hwy a rhanddeiliaid arall hefyd gyfeirio mewn modd cadarnhaol at gynhadledd Cynhwysiant Digidol Cymru yr ystyriwyd iddi fod yn llwyddiannus iawn:

*"Roedd y gynhadledd yn ardderchog. Byddai ychydig yn fwy ohonyn nhw, ac ychydig mwy o ddigwyddiadau rhanbarthol neu leol pe bai gennym amser, yn wych".*

Cyfeiriodd cyfweleion hefyd at waith Broceriaid yn nhermau *"treftadaeth ddigidol",* gan ddadlau er bod natur y gwaith yn amrywio o ardal i ardal, y bu rhai yn effeithlon iawn ar ddatblygu rhwydweithiau rhwng prosiectau a ariannwyd:

*"Fe wnaethom i grwpiau eistedd i lawr o amgylch y bwrdd a meddwl am eu materion eu hunain a'r hyn y medrenn nhw wneud amdanyn nhw".*

Roedd hyn yn anochel yn cynnwys trafodaeth o arfer da a phrofiad. Ymhellach, wrth iddi ddod yn glir y medrai fod prosiect yn y dyfodol, felly yr oedd cysyniad etifeddiaeth wedi newid o ymdrech i:

*"Sicrhau na fyddai dwy flynedd, dwy flynedd a hanner o waith yn cael ei golli ... fe ddaeth yn sut medrwn wneud i'r hyn a wnaethon ni weithredu'n fwy effeithiol, cael mwy o effaith ar y gymuned, sut y medrwn drwy gydweithio ac adnoddau ar y cyd ei wneud yn gynllun cynhwysiant digidol mwy effeithiol".*

Fodd bynnag, teimlai un rhanddeiliaid canolog oedd hefyd wedi cymryd rhan ar y talcen caled o drefnu digwyddiadau fod y Rhaglen mewn gwirionedd wedi bod yn brin o adnoddau ar gyfer annog rhannu arfer da ac y bu hefyd yn anodd darbwyllo grwpiau i gymryd rhan:

*"Bu'n wirioneddol anodd cael pobl i ddod at ei gilydd i drafod materion cyffredin ... pe bydden ni wedi meddwl neu fod ganddon ni fwy o amser, mae'n debyg y dylen ni fod wedi cychwyn ar beth o'r stwff technegol yn gynharach a chlustnodi rhai adnoddau i roi cymhelliant i grwpiau ddod at ei gilydd ... yr hyn sydd ychydig o siom, ond efallai nid yn syndod, yw cyn lleied mae'r grwpiau sy'n cael arian eisiau siarad gyda'i gilydd ... nifer fach sydd yn fodlon teithio ... gyda'r prosiect y buon ni'n wneud, fe gawson ni hi'n anodd eu cael i deithio dwy filltir hyd yn oed"*

Mae'r sylw hwn yn adlewyrchu, i raddau helaeth, yr hyn a welsom yn nhermau ein gwaith maes astudiaethau achos - er bod angen ei weld yng nghyd-destun mai ychydig iawn o staff taledig sydd gan lawer o'r grwpiau a gyllidwyd, os oes ganddynt unrhyw staff taledig o gwbl, gan yn hytrach ddibynnu ar wirfoddolwyr oedd yn aml â llawer o ymrwymiadau eraill.

Nid yw'n syndod, efallai, adeg ein hymchwil llinell sylfaen i ni ganfod, o safbwynt y prosiectau Cronfa Grantiau, mai cymharol ychydig a ymddangosai iddo ddigwydd i roi mecanweithiau ar waith ar gyfer datblygu rhwydweithiau neu rannu arfer da rhwng prosiectau, tra yn adroddiad 2007 gwnaethom gyfeirio at ymdrechion tîm Cymunedau@Ei Gilydd i annog prosiectau adrodd straeon digidol a ariannwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd i gymryd rhan yng nghynhadledd genedlaethol Cymru adrodd straeon digidol a gynhaliwyd ym mis Mehefin y flwyddyn honno.

Yn siomedig, efallai, roedd ein cam olaf o waith maes yn awgrymu lefel cymharol isel o ymrwymiad, yn neilltuol ar ran grwpiau llai gyda gweithgareddau rhwydweithio ac arfer da, er bod y Rhaglen wedi eu cynyddu.

Dim ond saith o'r 31 grŵp y gwnaethom gyfweld â hwy oedd wedi cymryd rhan yn y Gynhadledd Cynhwysiant Digidol yng Nghaerdydd[104] ac roedd sylwadau'r rhai hynny a fu yno ychydig yn gymysg. Teimlai un o'r prosiectau mwy fod y gynhadledd:

*"Yn iawn ... roedd y sesiynau grŵp ychydig yn sylfaenol ond roedd rhai cyflwyniadau da ar feddalwedd ar gyfer y deillion gan yr RNIB".*

Teimlai'r cyfwelai yma ac un arall hefyd y medrai bod wedi bod yn ddefnyddiol cynnal y gynhadledd rywfaint yng nghynt yn oes y Rhaglen:

*"Cafodd ei chynnal braidd yn hwyr yn y dydd ... Erbyn adeg y gynhadledd roeddem i gyd braidd yn fflat ac yn canolbwyntio ar gyllid yn y dyfodol".*

Fodd bynnag, canfu prosiect arall y Gynhadledd yn "*ddefnyddiol iawn""* tra roedd pedwerydd un yn falch i fod wedi cael:

*"Ein dewis i gael sylw ... rhwng yr holl bobl fawr fel Network Training a'r Digital UK Switchover".*

[104] Cadarnheir hyn gan y Rhestr Cynrychiolwyr yn Adroddiad y Gynhadledd

Medrid bod wedi meddwl fod yr ymrwymiad cymharol isel gyda'r Gynhadledd gan ein prosiectau "ni" yn gymharol annodweddiadol o gofio am nifer fawr y cynrychiolwyr yn y digwyddiad, ond mae'n amlwg o'r rhestr cynrychiolwyr i lawer o brosiectau a fynychodd gael eu cynrychioli gan nifer o unigolion ac i gyfanswm o tua 65 prosiect, neu draean yr holl sefydliadau a ariannir gan Cymunedau@Ei Gilydd gymryd rhan[105].

Yn gyffredinol, ymddangosai mai dim ond lleiafrif y grwpiau gyda phrosiectau a ariannir yn ein hastudiaethau achos (naw allan o 32) oedd wedi ymwneud ag unrhyw ddigwyddiadau a drefnwyd drwy Cymunedau@Ei Gilydd. Ar wahân i'r Gynhadledd, roedd rhai wedi mynychu'r gweithdai hyfforddiant rhanbarthol a drefnwyd yn 2007 ac roedd nifer lai wedi ymwneud â'r digwyddiadau *"llythrennedd digidol"* a drefnwyd gan Froceriaid. Roedd yr adborth o'r digwyddiadau hyn eto rywfaint yn gymysg, gyda brwdfrydedd gan rai *"rydyn ni wirioneddol wedi defnyddio cyfleusterau Cymunedau@Ei Gilydd ac mae wedi talu ar ei ganfed i ni")* wedi'i gyd-bwyso gan ychydig o amheuaeth ("*roedd braidd yn sylfaenol")* gan eraill.

Yn neilltuol yn ardaloedd astudiaethau achos y Cymoedd, roedd yn farn gyffredin fod y digwyddiadau yn aml rhy bell i ffwrdd (hyd yn oed lle, yn wrthrychol, nid oedd y pellteroedd dan sylw yn fawr iawn). Credai un Brocer fod grwpiau a ariannwyd yn ei hardal:

*"Wedi taflu eu gwahoddiadau i'r bin"*

pan gawsant eu gwahodd i'r Gynhadledd yng Nghaerdydd. Dywedodd rheolwr prosiect arall nad oedd unrhyw un wedi bod mewn unrhyw ddigwyddiad oherwydd:

*"Rydyn ni ychydig allan o'r ffordd yma"..*

Cafodd y sylwadau hyn eu hadleisio gan Frocer arall, a ddywedodd wrth siarad am ymdrechion i rwydweithio grwpiau sy'n derbyn cyllid:

*"Dwi ddim yn meddwl i hynny gael croeso arbennig o gynnes"*

Teimlai'r Brocer yma nad oedd sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn ei ardal wedi paratoi i ymwneud â'r math hyn o gysylltiadau:

*"Er y medrwn i ddweud wrth* [prosiect a gyllidir] *y medrech chi siarad gyda hwn a hon, dyma'r cyfeiriad, dyma'r rhif ffôn, fyddan nhw ddim wedi gwneud hynny".*

Ar wahân i'r digwyddiadau, ychydig o brosiectau a fedrodd sôn am ddeunyddiau arfer da neu weithgareddau yr oeddent wedi'u cyrchu fel canlyniad i gymryd rhan yn Cymunedau@Ei Gilydd, er bod un prosiect mwy wedi bod mewn cysylltiad gyda phrosiect arall mewn rhan arall o Gymru. Ni chyfeiriodd neb ohono'i hun at wefan Cymunedau@Ei Gilydd.

Er bod llawer o'r prosiectau wedi methu cymryd rhan yn y cyfleoedd rhwydweithio a gynigiwyd iddynt, teimlai rhai cyfweleion astudiaethau achos (fel arfer o brosiectau mwy) na wnaed digon i annog rhwydweithio a rhannu arfer da:

[105] Dylid cadw mewn cof i nifer o sefydliadau dderbyn dau brosiectau Cronfa Grantiau ar wahân.

*"Byddai wedi bod yn braf pe bai Cymunedau@Ei Gilydd wedi hwyluso ychydig o gyfnewid profiadau rhwng y prosiectau. Byddai hynny wedi bod yn wirioneddol ddefnyddiol".*

Er hynny, mae'n amlwg y bu llawer o ryngweithio a dysgu gan ei gilydd rhwng y broceriaid dros oes y Rhaglen. Siaradodd y rhan fwyaf o'r Broceriaid yn gynnes am y berthynas waith rhwng y tîm a'r defnydd a wnaed o e-bost a 'Skype' i gadw mewn cysylltiad a cheisio cyngor eu cymheiriaid pan gododd problemau.

3.2.6 Prosesau Rheolaeth Fewnol

Yn gyffredinol, ymddengys i brosesau rheolaeth fewnol Cymunedau@Ei Gilydd weithio'n dda, yn sicr felly yn nhermau galluogi'r Rhaglen i lwyddo i gyflwyno nifer fawr ac ystod eang o brosiectau Cymorth Grant - ond ni fuont heb eu hanawsterau.

Yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, soniwyd am broblemau tebygol mewn cyfathrebu rhwng Broceriaid a'r Tîm Canolog, gyda sawl un o'r Broceriaid dan sylw yn bryderus nad oedd ganddynt orolwg effeithlon o'r ffordd yr oedd y Rhaglen yn gweithredu ac yn teimlo fod y:

*"Y pyst gôl yn newid drwy'r amser".*

Roedd hefyd bryderon am yr hyn a dybiwyd oedd yn lefelau uchel o salwch tymor hir, a gredid eu bod yn rhannol yn gysylltiedig â lefelau straen.

Erbyn cam olaf ein gwaith maes, cydnabu llawer o'r Broceriaid fod cyfathrebu wedi gwella, a chredent fod ganddynt berthynas dda ac effeithlon gyda chydweithwyr yn y Tîm Canolog, gydag un yn disgrifio'r tîm cyllid, er enghraifft fel:

*"Parod iawn iawn eu cymorth".*

Adleisiwyd hyn gan rai a gyfwelwyd o'r Tîm Canolog:

*"O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi integreiddio'n eitha da i'r tîm ... rydym mewn cysylltiad â'r Brocer drwy'r amser".*

*"Mae'r berthynas wedi bod yn wych ... os oes rhywbeth o'i le ar hawliad, does dim rhaid i ni ffonio'r grŵp, fe fedrwn ni siarad gyda'r Brocer ac fe wnân nhw fynd i waelod pethau".*

Ymhellach, fel y nodwyd yn Adran 3.1.2 uchod, bu cryn sefydlogrwydd heb unrhyw drosiant staff ymysg y Broceriaid, ac ymddangosai fod materion yn ymwneud ag absenoldeb salwch wedi bod yn sylweddol is yn ystod 18 mis olaf y Rhaglen.

Ar yr un pryd, fodd bynnag, roedd nifer o Froceriaid yn dal i deimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi'n llawn ac nad oedd gan reolwyr y Ganolfan ddealltwriaeth ddigonol o amgylchiadau ar y "*rheng flaen".*

*"Er bod y sianeli cyfathrebu ar agor, dydyn nhw ddim wirioneddol yn agored, neu maen nhw'n agored ond mae yna ganlyniadau os ydych chi'n eu defnyddio nhw, oherwydd wedyn mae'n rhaid i chi roi disgrifiad manwl o'r hyn rydych chi'n wneud a pham, oherwydd dyw'r rheolwyr ddim yn deall beth sy'n mynd ymlaen yn y fan a'r lle ... feiddiwch chi ddim codi'ch pen uwchben y ffens oherwydd y cewch ei saethu ..."*

Teimlai'r Brocer yma a sawl Brocer arall fod y cyfarfodydd tîm rheolaidd yn rhy strwythuredig a "top i lawr".

Fodd bynnag, tueddai staff uwch i ddadlau fod cysylltiadau yn bendant wedi gwella a bod:

*"Y strwythur yn iawn. Rydych chi angen y stwff canolog yn mynd ymlaen ... rydych chi angen pobl allan yn y maes ond gyda chefnogaeth y pethau sydd angen cael eu gwneud yn ganolog fel cyllid a marchnata".*

Un farn gyffredin (a fynegwyd gan Froceriaid a hefyd rai yn y tîm canolog) oedd iddi fod yn gamgymeriad wrth edrych yn ôl, i geisio rheoli'r Rhaglen gyda dim ond un Rheolwr Broceriaid, ar ôl i'r ail un ymddiswyddo:

*"Mae'n fformat na fyddai'n gweithio ar sail tymor hir".*

Maes arall lle rhannwyd rhwystredigaeth rhwng y Broceriaid a'r Tîm Canolog oedd llwyfan TGCh Canolfan Cydweithredol Cymru a deimlid ei fod yn annigonol a lle dadleuodd nifer o aelodau staff fod angen ei ailddylunio yn sylfaenol.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad 2007, un ymateb i'r pryderon am les staff fu ceisio gwneud rhai newidiadau i'r trefniadau yng nghyswllt lleoliad broceriaid er mwyn gostwng yr ymdeimlad o fod ar ben ei hunain y medrai'r Broceriaid ei brofi. Symudwyd dau Frocer yng ngogledd-orllewin Cymru i Swyddfa Bangor y Ganolfan Cydweithredol, a symudwyd dau o Froceriaid y Cymoedd i Swyddfa'r Ganolfan ym Mhontypridd, a sicrhawyd swyddfa yn Abertawe yn 2007 ar gyfer nifer o Froceriaid yn ne orllewin Cymru. Mae hyn yn symud ymaith o'r cysyniad gwreiddiol o'r Broceriaid yn cael eu *"rheoli'n ganolog ond wedi'u lleoli'n allanol".*

Yn gyffredinol ni roddodd broceriaid sylwadau ar y newidiadau hyn ac yn wir ychydig o adborth a gafwyd gan gyfweleion eraill, ar wahân i un Awdurdod Lleol "nawdd" a ddywedodd fod y symud wedi gostwng y cyfathrebu gyda'r Brocer ac felly ymwybyddiaeth yr Awdurdod o'i weithgareddau. Fodd bynnag, er ei bod o leiaf yn bosibl y medrai'r gostyngiad mewn materion am salwch a straen fod yn gysylltiedig â'r datblygiad hwn (gan ei bod yn glir adeg ein hymchwil llinell sylfaen fod nifer o'r Broceriaid yn teimlo'n ynysig), mae hefyd yn bosibl fod y newid hwn wedi cyfrannu at yr hyn a ymddangosai i fod yn llai o ymrwymiad gyda'r rhanddeiliaid allanol lleol (gweler 3.2.2 uchod) - er mewn gwirionedd mae'n debyg bod hyn yn fwy o ganlyniad pwysau ar y Broceriaid i gyflenwi'r Gronfa Grantiau.

Yn nhermau'r systemau gwybodaeth, ymddengys i systemau ariannol fod wedi gweithio'n dda a rhoi data da ac amserol ar gynnydd wrth gyflawni targedau ariannol. Yn sicr, roedd y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a WEFO yn fodlon iawn gyda'r wybodaeth a gawsant.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y gronfa data monitro yn gyflawn, ac mae felly'n anodd rhoi barn ar ba mor effeithiol oedd. Fodd bynnag, ymddengys yn glir y bu'r system fonitro yn effeithlon wrth sicrhau bod Broceriaid a'r Tîm Canolog yn cael eu hysbysu am brosiectau sy'n tanberfformio ac wedi eu galluogi i ymyrryd, gan felly leihau risg tanberfformiad ariannol. Yn sicr, roedd aelodau'r Tîm Canolog yn gadarnhaol iawn am hyn, er yn cydnabod yn ymarferol y disgwylid gormod gan y Swyddog Monitro, a bod hyn yn ei dro wedi rhoi mwy o bwysau ar y Broceriaid.

Yn nhermau'r Grŵp Ymgynghori a'r Panel Grantiau, fel y nodwyd eisoes, roedd aelodau yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am waith y ddau gorff. Fodd bynnag, teimlai rhai mai'r Panel Grantiau yn hytrach na'r Grŵp Ymgynghori oedd wedi gyrru'r Rhaglen, ac aeth un rhanddeiliad mor bell ac i awgrymu:

*"A bod yn onest, dwi ddim yn credu fod y Grŵp Ymgynghori wedi bod yn werth llawer".*

### *3.3 Effeithiau Uniongyrchol (Allbynnau)*

3.3.1 Datblygiad a Gweithrediad Prosiectau Cronfa Grantiau: Trosolwg

Nodwyd ym Mhennod 2 sut yr oedd y Gronfa Grantiau, y disgwylid iddi'n wreiddiol fod yn £5.05 miliwn, wedi'n cynyddu'n raddol, yn gyntaf fel canlyniad i drosglwyddiad o'r Gyllideb Cymorth Technegol a gynyddodd y Gronfa i £6.618 million[106] (cynnydd o tua 31% dros y gyllideb wreiddiol ar gyfer y Gronfa Grantiau) ac yn ail fel canlyniad i gyllid cynyddol a ddyrannwyd gan WEFO fel canlyniad i'r gostyngiad yng ngwerth y bunt o gymharu â'r euro. Cynyddodd hyn y Gronfa Grantiau i dros £7.5 miliwn allan o gyfanswm cyllid a ddyrannwyd i'r prosiect o £10.457 miliwn. Mae'n werth nodi bod hyn yn golygu fod y Gronfa Grantiau wedi cynyddu gan ychydig dros 50% o'r cyfanswm cyllid ar gyfer y Rhaglen a gytunwyd ar ei dechrau i tua 75% o gyfanswm costau'r Rhaglen.

Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, roedd y penderfyniad i drosglwyddo adnoddau sylweddol i'r Gronfa Grantiau o Gymorth Technegol a Gwasanaethau Canolog (marchnata) yn seiliedig ar yr hyn a ystyriwyd yn alw isel am y cyllid a ddyrannwyd i ddechrau ar gyfer Cymorth Technegol. Priodolodd rheolwyr y Rhaglen hyn yn rhannol i recriwtio'r Swyddog Cymorth Technegol (a fedrodd gynnig cyngor a chefnogaeth yn uniongyrchol i ymgeiswyr a phrosiectau Cronfa Grantiau), yn rhannol i'r ffordd yr oedd sefydliadau a gynrychiolid ar y Grŵp Ymgynghori wedi rhoi cymorth ychwanegol mwy arbenigol yn rhad ac am ddim, yn rhannol oherwydd y ffaith fod y prosiectau Cronfa Grantiau yn gyffredinol wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth technegol (a ddarparwyd gan gyflenwyr lleol) i'w ceisiadau, yn hytrach na gweld hyn fel mater yn sefyll ar ei draed ei hun. Er bod rhai o aelodau'r Grŵp Ymgynghori wedi mynegi perth nerfusrwydd am hyn, mae'n amlwg fod y mwyafrif llethol yn credu fod hwn yn ddefnydd call o adnoddau, yn neilltuol yng ngoleuni'r ffaith i nifer o brosiectau mwy oedd yn ffitio o fewn diben gwreiddiol y gyllideb Cymorth Arbenigol gael eu hariannu yn lle hynny o'r Gronfa Grantiau gan fod hyn yn rhoi dull clir a syml ar gyfer cytuno i ryddhau adnoddau.

Mae Tablau 3.1 – 3.3 yn rhoi gwybodaeth ar lefelau presennol ymrwymiadau (ac yn achos yr ardaloedd Amcan, yr arian a dalwyd allan) o'r Gronfa Grantiau, wedi'u rannu yn ôl ardal Amcan, yn ôl rhanbarth a gan werth y prosiect, gan gymharu gyda'r gyllideb wreiddiol.

Yn ôl unrhyw gyfrif - a hyd yn oed yn caniatáu am y ffaith gan y caiff hawliadau eu talu'n chwarterol ymlaen llaw, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o adfachu o brosiectau Cronfa Grantiau - mae'r ffigurau hyn yn llwyddiant hynod ar gyfer y Rhaglen yn nhermau cyflawni lefel uchel iawn o wariant mewn cynllun grantiau newydd (a

[106] Cododd trosglwyddiad yn gynnar yn 2007 y dyraniad i £6.4 miliwn, gyda WEFO wedi cytuno ar drosglwyddiad o linell cyllideb Cymorth Arbenigol yn haf 2007.

gyflawnwyd o gychwyn o ddim mewn ychydig dros ddwy flynedd) a rheolaeth ariannol dda, yn neilltuol o gofio'r gofyniad i reoli cyllidebau wedi'u rhannu gan ddim llai na phum system ariannu wahanol[107]. Ymddengys na wireddwyd ein pryderon adeg ein hadroddiad yn 2007 y medrai fod tanwariant, diolch i reolaeth rhaglen gadarn.

Fel y dengys Tabl 3.1, cafodd cronfeydd o gyfanswm o £7.44 miliwn eu hymrwymo (gyda mwy na 99% ohonynt eisoes wedi eu talu allan) o gymharu â chynllun gwreiddiol ar gyfer y Gronfa Grantiau o ymrwymiadau o ddim ond £5.05 miliwn - cynnydd o bron 50%.

Yn bwysicaf oll, ni chafodd y lefelau uchel hyn o ymrwymiad ariannol eu cyflawni drwy leihau'r ymrwymiad i ymagwedd o'r gwaelod i fyny a'r pwyslais ar brosiectau lleol, llai - y medrid efallai fod wedi eu disgwyl o gofio'r pwysau i wario cyllideb estynedig.

Fel y dengys Tabl 3.3, cafodd mwy na 214 o brosiectau ariannol eu hariannu (gyda gwerth cymedrig o £34,767), ond bu mwy na hanner y prosiectau (109 o'r 214) am lai na £14,999. Mae'r 17 prosiect mwyaf (dros £100,000) yn cyfrif am 43% o gyfanswm gwerth yr holl brosiectau Cronfa Grantiau. Mae hyn yn cymharu gyda'r sefyllfa adeg ein Hadroddiad Llinell Sylfaen lle roedd yr wyth prosiect mwyaf a gymeradwywyd bryd hynny yn cyfrif am 57% o'r holl gronfeydd a ymrwymwyd a phan oedd gwerth cymedrig y prosiectau a ariannwyd yn £39,301.

Yn nhermau'r dimensiwn gofodol, dengys Tabl 3.2 fod y Rhaglen wedi cyflawni lefel dda o wariant ar draws y gwahanol gategorïau gofodol a ddiffiniwyd gan y Rhaglen. Fodd bynnag, un pryder bychan (yn adleisio tueddiad a welwyd adeg Adroddiad 2007) yw bod gwariant o fewn ardaloedd y Cymoedd, er yn gysurus fwy na'r targed gwreiddiol, serch hynny wedi bod ar lefel is o gymharu â'r cyllidebau gwreiddiol nag sy'n wir am yr ardaloedd eraill.

[107] h.y. gwahanol brosiectau Cronfeydd Strwythurol sef Amcan 1, Amcan 2, Craidd, Amcan 2 Gwledig, Amcan 2 Trosiannol a'r arian heb fod o'r Gronfa Strwythurol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

*Tabl 3.1: Cronfeydd a Ddyrannwyd ac a Dalwyd fel ar 5 Awst 2008 yn ôl Ardal Amcan*

| **Ardal Amcan** | **Heb fod yn Amcan** | **Amcan 1** | **Amc 2 Craidd** | **Amc 2 Gwledig** | **Amc 2 Trosiannol** | **Prif Gyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm a Ddyrannwyd (a)** | £448,557.35 | £6,252,222.20 | £571,684.75 | £92,932.83 | £74,863.48 | **£7,440,260.61** |
| **Cyfanswm a Dalwyd (b)** | £447.537.39 | £6,217,578.36 | £560,342.92 | £90,137.98 | £69,198.03 | **£7,384,793.78** |
| **Cyllideb Wreiddiol (c)** | £367,570.00 | £4,153,616.00 | £431,037.00 | £57,338.00 | £43,039.00 | **£5,052,600.00** |
| **Talwyd fel % o'r cronfeydd a ddyrannwyd (b/a)** | 99.77% | 99.4% | 98.02% | 96.99% | 92.43% | **99.25%** |
| **Talwyd fel % o'r gyllideb wreiddiol (b/c)** | 121.76% | 149.69% | 129.99% | 157.2% | 160.78% | **146.16%** |

*Tabl 3.2: Cronfeydd a Ddyrannwyd fel ar 5 Awst 2008 yn ôl rhanbarth*

| | **Dinasoedd** | **G Dd Cymru** | **G Orll Cymru** | **Arall (Powys a Mynwy)** | **De (Cymoedd)** | **D Orll Cymru** | **Prif Gyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm a Ddyrannwyd (a)** | £1,461,100.87 | £634,592.64 | £961,777.18 | £106,189.84 | £3,458,909.96 | £817,690.12 | **£7,440,260.61** |
| **Cyllideb Wreiddiol (b)** | £771,895.25 | £371,693.68 | £543,463.78 | £65,945.80 | £2,989,050.76 | £310,550.73 | **£5,052,600.00** |
| **Dyrannwyd fel % o'r gyllideb wreiddiol (a/b)** | 189.29% | 170.73% | 176.97% | 161.06% | 115.72% | 263.3% | **147.26%** |

*Tabl 3.3 Maint Prosiectau yn ôl Gwerth fel ar 5 Awst 2008*

| | Cyfanswm | |
|---|---|---|
| **Gwerth** | Cyfanswm | Nifer |
| Llai na £5,000 | £85,270.40 | 32 |
| £5,000 - £14,999 | £729,929.94 | 77 |
| £15,000 - £49,999 | £1,680,036.79 | 62 |
| £50,000 - £99,999 | £1,742,311.04 | 26 |
| £100,000 + | £3,202,712.44 | 17 |
| **Cyfanswm** | £7,440,260.61 | 214 |

Yn ddiamau, deallwn mai fel dangosyddion bras yn unig y bwriadwyd y cyllidebau gwreiddiol hyn. Ymhellach, fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2007, gall y penderfyniad (mewn cytundeb gyda'r awdurdod lleol) ar ddechrau'r Rhaglen i beidio marchnata Cymunedau@Ei Gilydd yn rhagweithiol yn Rhondda Cynon Taf oherwydd pryderon y medrai hynny arwain at ddryswch gyda'r rhaglen arall Shape-IT.org a ariannwyd gan Amcan 1, fod yn rhan o'r rheswm am hyn. Me'n anochel y cafodd hyn effaith,,gan mai RhCT sydd â'r boblogaeth gymwys fwyaf o blith unrhyw awdurdod lleol. Mae hefyd yn wir y  cafodd nifer fawr o brosiectau eu datblygu mewn rhai o ardaloedd eraill y Cymoedd (yn arbennig felly Caerffili), ond yn gyffredinol gwerth ariannol bach oedd gan y rhain, gan adlewyrchu efallai ddiffyg gallu neu barodrwydd cyfyngedig ymhlith rhai o'r sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol yn yr ardaloedd hyn i gymryd rhan (rhywbeth a ymddengys yn wir o ganfyddiadau ein hastudiaethau achos).

Serch hynny, y tanberfformiad cymharol hwn yn y Cymoedd (lefel ymrwymiad 15% yn uwch na'r gyllideb wreiddiol yng nghyd-destun cynnydd yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer y Gronfa Grantiau yn ardal Amcan 1 o bron 50%), o gofio am grynhoi amddifadedd yng nghymunedau'r Cymoedd, yw'r unig siom (fechan iawn) yn yr hyn sy'n berfformiad eithriadol o dda.

Fodd bynnag, mae hefyd yn werth pwysleisio y bu cyflawni cefnogi datblygu a gweithredu cynifer o brosiectau yn her rheoli a weinyddol enfawr i'r Rhaglen. Ymhellach, er y disgwyl adeg ein gwaith maes llinell sylfaen y byddai datblygiad prosiect wedi'i ganolbwyntio ar gamau cynharach y Rhaglen, gan adael mwy o amser tua diwedd y Rhaglen ar gyfer gwaith i ledaenu, rhannu arfer da a datblygu strategaethau ar gyfer y dyfodol, yn ymarferol golygodd y cynnydd mewn prosiectau Cronfa Grantiau y bu pwysau sylweddol ar Froceriaid a'r Tîm Canolog yn nhermau prosesu ceisiadau i'r Gronfa Grantiau am lawer o oes y Rhaglen. Dangosir hyn gan y ffaith y cymeradwywyd 76 prosiect erbyn Rhagfyr 2006, a bod hyn wedi cynyddu i 157 erbyn Mehefin 2007, ond na chafodd 57 prosiect arall eu cymeradwyo tan ar ôl Mehefin 2007 - mewn geiriau eraill lai na 12 mis cyn y bwriadwyd i'r Rhaglen ddod i ben.

Yn nhermau ansawdd ac amrywiaeth prosiectau, gwelsom yn ystod ein gwaith maes yn 2007 fod Broceriaid a rhanddeiliaid canolog eraill wedi dadlau fod prosiectau mwy diweddar yn tueddu i fod yn llai o ran maint ac yn fwy amrywiol, ond gyda ffocws cynyddol ar offer yn hytrach na staff, am y rheswm amlwg fod yr amser yn rhy brin erbyn hynny i recriwtio staff am gyfnod ystyrlon o gyflogaeth ac awgrymwyd fod hyn yn peri risg o symud y Rhaglen ymaith o'i ffocws ar adeiladu hyder a chymhwysedd ar ran y rhai sydd wedi eu hallgau'n ddigidol.

Fodd bynnag, yn ystod cam olaf ein gwaith maes, credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid canolog y sicrhawyd cydbwysedd addas:

*"Rwy'n gyffredinol yn teimlo lle mae pobl wedi cael arian eubod wedi ei gerio i gyflawni pethau, nid dim ond cael tomen o offer ... mae hynny wedi digwydd".*

*"Mae'r mwyafrif helaeth wedi bod ar refeniw, staff... dwi'n meddwl fod hynny wedi ei gario trwodd. Mae'n ymwneud ag ymrwymo pobl gyda'r technolegau ... nid am gyllido'r adeilad fan yna i bobl eistedd ynddo drwy'r dydd heb i neb ddod yn agos ato".*

*"Mae'n debyg fod enghreifftiau lle cafodd offer ei brynu er mwyn lles yr offer, ond maent yn brin ... dylai pwy bynnag feddyliodd am gael swyddog cymorth technegol o fewn y tîm gael medal oherwydd bod hynny wedi'n galluogi i wneud yn siŵr y byddai'r offer yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn hytrach na chael cyfrifiadur sbec uchel iawn yn eistedd ar ddesg a dim ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer anfon e-byst".*

Er, o gymharu gyda'r sefyllfa adeg ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, ychydig o bryderon oedd am ansawdd y prosiectau a gyflwynwyd, fe wnaeth nifer fechan o randdeiliaid fynegi peth syndod at: *"Y nifer o geisiadau a gawsom lle'r oedd yn sylfaenol ynglŷn â rhoi lle gydag ychydig o gyfrifiaduron yno lle byddai pobl yn mynd a gwneud pethau".*

Mewn geiriau eraill, roedd darparu canolfannau "galw heibio" yn hytrach na phrosiectau *"mwy creadigol"* yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion penodol grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Dywedodd aelod arall o'r Grŵp Ymgynghori a'r Panel Grantiau:

*"Pryd bynnag y gwelwn y ceisiadau hynny am 'rydyn ni eisiau cydlynydd arall', doedd fy nghalon ddim yn canu efallai ... ond wedyn roedd ganddon ni dystiolaeth gadarn mai dyna oedd y gymuned ei eisiau ... yn gyffredinol, serch hynny, rwy'n credu fod amrediad eang iawn o brosiectau".*

Yn gyffredinol, serch hynny, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn adleisio barn un o'r staff: *"Rwy'n dal i feddwl, faint o brosiectau, faint o arian, gyda chyn lleied o staff, bod llawer iawn wedi cael ei gyflawni".*

Rydym eisoes wedi nodi fod y ffordd y cafodd y Rhaglen ei datblygu yn golygu mai ychydig o ran data cronnus fydd ar gael hyd yn oed ar ddiwedd y Rhaglen, ac eithrio nifer gyffredinol y buddiolwyr yn cymryd rhan yn y prosiectau Cronfa Grantiau. Mae ffigur interim ar gyfer hyn ar gyfer Mawrth 2008 yn ychydig dros 33,600 o fuddiolwyr sy'n amlwg yn ffigur hynod. Mae'n bwysig sylweddoli, fodd bynnag, y gall hyn gynnwys cryn dipyn o gyfrif dwbl, o fewn a rhwng prosiectau, fel yr esboniodd cyfwelai:

*"Yr hyn oedden ni'n gyfrif oedd lleoedd hyfforddi, lleoedd ar gyrsiau, pennau ôl ar seddi ... mae 33,000 o leoedd hyfforddi ... ond mae gennych chi gwrs adrodd straeon digidol, cwrs ffotograffiaeth ddigidol, cwrs datblygu gwefan ac os yw'r un unigolyn yn gwneud pob un o'r tri, cânt eu cyfrif dair gwaith".*

Nid oedd ein gwaith maes gyda phrosiectau unigol (gweler yr adran nesaf) yn awgrymu fod y ffigurau a hysbyswyd i'r Tîm Canolog wedi eu chwyddo'n ormodol, er mai amcangyfrif oeddent mewn llawer o achosion ac mae'n amlwg fod hyn yn cynnwys y math hwn o gyfrif dwbl (ac mewn ychydig o achosion gall hyn fod wedi ei

adlewyrchu gan y sesiynau unigol a fynychwyd, gydag un unigolyn wedi'i gyfrif lawer gwaith os oedd, er enghraifft, wedi mynychu canolfan sawl gwaith yr wythnos). Mae hefyd yn wir i ni ganfod llawer o fuddiolwyr oedd wedi cymryd rhan mewn nifer o wahanol brosiectau. Fodd bynnag, hyd yn oed â chaniatáu ar gyfer hyn, ymddengys fod sail dda dros adleisio barn un aelod o'r Grŵp Ymgynghori:

*"Yn gyffredinol, rwyf wedi bod yn wirioneddol falch gyda'r ffordd y mae'n ymddangos iddo gyrraedd pobl gyffredin allan yna, cael llawer o bobl i gymryd rhan. Dwi'n gwybod am y rhifau sy'n mynd o gwmpas ... os yw unrhyw le'n agos at y 30,000 hwnnw, os yw'n draean hynny, fe fyddwn ni wedi gwneud yn wych".*

<u>3.3.2 Datblygiad a gweithrediad prosiectau Cronfa Grantiau: Canfyddiadau o'r Astudiaethau Achos</u>

Fel y nodwyd eisoes, edrychodd ein hastudiaethau achos ar tua 39 prosiect i gyd. Mae hyn yn cymharu gyda 25 a gafodd eu hystyried yn ystod ein gwaith maes llinell sylfaen a chyfanswm o 30 prosiect oedd yn "fyw" adeg gwaith maes 2007 (sy'n adlewyrchu'r pwynt uchod y cafodd cyfran sylweddol o'r prosiectau eu cymeradwyo yn yr hyn a ddisgwylid i fod yn 12 mis olaf y prosiect).

Fodd bynnag, roedd chwe grŵp yn cyfrif am 12 o'r 39 prosiect (oherwydd ym mhob achos derbyniodd y grŵp dan sylw ddau brosiect Cronfa Grantiau ar wahân) - roedd dau o'r rhain gan yr astudiaethau achos prosiect.

Er yn gyffredinol bod ein hastudiaethau achos ardal yn eithrio prosiectau oedd yn cwmpasu ardal ddaearyddol lawer ehangach na'r ward darged, fe wnaethom gynnwys pump proisect yn cyfeirio at dair ardal astudiaeth achos sirol, er mwyn "profi" pwysigrwydd y rhain ar gyfer ardaloedd lleol. Mewn nifer fach o achosion, cynhwyswyd prosiectau oedd yn seiliedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf cyfagos ond y bwriedid iddynt hefyd wasanaethu ardal yr astudiaeth achos dan sylw.

Erbyn cam olaf ein gwaith maes, roedd pob un o'r deg ardal astudiaeth achos a archwiliwyd wedi gweld o leiaf un prosiect yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, roedd ystod eithaf eang o brofiadau.

- Mewn un ward, cafodd cyfanswm o 12 prosiect eu cymeradwyo o ddeg gwahanol sefydliad (er na chaiff un ohonynt ei gynnwys yn ein sampl, oherwydd cyfyngiadau amser);
- Mewn ail ardal, roedd pedwar prosiect (i gyd am grantiau o lai na £15,000) a ddaethpwyd gan bedwar sefydliad: yn yr ardal hon, fe wnaethom hefyd edrych ar dri proisect ychwanegol Sir-gyfan;
- Mewn ardal arall, cyflwynwyd pedwar prosiect gan dri sefydliad (er bod y cyfan am werthoedd dan £50,000); yn yr ardal hon, fe wnaethom hefyd edrych ar brosiect Sir-gyfan;
- Mewn pedwaredd ardal, cyflwynwyd tri phrosiect gan dri sefydliad;
- Mewn pumed ardal, dim ond un sefydliad dderbyniodd gyllid o'r Gronfa Grantiau, er yn un o'r achosion hyn derbyniodd y sefydliad ddau Grant ar wahân (ac mewn un ardal fe wnaethom hefyd ystyried prosiect Sir-gyfan). Mewn dwy o'r ardaloedd hyn, roedd y prosiectau hefyd yn fach (llai na £15,000);
- Yn y ddegfed ardal, oedd yn safle un o'r astudiaethau achos prosiect, ni wnaethom ystyried prosiectau eraill.

Fel yr esboniwyd eisoes yn Adran 3.1.2, yn gyffredinol yr ardaloedd hynny lle bu'r rhan fwyaf o weithgaredd oedd y rhai yr ystyriwyd ar y cam llinell sylfaen yn rhai

gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol mwyaf egniol (neu mewn un achos, sector heb fod yn neilltuol o fawr ond gyda rhwydweithiau da) - ac ymddengys fod cydberthynas gryfach rhwng y ffactor hon a llwyddiant Cymunedau@Ei Gilydd na rhwng cyflwr Cymunedau yn Gyntaf â llwyddiant y Rhaglen. Mewn gwirionedd, mewn tair o'r ardaloedd lle bu'r rhan fwyaf o weithgaredd, ystyriwyd i Cymunedau'n Gyntaf fod yn broblemus iawn yn ystod amser ein hymchwil llinell sylfaen, er yn un, fod y sefyllfa wedi gwella'n syfrdanol yn ystod oes y Rhaglen. Roedd un o'r ardaloedd Cymunedau@Ei Gilydd mwyaf "bywiog" mewn dinas yn Ne Cymru, un mewn tref gymharol fawr yng Ngogledd Cymru a'r ddwy arall yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

Fodd bynnag, mae'r ffaith y cyflwynwyd prosiectau unigol mewn dwy ardal lle, hyd yn oed adeg ein hymchwil yn 2007, nad oedd unrhyw weithgaredd a lle credem ei bod yn annhebyg y datblygid prosiectau, yn awgrymu'r graddau y ceisiodd Broceriaid sicrhau cwmpas llydan o weithgaredd Cronfa Grantiau. Roedd yr ardaloedd hyn - ynghyd â'r tair ardal arall lle mai dim ond gweithgaredd cyfyngedig oedd gan Cymunedau@Ei Gilydd - yn rhai a oedd un ai'n gymharol bell o ardaloedd eraill Cymunedau yn Gyntaf (dwy ardal) gyda Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf gwael neu lle bu trafferthion (pedair ardal) a/neu nifer fechan o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gweithredol (pob un o'r pum ardal).

Mae Tabl 3.4 yn edrych ar y dadansoddiad o'n prosiectau "ni" yn ôl maint grant (ac ar gyfer dibenion cymharu, yn edrych ar y dadansoddiad adeg ein Hadroddiad Llinell Sylfaen).

*Tabl 3.4: Dadansoddiad o brosiectau astudiaeth achos yn ôl maint grant*

| Gwerth | Nifer prosiectau (ymchwil terfynol) | *Nifer prosiectau (Llinell Sylfaen)* |
|---|---|---|
| Llai na £5,000 | 8 | *5* |
| £5,000 - £14,999 | 13 | *5* |
| £15,000 - £49,999 | 7 | *5* |
| £50,000 - £99,999 | 5 | *4* |
| £100,000 + | 6 | *6* |
| CYFANSWM | 39 | *25* |

Mae'r dosbarthiad yn amlwg yn gyfatebiaeth dda gyda dosbarthiad y prosiectau ar draws y Rhaglen yn ei chyfanrwydd (Tabl 3.3): er enghraifft roedd 21 (54%) o'n prosiectau dan £14,999 o gymharu gyda 51% o'r holl brosiectau, gyda 11 o'n prosiectau (28%) dros £50,000 o gymharu gyda 20% o'r holl brosiectau.

Wrth gymharu'r sefyllfa ar y cam llinell sylfaen i'r hyn oedd ar y cam ymchwil terfynol, mae'n bosibl gweld yr hyn a alwyd yn ein hadroddiad 2007 fel *"chwydd tua'r canol",* gyda chymharol lai o brosiectau bach iawn yn cael eu datblygu: erbyn gwaith maes y cam olaf, roedd mwy na hanner y prosiectau yn yr ystod gwerth £5,000-£49,999, o gymharu â 40% ym mis Rhagfyr 2006. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu tueddiad ehangach y Rhaglen: ym mis Rhagfyr 2006, roedd 50% o'r holl brosiectau (yn ôl nifer) yn yr ystod £5,000-£49,999 a 25% yn llai na £5,000: erbyn adeg yr adroddiad hwn newidiodd hyn i 64% a 15% yn yr un drefn. Gall hyn fod wedi adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol (nid yn lleiaf ar ran y Broceriaid) fod gorbenion gweinyddol prosiectau bach iawn yn uchel iawn.

Yn nhermau'r hyn yr oedd ein prosiectau yn anelu ei wneud, roedd hyn yn eithaf amrywiol. Yn gyffredinol, medrir dweud:

- Bod y mwyafrif helaeth (37) yn ymwneud â phrynu offer TGCh, ac yn achos 16 o'r prosiectau, roedd y costau bron yn llwyr am "offer" (er yn aml gydag elfen o

brynu cymorth technegol a brynwyd gan y cyflenwr). Roedd tueddiad eithaf clir yn ddiweddarach yn y Rhaglen i gymeradwyo ceisiadau "offer yn unig"- adeg ein hymchwil llinell sylfaen, dim ond chwech allan o'r 21 prosiect oedd yn y categori hwn, gydag offer yn brif gategori gwariant lleiafrif yn unig o'r prosiectau.

- Roedd tua 18 o'r prosiectau'n cyflogi staff un ai ar sail gyflogedig (y mwyafrif) neu sail llaw-rydd/sesiwn. Cafodd bron y cyfan o'r prosiectau hyn eu cymeradwyo'n gynnar yn oes y Rhaglen - sy'n ddealladwy o gofio y byddai'r amserlenni ar gyfer recriwtio staff ar gontract ystyrlon dros dro wedi rhwystro cymeradwyo prosiectau oedd yn cynnwys staff cyflogedig oddeutu blwyddyn olaf y Rhaglen (ac fel y gwelsom, cafodd mwy na thraean y prosiectau hyn eu cymeradwyo rhwng Rhagfyr 2006 a Mehefin 2008).

- Roedd 22 prosiect (mwy na hanner) yn cynnwys darparu rhyw fath o gyfleusterau TGCh "galw heibio" neu fynediad agored mewn lleoliad ffisegol parhaol. Roedd y rhan fwyaf (ond nid mewn unrhyw fodd y cyfan) yn cynnwys rhyw fath o gymorth wedi'i gyfryngu neu fentora yr oedd y Rhaglen yn talu amdano, ond roedd gan rai oriau agor cyfyngedig iawn (mewn un achos, dau fin nos yr wythnos rhwng 5pm a 8pm, mewn un arall, dim ond pan fedrai aelod o Bwyllgor y sefydliad fod yn bresennol, er enghraifft). Roedd rhai yn ymarferol wedi eu cyfyngu i grwpiau cleient neilltuol (oherwydd egwyddorion crefyddol neu ddiwylliannol e.e. dymunoldeb gwahanu ar sail rhyw).

- Roedd 13 prosiect yn cynnwys darparu adnoddau staff neu offer ychwanegol i gyfleusterau galw heibio a fodolai eisoes.

- Roedd tua 12 prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni anghenion mewnol y sefydliadau cymunedol cysylltiedig: roedd prosiectau o'r fath yn cynnwys clwb pêl-droed oedd eisiau gwella diwyg ei raglenni; Undeb Credyd yn cael gliniaduron i gefnogi hyfforddiant ei wirfoddolwyr yn ei systemau ei hun ac i alluogi gwell ymchwil a chyflwyniad; elusen canser yn sicrhau offer TGCh i ddatblygu gwerthu ar-lein o'i siop elusen a'i alluogi i wneud gwell cyflwyniadau i arianwyr; a dau grŵp ar wahân yn cael offer cysylltiedig â cherddoriaeth.

- Roedd saith prosiect yn cynnwys elfen o adrodd straeon digidol fel ffordd o ymrwymo unigolion a/neu grwpiau cymunedol gyda TGCh (er mewn rhai achosion ystyried hyn fel nod eilaidd, o gymharu â'r brif nod o ymgysylltu gydag unigolion wedi eu hallgau): cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu cymeradwyo'n gynnar yn oes y Rhaglen.

- Roedd nifer o brosiectau'n canolbwyntio ar ddarparu help nid yn unig i unigolion ond i grwpiau cymunedol, ac i ryw raddau roeddent yn "rhaeadru lawr" yr hyn yr oedd Cymunedau@Ei Gilydd ei hunan yn ceisio ei gyflawni. Roedd tua naw phrosiect i gyd lle'r oedd hyn yn elfen - cafodd pedwar ohonynt eu hyrwyddo mewn dau o'r astudiaethau achos prosiect a dau brosiect arall sirol y gwnaethom eu samplo fel rhan o'n gwaith astudiaethau achos ardal. Roedd y rhain yn cynnwys elfennau o gefnogi dylunio gwefannau ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol (saith - er y bu'r gweithgaredd yn gyfyngedig iawn mewn rhai ohonynt, ac yn achos un o'n hastudiaethau achos prosiect, roedd y pwyslais wedi symud yn oes y prosiectau o greu gwefannau i annog grwpiau cymunedol i ddefnyddio blogio); darparu cymorth technegol a hyfforddiant mewn cymorth technegol i grwpiau cymunedol (saith prosiect); cefnogi grwpiau i ddatblygu

prosiectau adrodd straeon digidol (dau brosiect); darparu mentora TGCh a hyfforddiant anffurfiol i aelodau grwpiau cymunedol (dau grŵp).

- Roedd dau brosiect (mawr) yn cynnwys elfennau o ddarparu cymorth technegol a gwasanaeth i unigolion gyda phroblemau gydag offer TGCh a hyfforddi gwirfoddolwyr; er bod un o'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cymorth technegol i rwydwaith o ganolfannau dysgu a mynediad a fodolai eisoes.

- Roedd dau brosiect yn cynnwys ailgylchu offer cyfrifiadurol a'u darparu'n rhad i aelodau'r gymuned.

Nid oedd dim un o'n 39 prosiect astudiaeth achos yn cefnogi darlledu (er wrth gwrs fod prosiectau o'r fath wedi eu hariannu mewn mannau eraill gan y Rhaglen), Hefyd, yn ddiddorol, er y pwyslais yn y Canllawiau[108] ar y diffiniad eang o TGCh (er enghraifft, cymwysiadau amlgyfrwng) roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau yn canolbwyntio ar ddefnyddiau gweddol gonfensiynol o gyfrifiaduron personol a chyfrifiaduron Mac, a'r rhyngrwyd - gydag eithriad rhannol y prosiectau hynny'n cynnwys "adrodd straeon digidol" - tra bo prosiectau cynnwys yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i ddatblygu gwefannau neu flogio.

Yn nhermau'r Amcanion a osodwyd ar gyfer Cymunedau@Ei Gilydd ar y dechrau[109], mae ein prosiectau astudiaeth achos yn awgrymu:

- Bod llawer o'r prosiectau yn gysylltiedig â'r Amcan i alluogi **cymunedau i ddefnyddio TGCh ("***rhoi hwb a chefnogi cymuned i ddefnyddio TGCh i sicrhau mynediad i TGCh, dilyniant sgiliau ac allgymorth i'r dieithredig)*: yn wir roedd gan fwyafrif y prosiectau elfen o alluogi mynediad i gyfrifiaduron personol gyda chysylltiad rhyngrwyd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu cefnogi gan staffio priodol. Mae'n sicr fod cysylltiad clir rhwng hyn â'r nod o *"sicrhau bod darpariaeth cymorth TGCh addas ar gael ym mhob rhan o ardal y prosiect".* Mae hefyd yn wir, mewn llawer o achosion, fod prosiectau yn adeiladu ar *"ddarpariaeth bresennol"* ac, mewn termau cyffredinol, ychydig, os unrhyw enghreifftiau, a welsom o Cymunedau@Ei Gilydd yn ariannu cyfleusterau oedd mewn unrhyw ffordd yn cystadlu gyda chyfleusterau eraill a fodolai eisoes. Roedd yr eithriadau rhannol i hyn yn gysylltiedig â Digilabs (er bod y canllawiau yn erbyn cydweithredu, mewn o leiaf ddau achos, roedd prosiectau Cymunedau@Ei Gilydd yn gweithio'n agos gyda Digilabs nad oedd yn cael defnydd digonol) a darpariaeth cyfleusterau oedd yn aml yn agos yn ddaearyddol ond a dargedwyd at broffiliau ethnig neu ddemograffig gwahanol iawn. Dim ond mewn un o'r ardaloedd mwyaf problemus oedd achos lle'r oedd dau brosiect Cymunedau@Ei Gilydd yn rhoi cyllid i sefydliadau oedd yn cefnogi dwy ganolfan "galw heibio" wahanol heb fod rheswm clir pam y dylent fod ar wahân, heblaw am ymryson o fewn y gymuned. Mae'n llai clir y cafodd darpariaeth ei gyflenwi i "*drothwy ansawdd cyffredin"* - er mewn gwirionedd mae'n debyg fod hyn yn llawer i'w ofyn. Bu cymysgedd eang rhwng prosiectau lle darparwyd cyfleusterau mynediad agored gyda mentora/cymorth proffesiynol iawn i rai lle'r oedd staff Cymunedau'n Gyntaf neu sefydliadau eraill yn bresennol yn unig i roi cymorth i ddefnyddwyr gan ddefnyddio eu gwybodaeth eu hunain.
- Yn nhermau **strwythurau gwybodaeth cenedlaethol a lleol,** bwriadwyd i'r nod o sicrhau fod *"prosiectau lleol yn cael eu llywio'n dda gyda gallu i sicrhau*

[108] T. 26 ymlaen
[109] Gweler Adran 2.2

*canlyniadau"* gael ei gyflenwi drwy strwythurau'r Rhaglen ei hun yn hytrach nag yn uniongyrchol gan brosiectau a ariannwyd (ac fel y gwelsom eisoes, mae prosesau'r Rhaglen, yn neilltuol ymrwymiad rhagweithiol y Broceriaid gyda phrosiectau drwy gydol eu hoes, i raddau helaeth wedi cyflenwi yn erbyn yr Amcan hwn). Fodd bynnag, yn nyddiau cynnar y Rhaglen (fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen), bu peth trafodaeth ar weithio gydag ystod o sefydliadau rhanbarthol (yn cynnwys PAVS, Ymddiriedolaeth Scarman a Deudraeth) i ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol a fedrai roi cymorth i'r sector gwirfoddol a chymunedol ar draws Cymru, ond nid yw'n ymddangos hyn i ddod i ffrwyth yn llawn.

- Yn nhermau **sector cymunedol sy'n defnyddio TGCh,** fel y gwelsom roedd tua thraean o'n prosiectau astudiaeth achos yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau cymunedol unigol i wella eu defnydd o TGCh er mwyn cyflenwi yn erbyn yr amcanion craidd, tra roedd tua chwarter y prosiectau eu hunain yn gweithio i ddarparu cymorth i grwpiau cymunedol. Felly ymddengys fod y Gronfa Grantiau nid yn unig i fod wedi rhoi'r Amcan ar waith fel y bwriadwyd (*"bydd y prosiect yn rhoi adnoddau i Froceriaid cymunedol lleol i ddatblygu amrediad o brosiectau")* ond hefyd i fod wedi canolbwyntio'n gadarn ar brosiectau oedd yn anelu i roi cymorth i ystod o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i *"wella'u gêm"* yn nhermau eu defnydd o TGCh.

- Yn olaf, yn nhermau **hybu cyflenwi gwasanaeth,** dyma'r un o'r amcanion gwreiddiol y Rhaglen lle mae'n anodd gweld unrhyw berthynas gyda'r prosiectau Cronfa Grantiau. Yn ymarferol, nid oedd yn brif nod gan unrhyw un o'r 39 prosiect yr oeddem wedi eu harchwilio i *"annog cymunedau i ymrwymo'n well gyda chyflenwyr gwasanaethau allweddol"* ac ni welsom unrhyw dystiolaeth go iawn o brosiectau oedd yn canolbwyntio ar annog neu alluogi unigolion i ddefnyddio TGCh i ryngweithio gyda darparwyr gwasanaeth: roedd siopa ar-lein neu archebu gwyliau, neu ymchwil a gweithgareddau yn gysylltiedig â diddordebau neilltuol grwpiau cymunedol unigol yn fachau llawer mwy cyffredin. Nid oedd unrhyw brosiectau ychwaith yn gysylltiedig gyda'r amcan o *"annog darparwyr gwasanaeth i wneud defnydd blaengar o'r cyfrwng er mwyn sicrhau gwell cysylltiadau gyda chymunedau a mireinio eu gwasanaethau i angen lleol"* er bod angen cofio, gan na fedrai sefydliadau statudol wneud cais i'r Gronfa Grantiau, yn ymarferol byddai'n rhaid i'r rhan hon o'r amcan gael ei chyflenwi gan ddull heblaw'r Gronfa Grantiau. Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, fel y dywedodd nifer o randdeiliaid canolog:

  > *"Os ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio Friends Reunited, Tesco On-line, yna byddwch yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio pryd fydd eich biniau yn cael eu casglu".*

Gwelsom eisoes yn Adran 3.3, i'r Broceriaid fod â rôl hollbwysig wrth fynd ati i weithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau. Fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, roedd yn amlwg yn glir fod Broceriaid nid yn unig wedi hwyluso'r broses cais am grant ond iddynt fod â rôl sylweddol wrth ddatblygu syniadau'r prosiect ac mewn cynnwys elfennau nad oedd noddwyr y prosiect bob amser wedi meddwl amdanynt. Yn neilltuol, roedd yn amlwg y bu Broceriaid yn gyfrifol am sôn am yr angen i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â hyfforddiant neu fentora, yn hytrach na chanolbwyntio ar offer - rhywbeth sy'n amlwg yn cyd-fynd gydag athroniaeth y Rhaglen a chanfyddiadau ymchwil blaenorol oedd yn sylfaen iddo.

Yn nhermau'r gwrth-ffeithiol, mae'n bosibl gwahanu'r prosiectau yn nifer o gategorïau eang, er ei bod yn bwysig cydnabod na all y rhain gael eu hystyried fel bod yn ddiffiniol:

- Roedd tua deg o'r prosiectau o'u hanfod yn syniadau prosiect oedd eisoes wedi eu datblygu'n gymharol dda ac oedd yn defnyddio Cymunedau@Ei Gilydd fel ffynhonnell cyllid i'w gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys pob un o'r pedwar prosiect yn gysylltiedig ag astudiaethau achos prosiect a nifer o brosiectau llai, oedd i raddau helaeth yn canolbwyntio ar offer. Mae'n bosibl y byddai rhai o'r prosiectau llai hyn wedi eu hariannu heb y rhaglen - gan, er enghraifft, gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, y Gronfa Cyfalaf Risg Cymdeithasol neu gan gyllid y Loteri - er ei bod yn ddiddorol hyd yn oed lle'r oedd syniadau posibl yn ardaloedd ein grwpiau rheoli, ni wnaeth dim un ohonynt i fwcl. Fodd bynnag, mae'n llawer llai tebygol y byddai'r prosiectau mwy wedi eu hariannu. O'i hanfod, byddai hyn wedi dibynnu i raddau helaeth ar y cwmpas i gyrchu cyllid Ewropeaidd o'r Rhaglenni Cydgyfeirio newydd (na fedrai, beth bynnag, fod wedi digwydd o fewn yr un amserlen) neu efallai o gyllid Loteri. Yn y ddwy astudiaeth achos prosiect, ymddangosai'n glir fod cwmpas y prosiectau posibl wedi ei gynyddu gan fodolaeth Cymunedau@Ei Gilydd: mewn un achos bu'n gatalydd ar gyfer ymestyn y prosiect yn ehangach yn rhanbarthol, tra yn y llall roedd wedi galluogi ychwanegu elfennau newydd (cyflogi gweithwyr allgymorth digidol i ddenu cleientiaid newydd i ganolfannau cymunedol ac yn bennaf oll rai oedd eisoes yn ymwneud â dysgu mwy ffurfiol).

- Yn y nifer fwyaf o achosion - tua 18 o'r prosiectau - cafodd y prosiect ei hunan ei fobileiddio gan fodolaeth y Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd, ond wedi adeiladu ar syniadau eginol o bethau yr oedd y grŵp ymgeisio yn dymuno eu cyflawni. Medrir ystyried y rhain fel prosiectau a arweinid gan gyfle ac roeddent yn cynnwys nifer o brosiectau oedd yn rhoi adnoddau ychwanegol i ymestyn defnydd o'r cyfleusterau presennol neu'r amrediad gwasanaethau a ddarparwyd yn ogystal â rhai prosiectau oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar offer i wella gweithgareddau grwpiau ymgeiswyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddiwyd y sefydliadau hyn i gyrchu cyllid allanol. Gall rhai o'r prosiectau fod yn rhwydd fod wedi eu datblygu mewn ymateb i gyfleoedd cyllid allanol eraill (yn gysylltiedig â'r Loteri neu gyllid Ewropeaidd er enghraifft) a byddai'r grwpiau yn gyffredinol wedi medru gwneud y broses gais heb fewnbwn Broceriaid (mewn geiriau eraill, medrai'r prosiectau fod wedi dod i fodolaeth pe na byddai broceriaid ar gael, er na fyddent wedi gwneud hynny heb fodolaeth y Gronfa Grantiau). Yn yr achosion hyn, fodd bynnag, teimlai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr y bu gan y Brocer rôl allweddol wrth wneud y broses yn rhwyddach, ac mewn rhai achosion wneud yn siŵr fod prosiect eginol yn dod yn brosiect go iawn. Roedd hyn yn cynnwys un o'r prosiectau mwy, lle'r oedd y noddwr yn bendant na fyddai cyflenwi gwasanaeth allgymorth yn yr ardal astudiaeth achos wedi digwydd heb y Rhaglen,. Yn yr un modd, teimlai cyfwelai eraill, hyd yn oed pe byddai'r cyfle cyllid wedi cael ei gyflwyno, efallai na fyddai wedi cael amser i ddatblygu'r prosiect a'r cais heb ymrwymiad personol y Brocer: yn y diwedd fe wnaeth ei gwblhau dros benwythnos adref, oherwydd:

*"Bron nad oeddwn i eisiau siomi'r Brocer".*

- Mae trydydd prosiect yn ymwneud â phrosiectau na fyddai wedi cael eu datblygu heb gyfraniad uniongyrchol y Brocer. Roedd tua deg o'r rhain (rhai bach yn bennaf), llawer wedi'u cyflwyno gan sefydliadau heb staff cyflogedig nad oedd â'r amser na'r adnoddau i ddatblygu cais am gyllid. Yn yr achosion hyn, mae'n

annhebygol y byddai'r prosiectau wedi digwydd o gwbl heblaw am y Rhaglen a'r model Brocer.

- Roedd y categori olaf yn cynnwys prosiectau y medrid eu nodweddu fel rhai a yrrwyd gan y Brocer hyd yn oed lle'r oedd y syniad gwreiddiol wedi'i ffurfio'n bendant iawn fel canlyniad rhyngweithiad y Brocer gyda'r grŵp dan sylw. Er adeg yr adroddiad llinell sylfaen, credem fod pedwar o'r 25 prosiect y gwnaethom eu hastudio bryd hynny yn dod i'r categori hwn, credwn yn awr mai dim ond ar gyfer un prosiect y mae hyn yn gymwys mewn gwirionedd, lle'r oedd y Brocer mewn gwirionedd wedi awgrymu'r syniad am y prosiect wrthy  Grŵp.

Byddai'n ymddangos o'r dystiolaeth gyfyngedig gan ein hardaloedd grwpiau rheoli y byddai lefel uchel yr ychwanegedd mewn prosiectau Cronfa Grantiau o fewn ein hardaloedd astudiaethau achos. Hyd yn oed lle bu dyhead i ddatblygu prosiectau cymunedol seiliedig ar TGCh yn yr ardaloedd hyn, nid oedd y rhain yn gyffredinol wedi gwneud cynnydd dros gyfnod ein gwerthusiad, er y datblygwyd gwefan gymunedol mewn un mewn tair gyda chyllid gan ddau gynllun grant bach Awdurdodau Lleol. Yn ein barn ni, ymddengys fod hyn yn rhannol oherwydd anhawster dynodi a chyrchu cyllid allanol addas (er enghraifft, roedd cais i Microsoft i ariannu gwefan mewn un gymuned wedi methu, ac yn yr ail roedd cais - yn union cyn ein hymchwil llinell sylfaen - i BT Community Connections i dalu am liniaduron ar gyfer defnydd y gymuned hefyd wedi'u gwrthod) ac yn rhannol oherwydd diffyg ffocws penodol ar gynhwysiant digidol a chymorth i ddatblygu ceisiadau o'r math a ddarparwyd gan y Broceriaid.

Yn nhermau gweithredu, nodwyd yn ein hadroddiad yn 2007 fod oedi sylweddol yn nhermau cael rhai o'r prosiectau ar waith, gyda thua wyth prosiect (y cyfan ohonynt yn werth llai na neu ychydig dros £15,000) un ai heb gychwyn o gwbl neu wedi sicrhau offer ond heb ddechrau ei ddefnyddio, a chwe phrosiect arall (y cyfan ohonynt yn brosiectau mwy) oedd wedi cael gohiriadau, mewn pump o'r achosion hyn yn arwain at danwariant.

Roedd y rhesymau a roddwyd ar gyfer y prosiectau hynny nad oedd wedi cychwyn o gwbl yn eithaf amrywiol ond roeddent yn cynnwys:

- Oedi wrth recriwtio staff a sicrhau gwiriadau Biwrô Cofnodion Troseddol;
- Problemau am sicrhau gorchudd yswiriant ar gyfer yr offer;
- Dymuno dod o hyd i safle newydd cyn cychwyn;
- Diffyg ystyriaeth ddigonol i broblemau cymorth technegol - mewn un achos, nid oedd prosiect wedi medru rhwydweithio'r cyfrifiaduron personol yr oedd wedi'i sicrhau ac roedd yn disgwyl datblygiad prosiect cymorth technegol i ddatrys hyn;
- Aros am i "PC World" newydd agor i gael yr offer;
- Pwysau ymrwymiadau eraill yn arwain at ohirio wrth symud y prosiect yn ei flaen.

Yn achos y chwe phrosiect lle bu oedi, roedd yr achos am broblemau mewn pedwar ohonynt yn ymwneud â staffio, yn cynnwys oedi wrth recriwtio ac mewn un achos, yr angen i ddiswyddo aelod o staff a brofodd yn anaddas, tra yn y ddau achos arall roedd wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i roi celfi mewn safle addas ac oherwydd prynu offer anaddas ac yna orfod ei ddychwelyd.

Fodd bynnag, erbyn amser cam olaf ein gwaith maes, roedd yn glir fod y rhan fwyaf o anawsterau a gafodd llawer o'r prosiectau wedi eu datrys. O'r 35[110] prosiect, amcangyfrifwn i 23 gael eu gweithredu'n llawn (yn nhermau elfennau hanfodol cyflawni gweithgaredd a ddynodwyd), roedd pedwar arall wedi eu cyflawni'n llwyr ond gydag oedi sylweddol (a all i ryw raddau fod wedi llesteirio ar y canlyniadau cyffredinol, er enghraifft oherwydd i gymorth mentora fod ar gael am lai o amser nag a ragwelwyd), dim ond yn rhannol y cafodd wyth eu gweithredu ac roedd un heb ei gwblhau.

Mae hyn yn ymddangos i ni yn ganlyniad cadarnhaol iawn, yn neilltuol gan yr ymddengys mai dim ond tri o'r prosiectau a fethodd yn sylweddol i gyflenwi (ac mewn dau, roedd y prosiectau wedi cau ac yn cael eu hymchwilio). Yn achos prosiectau oedd wedi cyflenwi'n rhannol yn unig neu lle bu oedi sylweddol, a hyd yn oed yn achos rhai prosiectau wedi cyflenwi holl elfennau hanfodol y cais, cafodd trosglwyddiadau yn aml eu defnyddio i sicrhau fod prosiectau'n cyflawni gwariant llawn (neu bron yn llawn), ac roedd y rhain fel arfer ar ffurf galluogi prosiectau i brynu offer ychwanegol a/neu feddalwedd yn lle tanwariant ar gostau staff. Dyna ddigwyddodd mewn un o'r prosiectau mawr, nad oedd i ddechrau ond yn cynnwys elfennau cyfyngedig iawn o brynu offer, lle cafodd tanwariant ar staff eu "mopio fyny" drwy brynu caledwedd.

Yn gyffredinol, mae ein hastudiaethau achos yn cadarnhau barn y data perfformiad prosiect cyffredinol i'r rhaglenni cael eu rheoli'n dyn iawn ac yr ymddengys i'r system monitro weithio'n dda wrth ddynodi problemau a'u datrys. Lle cafwyd problemau, roedd y rhain fel arfer wedi eu cysylltu gyda materion yn ymwneud â chyflogaeth/staff, er enghraifft:

- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf nad oedd erioed wedi cyflogi unrhyw un yn uniongyrchol oedd wedi cyflogi mentor ac wedyn wedi bod mewn anghydfod ag ef am yr hyn a ystyrient yn berfformiad gwael ganddo, gan arwain at iddo adael y prosiect yn gynnar;
- Mewn Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf arall, cafodd cydlynydd a rheolwr prosiect Cymunedau@Ei Gilydd ei wahardd o'i waith am gyfnod ac er i weithiwr arall fynd â'r prosiect ymlaen, roedd chwalu'r berthynas rhwng y ddau yn golygu y collwyd momentwm yn gyffredinol a chymharol ychydig a gyflawnwyd;
- Roedd prosiect adrodd straeon digidol wedi defnyddio gweithwyr llaw-rydd, ond wedi canfod yn ymarferol fod hyn yn gostwng hyblygrwydd i ddelio gyda grwpiau oedd yn aml yn canslo cyfarfodydd neu heb ddod i'r fei o gwbl.

Mewn achosion eraill, bu problemau mwy mân yn nhermau technoleg amhriodol neu anaddas, er yr ymddengys fod enghreifftiau o hyn wedi eu gostwng oherwydd rôl y Broceriaid:

- Yn achos un o'r prosiectau oedd wedi mynd o chwith o ddifrif, wrth edrych yn ôl, credai rheolwr y prosiect fod defnyddio cyfrifiaduron Mac yn hytrach na chyfrifiaduron personol ar gyfer dull adrodd straeon digidol yn gamgymeriad: *"Roedd yr Apple Macs wedi eu dychryn nhw* [y buddiolwyr] *yn llwyr".*

- Mewn prosiect bach iawn arall, canfu'r grŵp nad oedd yr offer Dell a brynwyd fel canlyniad i gyngor gan Cymunedau@Ei Gilydd yn rhyngweithio'n dda gyda'r

[110] O'r 39 prosiect ni fu modd i ni wneud gwaith maes mewn pedwar yn ystod y gwerthusiad cam olaf.

cyfrifiaduron personol yr oeddent eisoes yn eu defnyddio ac roeddent wedi'i chael yn anodd cael gwerth o'r contract cymorth technegol oherwydd eu bod yn defnyddio'r offer ar fin nos pan na fedrent ffonio'r gwasanaeth cymorth;

- Mewn trydydd prosiect, oedd hefyd yn ymwneud ag adrodd straeon digidol, cafodd y penderfyniad ar ddechrau'r prosiect i brynu cyflenwad crynswth o drwyddedau ar gyfer pecyn meddalwedd y medrid eu trosglwyddo i grwpiau cymunedol ei danseilio pan brofodd cenhedlaeth newydd o "mini-Macs" yn anghyson gyda'r feddalwedd.

O'r 78 buddiolwr y gwnaethom eu cyfweld fel rhan o'r gwaith maes, roedd saith yn cynrychioli grwpiau cymunedol a gafodd gymorth prosiect oedd yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth i grwpiau, yn hytrach nag unigolion ac felly nid yw eu nodweddion personol mewn gwirionedd yn berthnasol i ddadansoddiad o nodweddion buddiolwyr. O ystyried y gweddill, byddai'n ymddangos fod rhai prosiectau wedi llwyddo wrth gyrchu grwpiau priodol ond daeth rhai pwyntiau diddorol i'r amlwg:

- Roedd tueddiad cryf tuag at bobl hŷn neu wedi ymddeol - gyda 27 allan o'r 66 y mae gwybodaeth ar gael amdanynt dros 50 oed - o gymharu â 22 o unigolion rhwng 25 a 49 oed; plant (9) a phobl ifanc (8) oedd y gweddill;

- Roedd nifer debyg iawn o ddynion a menywod (36 o ddynion a 35 o fenywod);

- Roedd pawb a gyfwelwyd ym mhob ardal heblaw un yn wyn: yn yr ardal hon (ward ddinesig fawr) roedd nifer gyfartal o fuddiolwyr gwyn a du Affricanaidd;

- Ychydig iawn (dim ond chwech) o'r rhai a gyflogwyd oedd mewn cyflogaeth, gyda'r rhan fwyaf o rai o oedran gwaith yn segur, un ai oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu oherwydd eu bod ar fuddion iechyd: ychydig iawn oedd wrthi'n chwilio am swydd gyflogedig;

- Nid oedd gan y rhan fwyaf ddim cymwysterau ffurfiol neu gymwysterau ffurfiol cymharol isel oedd ganddynt er bod cyfran cymharol uchel od â pheth profiad diweddar o ddysgu yn y gymuned (tra bod y plant a rhai o'r bobl ifanc wrth gwrs yn dal i fod mewn addysg);

- Roedd gan y rhan fwyaf (45 i gyd) gyfrifiadur personol neu liniadur gartref, gyda bron yr holl blant a phobl ifanc yn y categori hwn: mewn rhai achosion, fodd bynnag, nid oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd neu fand eang gyda hyn yn aml yn cael ei briodoli i gost (wirioneddol neu dybiedig) cysylltiad rhyngrwyd neu bryderon am ddiogelwch;

- Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai (yn cynnwys rhai oedd â mynediad i gyfrifiaduron personol yn eu cartrefi - lle'n aml mai aelodau eraill yr aelwyd oedd i gyfrif am y rheswm y cafwyd cyfrifiadur personol) wedi bod yn ofnus iawn o TGCh cyn ymrwymo gyda'r Rhaglen: roedd ofn hyd yn oed i droi cyfrifiadur ymlaen yn thema gyffredin ymhlith yr unigolion hyn.

  *"Roeddwn i'n arfer meddwl y byddwn i'n gwneud llanast o bopeth?".*

- Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol eisoes wedi "switsio ymlaen" i TGCh, ond yn defnyddio'r prosiectau un ai i oresgyn problemau a gawsant, i ennill sgiliau

a/neu alluoedd newydd, i roi gweithgaredd cymdeithasol iddynt neu'n unig i gael mynediad i gyfleusterau (e.e. band eang) nad oedd ar gael iddynt yn eu cartrefi.

3.3.3 Effeithiau ar Randdeiliaid Allanol Lleol a'r Sector Cymunedol/Gwirfoddol

Yn Adran 3.2 cyfeiriwyd eisoes at farn nifer o randdeiliaid canolog fod y Rhaglen wedi dod i gael ei domineiddio gan y Gronfa Grantiau ac wrth edrych yn ôl, medrid bod wedi sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y Gronfa Grantiau a gweithgaredd arall mwy datblygiadol. Dadleuodd nifer o randdeiliaid fel canlyniad fod gormod o ffocws ar gael yr arian allan o'r drws, ac nid digon ar gymorth i grwpiau i reoli prosiectau a fyddai wedi:

*"Gadael y grwpiau gyda mwy o sgiliau wedyn, na fedrai arian fod wedi'i wneud, oherwydd bod yn rhaid i chi helpu grwpiau i weithio allan pa gymorth roedden nhw angen".*

Hyd yn oed yn gliriach, dywedodd cyfwelai arall:

*"Roedd bod â £9 miliwn yn rhoi mantais fawr i ni ond roedd hefyd yn albatros".*

Yn wir, er bod allbynnau'r Rhaglen yn nhermau datblygu a gweithrediad prosiectau Cronfa Grantiau yn drawiadol iawn, ymddengys y caiff y sylwadau hyn gan randdeiliaid canolog eu cadarnhau gan ein gwaith mewn ardaloedd astudiaethau achos.

Yn neilltuol, gwelsom eisoes (Adran 3.2.2) yr ymddengys yn gyffredinol fod ymrwymiad Broceriaid gyda rhanddeiliaid allanol lleol (Awdurdodau Lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf) wedi gostwng dros oes y Rhaglen, ar ôl cyfnod dechreuol o weithgaredd mawr pan oedd Broceriaid yn ceisio sefydlu ymwybyddiaeth o'r Rhaglen a'r Gronfa Grantiau. Er i ni ganfod ar y cam llinell sylfaen fod ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o gynhwysiant digidol a'r hyn a olygai wedi cynyddu, ni welsom unrhyw dystiolaeth go iawn o gwbl fod y Rhaglen wedi ysgogi ymrwymiad rhanddeiliaid o'r fath yn gwthio'r agenda cynhwysiant digidol ymlaen eu hunain - ac eithrio Cynghorau Gwirfoddol Sirol neu Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf oedd eu hunain wedi cyrchu arian Cronfa Grantiau neu oedd wedi helpu rhanddeiliaid i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r "tirlun" neu'r hyn oedd ar gael yn lleol.

Yn nhermau gwaith o fewn y sector gwirfoddol a chymunedol lleol, gwelsom hefyd yn gyffredinol fod Broceriaid wedi canolbwyntio ar weithio gyda grwpiau unigol yng nghyd-destun eu prosiectau Cronfa Grantiau yn hytrach nag ysgogi gweithio partneriaeth rhwng gwahanol grwpiau neu helpu i ddatblygu rhwydweithiau rhyngddynt. Medrid ystyried fod hyn i ryw raddau yn esgeuluso un o'r egwyddorion sylfaenol a sefydlwyd ar y dechrau:

*"Gwneir cysylltiad rhwng gweithgareddau TGCh sydd eisoes ar waith fel nad ydynt mwyach yn sefyll ar ben eu hunain ac y medrant fanteisio o weithio a dysgu gyda'i gilydd a rhannu profiadau".*

Mewn rhai achosion, y rheswm am hyn oedd bod sectorau gwirfoddol a chymunedol lleol eisoes â rhwydweithiau rhesymol dda ac na fedrai'r Brocer ddisgwyl gwneud cyflwyniadau rhwng sefydliadau oedd eisoes yn adnabod ei gilydd yn dda:

*"Dwi ddim yn meddwl fod llawer allan yno y medrai ddweud wrthyf amdanyn nhw nag na fyddwn i'n gwybod amdanyn nhw".*

*"Mae ganddon ni gysylltiadau ein hunain".*

Mewn achosion eraill, yr oedd oherwydd bod Broceriaid yn gyflym yn dod i wybod am ddrwgdeimlad hanesyddol o fewn y gymuned ac wedi penderfynu (yn ddigon call) i gadw'n glir. Ond i raddau helaeth byddai'n ymddangos i'r agwedd hon o gynllun gwreiddiol y Rhaglen gael ei gwasgu allan drwy ganolbwyntio ar her cyflenwi'r Gronfa Grantiau.

Mewn termau cyffredinol, ychydig o dystiolaeth oedd yn ardaloedd ein hastudiaethau achos o ymdrechion i sefydlu *"etifeddiaeth ddigidol"* ar gyfer y rhaglen yn nhermau rhwydweithio agosach (er bod hyn efallai'n cyfeirio at yr ymrwymiad cyffredinol isel gan grwpiau y gwnaethom gyfarfod hwy mewn rhwydweithio a gweithgareddau arfer da a hyrwyddwyd gan y Rhaglen).

Ar ôl dweud hyn, roedd rhai enghreifftiau ardderchog o le wnaeth y Rhaglen wahaniaeth yn nhermau datblygu perthynas waith agosach rhwng sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Roedd hyn yn neilltuol o wir yn y ward ddinesig a welodd y nifer fwyaf o brosiectau wedi'u datblygu: yma roedd y brocer yn gyntaf wedi ysgogi cydweithio rhwng ystod eang o grwpiau i gyd-ddatblygu prosiect cymorth technegol, ac yn ail, wedi creu nifer o "glystyrau" o brosiectau ar gyfer cefnogi ei gilydd. Er bod hon yn ardal oedd eisoes â "seilwaith" cyfoethog o sefydliadau gwirfoddol a chymuendol, ymddangosai fod yr ymdrechion hyn wedi creu cysylltiadau a rhwydweithiau newydd.

Ymhellach, fel y nodwyd eisoes, bwriedid i bedwar o'r prosiectau mwy i ryw raddau i "raeadru" cymorth ac ymwybyddiaeth TGCh i'r sector gwirfoddol a chymunedol, ac ymddengys i'r proisectau hyn fod wedi gweithio'n effeithlon iawn gyda sefydliadau bach iawn o'r sector gwirfoddol, er yn un achos bu'n rhaid i'r hyrwyddwr docio uchelgais i helpu grwpiau i ddatblygu eu gwefannau eu hunain, gan ddefnyddio blogio yn lle hynny. Roedd y prosiect hwn wedi cefnogi 151 o unigolion o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ddefnyddio blogio, datblygu gwefannau neu gynhyrchu cylchlythyrau a dulliau eraill o gyfathrebu.

Rhoddodd yr ail o'r prosiectau mawr hyn gymorth i bron 100 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol, yn cynnwys 54 lle'r oedd gwaith wedi cynnwys datblygu gwefannau newydd (gyda phwyslais cryf ar ymrwymo'r grwpiau yn y gwaith hwn, fel y medrent eu cynnal yn y dyfodol yn hytrach na'i *"wneud drostynt")* a 44 oedd wedi derbyn cymorth technegol. Roedd y Grwpiau yn cynnwys ystod enfawr o wahanol fathau o weithgaredd gwirfoddol:

- 16 Grŵp Plant a Ieuenctid;
- 14 Cymdeithas Gymunedol;
- 10 Grŵp Anabledd;
- 12 Grŵp Celfyddydau/Cerddoriaeth a Drama;
- 10 Grŵp Cymuned Ddaearyddol;
- 5 Menter Gymdeithasol'
- 9 Grŵp Iechyd;
- 8 Grŵp Cwnsela;
- 4 Grŵp diddordeb arbennig arall;
- 4 Grŵp Chwaraeon a Hamdden;

- 2 Grŵp Amgylcheddol
- 4 Grŵp Treftadaeth/Diwylliant;
- 2 Grŵp Pobl Hŷn.

Yn gyffredinol, roedd grwpiau y gwnaethom ymweld â hwy fel rhan o'n gwaith maes yn werthfawrogol iawn o'r cymorth a gafwyd gan y prosiect:

*"Roedd yn bwysig i ni gael gwefan yn ei lle. Fel grŵp doedd ganddon ni ddim mo'r amser na'r adnoddau i fedru ei wneud ein hunain .. Roeddem eisiau gwneud yn siŵr y medrem ddiweddaru'r safle yma ac y medrai mwy nag un ohonom wneud hynny. Fe ddaeth* [y gweithiwr prosiect] *yma a dangos i ni sut i'w wneud".*

*"Fedra'i ddim meddwl am unrhyw beth fyddai'n ei wella. Roedd y cyfan am ddim".*

Hefyd, o fewn cyd-destun y gweithgareddau Cronfa Grantiau eu hunain, roedd enghreifftiau pellach o fwy o brosiectau lleol yn gweithio mewn ffordd oedd yn cyfnerthu ei gilydd (er, mai ochr arall y geiniog oedd bod hynny'n sicr o fod wedi arwain at gyfrif dwbl helaeth o fuddiolwyr):

- Gweithiodd cynllun adrodd straeon digidol ar hyd y sir drwy grwpiau cymunedol lleol (yn cynnwys un o fewn ardal yr astudiaeth achos) a cheisiodd *"hyfforddi'r hyfforddwyr"* i gynnal eu prosiectau adrodd straeon digidol eu hunain: er na wnaeth hyn ddigwydd o fewn ardal yr astudiaeth achos, digwyddodd hynny mewn rhai o'r 19 ardal Cymunedau yn Gyntaf o fewn y prosiect;
- Rhoddodd prosiect arall Sir-gyfan hyfforddiant a chefnogaeth i "hyrwyddwyr TGCh" lleol mewn nifer o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn un o ardaloedd yr astudiaethau achos, er yn ymarferol, dim ond ychydig iawn o raeadru dysgu oedd o'r "hyrwyddwyr" i gynulleidfa ehangach.
- Mewn ardal astudiaeth achos arall gyda sector gwirfoddol a chymunedol cyfoethog, roedd un o'r prosiectau a ariannwyd hefyd yn darparu amrediad o wasanaethau cymorth i'r grwpiau gwirfoddol a chymunedol eraill.

Y mae felly dystiolaeth fod y Rhaglen yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i wella'r cymorth technegol sydd ar gael i grwpiau bach - o leiaf mewn rhai cymunedau - ac wrth annog gwell cysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan weithgar yn y Rhaglen. Ond mewn gwirionedd mae'r gweithgareddau rhwydweithio hyn yn rhai oedd wedi llifo o'r Gronfa Grantiau yn hytrach na chael eu hyrwyddo yn ychwanegol ac ar ben hynny.

Yn nhermau annog gwell dealltwriaeth gan grwpiau cymunedol o botensial TGCh, gwelsom eisoes, yng nghyd-destun y Gronfa Grantiau, bod Broceriaid yn aml yn medru chwistrellu elfennau newydd i feddwl yr ymgeiswyr - yn aml yn nhermau elfennau "meddalach" pwysigrwydd mentora neu gymorth ar gyfer defnyddwyr newydd TGCh - ond hefyd yn nhermau technolegau neu gymwysiadau penodol megis Skype neu fasnachu ar y rhyngrwyd.

Un enghraifft dda iawn o'r Brocer yn "codi golygon " grŵp oedd prosiect bach iawn lle'r oedd y sefydliad (elusen yn helpu dioddefwyr canser oedd yn rhedeg siop stryd fawr i godi arian) eisiau dechrau masnachu ar e-Bay er mwyn cynyddu gallu codi refeniw'r siop. Wrth helpu'r grŵp i gyflawni'r nodau mewnol a threfniadol hyn, roedd y Brocer hefyd wedi codi ymwybyddiaeth y grŵp mae'n debyg nad oedd gan y rhan fwyaf o'i weithwyr (yn bennaf fenywod wedi ymddeol yn gwirfoddoli) fawr o brofiad o ddefnyddio TGCh ac y medrent fanteisio o gael help i ddefnyddio'r offer a roddwyd gan y grant:

*"Dwi ddim yn credu ei bod yn debyg y medrwn fod wedi rhoi'r pwyslais iddo heb y grant ... roeddwn i angen yr offer cyfrifiadur ... Mae'n debyg na fyddwn wedi cymryd cymaint o ran wrth wneud yn siŵr fod y gwirfoddolwyr yn ei ddeall... dwi ddim yn meddwl y byddwn i wedi rhoi cymaint o flaenoriaeth iddo ag ydwi'n awr ... dwi ddim yn meddwl y byddwn wedi ymgeisio cael pawb i'w droi ymlaen ... mae wedi codi cwr y llen ar helpu gwirfoddolwyr i ddefnyddio'r offer".*

Yn nhermau defnydd technoleg gan y grwpiau cymunedol eu hunain, roedd yn glir fod rhai grwpiau'n defnyddio TGCh eu hunain mewn ffordd oedd wedi "codi eu gêm". Roedd hyn y wir, er enghraifft, am y grŵp uchod a oedd yn defnyddio e-Bay yn eithaf helaeth erbyn diwedd y prosiect; am brosiect Undeb Credyd, lle'r oedd yr offer TG a hyfforddiant cysylltiedig wedi galluogi cryn naid ymlaen yn defnyddio technoleg gan staff rheng-flaen (gwirfoddol) ac, mewn nifer o grwpiau (y ddau'n derbyn Cronfa Grantiau yn uniongyrchol a rhai wedi manteisio o'r prosiectau "rhaeadru") oedd yn defnyddio TGCh i gyflwyno "wyneb" llawer gwell i'r byd, p'un ai drwy wefannau, blogs, deunyddiau cyflwyno (er enghraifft gymdeithas seryddol yn medru defnyddio ffilm i wneud gweithgareddau addysgol neu glwb pêl-droed yn medru defnyddio cyhoeddi bwrdd gwaith i gynhyrchu rhaglenni gêm). Mewn rhai o'r achosion hyn (yn neilltuol yng nghyswllt prosiectau bach Cronfa Grantiau), prif gymhelliant y Grŵp fu sicrhau "offer" penodol ac weithiau (ond nid bob amser) sgiliau neu arbenigedd ychwanegol er mwyn ei ddefnyddio i godi safon yn y ffordd hon.

Fodd bynnag, mewn llawer o achosion - efallai mwyafrif y grwpiau a dderbynyiodd gyllid - ni ymddangosai fod cyllid Cymuendau@Ei Gilydd wedi cael effaith mawr ar ddeunyddiau mewnol gan y grwpiau. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod sefydliadau eisoes yn ddefnyddwyr cymharol soffistigedig o TGCh o leiaf yn nhermau deunyddiau gweinyddol, ond mewn eraill (efallai'n neilltuol y rhai'n cynnig cyfleusterau galw heibio), efallai ei fod yn adlewyrchu tueddiad i ystyried y prosiectau fel rhai am ddefnyddwyr yn hytrach na'r sefydliadau eu hunain. Hyd yn oed ar ddiwedd y prosiect, roedd yn drawiadol nad oedd cryn nifer o'r sefydliadau llai yn defnyddio e-bost yn rheolaidd fel dull arferol o gyfathrebu.

### 3.3.4 Effeithiau ar Fynediad i Gyfleusterau a Chyfleoedd Dysgu Anffurfiol

Fel y gwelsom yn Adran 3.2.3, roedd mwyafrif y prosiectau o fewn ein sampl (22 i gyd) yn ymwneud â darparu neu gefnogi rhyw fath o gyfleuster galw heibio, gyda'r rhan fwyaf yn cynnwys darparu rhyw fath o fentora neu gymorth i ddefnyddwyr. Roedd dros eu hanner - 13 - yn cynnwys adeiladu mewn rhyw ffordd ar adnodd a fodolai eisoes, sy'n cyd-fynd yn llwyr gyda nod y Rhaglen ac yn cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau (hyd yn oed os yw'n ei gwneud yn anos i werthuswr ddatod union effaith y prosiect Cronfa Grantiau). Mewn llawer o ffyrdd - ac efallai er gwaethaf disgwyliadau rhai o'r rhanddeiliaid canolog - rhoi mynediad i gyfleusterau TGCh cymorthedig sydd ar gael i'r cyhoedd fu craidd y Gronfa Grantiau.

Fodd bynnag, roedd maint, "cyrraedd" a maint y cymorth a gynigiwyd gan bob grŵp yn amrywio'n helaeth, fel y dengys yr enghreifftiau hyn:

- Darparodd prosiect bach (gyda grant o tua £30,000) saith gliniadur ac offer cysylltiedig a mynediad wi-fi (yn ogystal â chefnogi datblygu gwefan a phrosiect ymchwil) mewn "Tŷ Cymuned" (y ganolfan ar gyfer y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol) ar stad oedd â mynediad cyfyngedig iawn i TGCh. Defnyddiwyd hyn yn rhannol i alluogi cyflenwi hyfforddiant ffurfiol cyfyngedig gan y Coleg lleol (oedd wedi denu saith o gyfranogwyr) ac yn rhannol i ddarparu cyfleuster galw

heibio ddwy noswaith yr wythnos rhwng 5pm a 8pm yn bennaf ar gyfer pobl ifanc. Mae cyfanswm o tua 23 o wahanol bobl ifanc wedi defnyddio'r cyfleuster hwn, gyda'r galw lleol yn agwedd gadarnhaol iawn o'r prosiect gyda:

*"Pobl yn ciwio tu allan i'r drws yn disgwyl i fynd fewn i gael eu tro ar y gliniadur".*

Ar y llaw arall, rhoddir goruchwyliaeth yn llwyr gan staff taledig y sefydliad nawdd, nad oes ganddynt arbenigedd penodol mewn TGCh.

- Roedd un o'r prosiectau mawr yn rhoi cymorth i sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol hefyd yn cynnwys cefnogi nifer o gyfleusterau mynediad agored, er enghraifft roi cymorth technegol i un oedd wedi derbyn buddsoddiad cyfalaf mewn ystafell TGCh gan "Opportunities for All" ond oedd angen cymorth gyda chefnogaeth dechnegol i gadw'r offer yn gweithio'n iawn fel y medrai gael ei ddefnyddio fel canolfan galw heibio a hefyd ar gyfer cyfleoedd dysgu mwy ffurfiol a ddarparwyd gan y Coleg lleol. Mewn achos arall, gofynnwyd i'r prosiect ddarparu cymorth i gyfleuster galw heibio a ariannwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd lle'r oedd y cwmni preifat a gafodd gontract i ddarparu hyn wedi diddymu. Nid darparu cynnal a chadw yn unig oedd ffocws yr help ond hyfforddi staff i fedru cynnal yr offer yn y dyfodol.

- Llwyddodd un arall o'n hastudiaethau achos prosiect a dderbyniodd £83,000 ar gyfer prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar gyflogi gweithwyr allgymorth i ennyn brwdfrydedd a denu unigolion o'r tu fewn i'r cymunedau targed i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol a fodolai eisoes lle'r oedd dysgu ffurfiol eisoes ar gael, i ddenu cyfanswm o 318 o i sesiynau "galw heibio" anffurfiol iawn ar TGCh sylfaenol yn ogystal â chynnwys 234 o unigolion gyda phrosiectau adrodd straeon digidol ac (fel y nodwyd uchod) 151 o unigolion o grwpiau gwirfoddol a chymunedol a fodolai eisoes gyda datblygu gwefannau, blogs neu gylchlythyrau.

- Roedd y prosiect arall yn yr un prosiect astudiaeth achos wedi llwyddo, drwy ddarparu staff cynnal a chadw mewnol, i gadw tua phum canolfan gymunedol ar agor oedd yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer dysgu gydol oes.

- Yn ardal yr astudiaeth achos gyda'r rhan fwyaf o weithgaredd Cymunedau@Ei Gilydd, cefnogwyd o leiaf bedair canolfan galw heibio ar wahân, pob un yn darparu offer a mentora: fodd bynnag, nid oedd hyn yn dyblygu, gan fod pob un wedi'i dargedu at grŵp gwahanol (roedd un er enghraifft ar gyfer menywod yn unig, dau ar gyfer lleiafrif ethnig penodol, tra mai dim ond un oedd yn ganolfan galw-heibio cyffredinol i'r gymuned) a bu'r Brocer yn weithgar iawn yn hyrwyddo rhwydweithio rhwng grwpiau. Roedd offer eisoes gan ddwy o'r canolfannau hyn ond dim gwir gefnogaeth mentora, sef prif werth ychwanegol y prosiectau Cronfa Grantiau. Roedd yr holl brosiectau yma yn fach (£5k - £15k) er mewn dau achos, roedd sefydliadau wedi manteisio o ddau grant ar wahân.

- Mewn un ardal astudiaeth achos, roedd Cymunedau@Ei Gilydd wedi cefnogi dwy ganolfan mynediad agored ar wahân, y ddwy gyda mentoriaid, gydag un yn canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc ac un ar gael i'r gymuned yn ehangach; yn y ganolfan oedd ar gael i'r gymuned yn ehangach, dywedwyd fod nifer fawr o weithwyr ymfudol wedi defnyddio'r cyfleuster i gyfathrebu gyda ffrindiau a pherthnasau yn eu mam wledydd, gan ddefnyddio cyfleusterau e-bost a gwe-gamera.

- Mewn ardal astudiaeth achos arall, roedd y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi derbyn grant o ychydig dan £20,000 ar gyfer gliniaduron ac offer cysylltiedig ac i dalu am fentor i weithio am 20 awr yr wythnos i staffio canolfan galw heibio. Fel canlyniad i anawsterau yn y berthynas rhwng y mentor a'r Bartneriaeth (oedd yn cynnwys y Bartneriaeth yn credu nad oedd y mentor yn ddigon rhagweithiol wrth ddarparu'r cyfleuster), dim ond am tua chwe mis y gweithredodd y prosiect o fewn oes wreiddiol y Rhaglen; fodd bynnag, galluogodd ymestyn y Rhaglen y Bartneriaeth i gyflogi myfyriwr dros gyfnod gwyliau'r haf i ail-agor y cyfleuster gyda pheth llwyddiant. Er gwaetha'r problemau, dywedwyd mewn ffurflenni monitro fod tua 331 o unigolion wedi defnyddio'r Ganolfan (er y credir fod hyn yn cyfeirio at ymweliadau unigol, ac yn cynnwys cyfrif dwbl o unigolion yn mynychu fwy nag unwaith). Fodd bynnag, un wers o'r profiad (ar gyfer y Brocer oedd yn cymryd rhan) oedd:

*"P'un ai a fydd pobl mewn gwirionedd yn mynd a defnyddio canolfan galw heibio, wel rydyn ni wedi profi na wnân nhw ... agor y drws iddyn nhw a wnân nhw ddim cerdded i mewn drwyddo".*

- Nid oedd y prosiect astudiaeth achos prosiect oedd yn canolbwyntio ar un ward wedi cynnal ystod eang o weithgareddau galw heibio, yn cynnwys cyrsiau anffurfiol pedair wythnos, oedd wedi denu tua 300 o fuddiolwyr i gyd (o gymharu â tharged gwreiddiol o 350). Un broblem oedd nad oedd y lleoliad mewn warws ar stad ddiwydiannol yn neilltuol o ddeniadol i ymwelwyr achlysurol.

- Mewn ardal astudiaeth achos arall, roedd un prosiect wedi ariannu cymorth staff ynghyd ag offer ychwanegol ar gyfer Canolfan Gymunedol sefydledig a chanolfan gysylltiedig. Adeg cam olaf y gwaith maes, roedd y ddwy ganolfan ar agor am gyfanswm o 18 awr ar gyfer gweithgareddau galw heibio (er bod y cyfan ohonynt yn ystod y diwrnod gwaith) ac roedd y Ganolfan wedi logio mwy na 500 o ddefnyddwyr gwahanol ar ei serfiwr yn ystod oes y prosiect.

- Mewn ardal astudiaeth achos lle'r oedd pedwar prosiect wedi eu hariannu, nid oedd dim ohonynt mewn gwirionedd wedi darparu cyfleuster galw heibio, serch nad oedd cyfleusterar gael eisoes (er yr agorodd caffe rhyngrwyd sector preifat yn ystod oes y Rhaglen). Roedd hyn yn fwriad gan un o'r prosiectau, oedd wedi'i leoli mewn eglwys, ond yn ymarferol ymddengys mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed ohono, yn rhannol oherwydd nad oedd y prosiect yn darparu unrhyw fentora/cefnogaeth. Er bod prosiect hyfforddiant sir-gyfan wedi cynnal nifer o gyrsiau mewn cysylltiad gyda nifer o'r prosiectau hyn, yn ymarferol nid oedd yn ymddangos fod mwy na dwsin neu ddau o unigolion yn y ward wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol neu anffurfiol fel canlyniad Cymunedau@Ei Gilydd.

Mae'r ddwy enghraifft olaf hyn yn tynnu sylw at y ffaith, er bod Cymunedau@Ei Gilydd cyflwyno nifer fawr o wahanol gyfleoedd i unigolion gael mynediad i gyfrifiaduron personol, llawer ohonynt gyda chefnogaeth addas, mae gwahaniaeth enfawr rhwng yr hyn fu ar gael mewn gwahanol ardaloedd (a faint o ddefnydd â fu arnynt) yn nhermau mynediad agored i TGCh. Ymhellach, mewn un ardal, ni chafodd unrhyw gyfleuster o'r fath ei gefnogi (yr unig brosiect oedd cymorth i grŵp ieuenctid i wneud ffilm ddigidol) ac mewn ardal arall roedd y cyfleoedd yn gyfyngedig iawn. Wrth gwrs, mae hyn yn ganlyniad anochel cyfuniad ymagwedd o'r gwaelod i fyny ac amserlenni byr y Rhaglen, ond efallai ei bod yn werth nodi fod y ddarpariaeth yn dibynnu yn y pen draw ar fodolaeth grwpiau oedd yn medru cymryd y rôl hon ac yn

barod i wneud hynny (er gyda chymorth Cymunedau@Ei Gilydd) yn hytrach na maint anghenion gwrthrychol y gymuned dan sylw.

Dangoswyd hyn gan sylw gan un o'n rhanddeiliaid canolog:
*"Mewn ffordd, doedd y prosiect erioed yn un strategol, fe ddechreuodd ynglŷn â mynd allan at bobl yn eu cymunedau ... Ffocws y prosiect oedd, mae yna arian yma, mae gennym ni broblem bwlch digidol posibl, ewch allan i'r gymuned ..."*

Yn y dyfodol, teimlai'r cyfwelai yma fod angen mwy o ffocws ar ddynodi a llenwi bylchau mewn ardaloedd neilltuol, yn hytrach na dim ond ariannu grwpiau oedd eisoes wedi eu sefydlu.

Mater arall oedd yn glir o'n gwaith maes oedd i ba raddau yr oedd llawer o'r prosiectau a ariannwyd, yn ymarferol, ond wedi gweithredu am gyfnod byr iawn, a medrid dadlau nad oedd hynny'n ddigon mewn gwirionedd i sefydlu presenoldeb cryf mewn ardal. Mewn sawl achos, nid oedd prosiectau'n cynnwys cymorth staff neu fentora wedi cychwyn pan wnaethom gynnal gwaith maes yn Ebrill/Mai 2007 ac roedd wedi gorffen erbyn yr adeg i ni ymweld ag ardaloedd astudiaeth achos gwta flwyddyn yn ddiweddarach. Dychwelwn i'r mater hwn yn Adran 3.4.5 islaw.

Yn ogystal â rhoi mwy o fynediad i TGCh a chefnogaeth i alluogi unigolion ei ddefnyddio, roedd dau o'r prosiectau mawr o fewn ein sampl hefyd yn darparu gwasanaethau yn nhermau "gofal a thrwsio" cyfrifiaduron personol mewn cymunedau targed. Mae un o'r prosiectau hyn (gyda grant o tua £175,5000 - ond oedd hefyd yn cefnogi cynnal cyfleusterau dysgu cymunedol) yn gweithio o bum canolfan gymunedol wedi cefnogi 574 o unigolion, a gan ddefnyddio cyfradd fasnachol o £55 fesul atgyweiriad ar gyfartaledd, mae'n amcangyfrif y bu'r cymorth uniongyrchol i unigolion yn werth bron £27,000. Fodd bynnag, nid darparu atgyweiriadau yn unig oedd ffocws y cymorth hwn ond hefyd hyfforddi gwirfoddolwyr (tua 26 i gyd) i ddarparu'r gwasanaeth ac addysgu'r buddiolwyr i ddeall sylfeini cynnal a chadw mewn ffordd na fyddai gweithredwyr masnachol yn wneud:

*"Maen nhw wedi datblygu pob mathau o sgiliau'n ymwneud gyda chaledwedd a meddalwedd. Maen nhw'n dod yn ôl i ofyn cwestiynau am bethau".*

Roedd yr ail brosiect gydag elfen "gofal a thrwsio" wedi delio gyda thua 900 o atgyweiriadau cyfrifiadurol. Roedd hyn yn cynnwys:

- *"Galw allan"* gan gleientiaid yn y gymuned, rhai ohonynt yn *"dod â'u cyfrifiadur yn ôl bedair neu pum gwaith y flwyddyn";*
- *"pobl sy'n dod â'u cyfrifiaduron i mewn"*
- *"mewnol* [o fewn y sefydliad nawdd]"'
- *"gwaith allanol i sefydliadau ... pethau elusennol a phethau felly";*
- *"cyngor* [a roddwyd] *dros y ffôn".* Dim ond galwadau gan sefydliadau a gafodd eu monitro, er y dywedwyd y derbyniwyd mwy o alwadau gan breswylwyr lleol na hynny. Dywedodd y rheolwr prosiect

*"Dydyn ni ddim yn monitro galwadau gan breswylwyr ... pe byddai gennym ni linell bremiwm, mi fyddem yn filionêrs erbyn hyn .. mae'n debyg y byddech chi'n edrych ar bedair gwaith y ffigur hwnnw* [o 900 'digwyddiad']!"

Fodd bynnag, roedd cyfran eithaf uchel o'r rhain (60% yn ôl amcangyfrif rheolwr y prosiect) yn ymwneud ag offer oedd piau'r Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf a'r

Corff Atebol sy'n golygu nad oedd efallai fod y prosiect wedi cyflawni ei darged o gefnogi 900 o unigolion, 50 grŵp cymunedol a 10 busnes gyda chynnal a chadw cyfrifiaduron personol.

Yn gyffredinol, mae ein gwaith gyda buddiolwyr yn awgrymu graddfa uchel iawn o fodlonrwydd gyda'r cyfleusterau, gwasanaethau a'r cymorth a roddwyd gan brosiectau Cymunedau@Ei Gilydd, heb neb yn dweud eu bod yn llai na "da" a llawer yn ganmoliaethus iawn ohonynt.

*"Dwi ddim yn teimlo embaras i ddod yma ... dwi ddim y gorau am ddarllen, ond dyw hynny ddim yn bwys yma".*

*"Mae'n llawer gwell na un wers yr wythnos ... ac maen nhw bob amser yma ac yn medru eich helpu pan fyddwch yn cael trafferthion ... yma rydych chi'n cael yr hyn rydych chi eisiau heb y ffurfioldeb ... mae'n fwy hamddenol".*

*"Mae'n wych yma ... dwi ddim yn teimlo embaras i ofyn".*

*"Fe wnaeth ffrind fy nghyflwyno ... Mae'r profiad rwy'n ei gael yma yn well nag unrhyw gwrs coleg, oherwydd eich bod chi'n cael y profiad drosoch eich hun ... dwi wedi dysgu llwythi o sgiliau newydd. Yn ogystal ag awgrymiadau a chynghorion, dwi wedi dysgu am gymorth cwsmeriaid a gofal cwsmeriaid a sgiliau cyfathrebu".*

### *3.4 Effeithiau Canolog (Canlyniadau)*

#### 3.4.1 Effeithiau Polisi

Yn ein Hadroddiad Llinell Sylfaen, nodwyd er nad oedd rhanddeiliaid canolog yn medru sôn am ffyrdd **penodol** yr oedd y Rhaglen eisoes yn hybu'r agenda cynhwysiant digidol yng Nghymru neu fan arall, fod eisoes ddiddordeb sylweddol yn ymagwedd datblygu cymunedol y Rhaglen at gynhwysiant digidol fel ffordd hyfyw ac a fedrai fod yn llawer mwy llwyddiannus o fynd i'r afael â'r mater nag ymagwedd wedi ei seilio mewn canolfan ffisegol a ffafriwyd mewn mannau eraill. Dywedwyd y bu diddordeb sylweddol yn y Rhaglen mewn Seminar ddiweddar a gynhaliwyd gan y Gynghrair Cynhwysiant Digidol yn Llundain.

Nodwyd hefyd y rhoddwyd cynhwysiant digidol yn gadarn ar y map polisi yng nghyswllt polisi TGCh Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda *Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar Ddefnyddio Grym TGCh yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006 oedd yn rhoi tystiolaeth glir a chyson o'r graddau yr ystyriwyd cynhwysiant digidol fel elfen hanfodol mewn harneisio TGCh i sicrhau newid economaidd a chymdeithasol. Yn wir roedd y cyntaf ar y rhestr o nodau (hyd yn oed cyn gwella perfformiad economaidd) y dywedodd y ddogfen ymgynghori ei bod yn ceisio ei gyflawni oedd:

*"Sicrhau bod gan ddinasyddion y sgiliau a'r hyder i ddefnyddio TGCh ble, pryd a sut y dewisant wneud hynny"*[111]

Yn yr un modd, y ffaith bod cyfran o'r boblogaeth nad ydynt yn hyderus a chyfarwydd gyda chyrchu gwybodaeth ar-lein ac nad oedd ein dealltwriaeth o'r

[111] t.9

rhesymau dros hyn yn gyflawn oedd y cyntaf mewn cyfres o heriau penodol yn cyfeirio at TGCh y dywedwyd eu bod yn wynebu Cymru [112].

Er yn pwysleisio ei bod ymhell o fod yn glir y medrid priodoli'r pwyslais hwn i raglen Cymunedau@Ei Gilydd (gan, er enghraifft, ei bod yn glir y bu syniadau'r Undeb Ewropeaidd ar gynhwysiant digidol hefyd yn ffactor allweddol sylfaenol i hyn [113]), gwnaethom o leiaf nodi ei fod o leiaf yn gyson gyda'r proffil uchel yr oedd y Rhaglen yn dechrau ei gael yng Nghymru.

Nodwyd hefyd fod model cyflenwi Cymunedau@Ei Gilydd (gyda Broceriaid yn y gymuned ond wedi'u rheoli'n ganolog ag ymagwedd ragweithiol iawn at ddatblygu prosiect) yn cael ei ystyried fel un a fedrai ac a ddylai fod yn sylfaen i feddwl am Raglenni eraill megis Cymunedau'n Gyntaf ac agendâu polisi ehangach megis *"Ar Draws Ffiniau"*[114] .

Yng ngham ofal ein gwaith maes, parhaodd cyfweleion i danlinellu'r rôl bwysig fu gan y Rhaglen wrth oleuo meddwl Gweinidogion yng Nghymru am gynhwysiant digidol, hyd yn oed er nad oedd unrhyw ddogfennau polisi pellach ar strategaeth a pholisi TGCh wedi eu cyhoeddi:

*"Bu'n ddylanwadol iawn yn yr adran eitha bach honno a gafodd y dasg o ddelio gydag ef".*

*"Mae'n awr yn derbyn cefnogaeth ar lefel wleidyddol gan wahanol adrannau ar draws y Cynulliad".*

Dywedodd un cyfwelai i Brif Weinidog y Cynulliad gyfeirio at Cymunedau@Ei Gynhadledd mewn araith bwysig yng nghynhadledd ddiweddar ERISA yn Ne Cymru fel un o ddwy esiampl o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i hybu agenda rhagweithiol ar TGCh, tra nododd eraill y cafodd ymagwedd y Rhaglen ei hadlewyrchu'n helaeth yn yr esboniad o bolisi TGCh yn y Rhaglen Cydgyfeirio. Wrth siarad am y gynhadledd Cynhwysiant Digidol yng Nghymru, dywedodd cyfwelai oedd yn ymwneud yn agos â datblygu polisi:

*"Mae cynhadledd o'r maint hwnnw yn gwthio'r ffinio ... yn gwthio'r holl agenda ... Mae Cymunedau@Ei Gilydd yn goleuo polisi wrth i ni symud ymlaen".*

Mae'n sicr yn amlwg i'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio wrth siarad yn y Gynhadledd[115] dalu targed i rôl y Rhaglen wrth oleuo polisi:

*"Y Rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd fu'n rhaglen cynhwysiant digidol arweiniol ... Llwyddiant clir Cymunedau@Ei Gilydd yw ei bod yn ceisio cyrraedd pobl drwy'r pethau sydd o ddiddordeb iddyn nhw: mae deall sut i ddefnyddio'r dechnoleg felly yn fodd o gyflawni rhywbeth ac nid yn ddiwedd ynddo'i hunan".*

Ar yr un pryd, nododd un o'n rhanddeiliaid er y credai fod y Rhaglen yn gwneud polisi:

---

[112] t.31
[113] t. 16
[114] Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad Beecham, yn edrych ar ffyrdd o wella gweithio integredig ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru..
[115] Cynhwysiant Digidol Cymru: 2008 Adroddiad Cynhadledd t. 4

*"Rydyn ni wedi bod yn gwneud polisi ar hyd yr amser ... mae'n ffurfio polisi syml"*

Roedd diffyg fframwaith polisi clir yn parhau:
*"Pan mae'r Gweinidog yn siarad am gynhwysiant digidol, mae'n siarad am Cymunedau@Ei Gilydd ... Ond mae hynny beth ffordd o fod yn bolisi".*

Ymhellach, fel y gwnaed yn glir yng nghynhadledd Cynhwysiant Digidol Cymru a chynhadledd ERISA, cafodd ymagwedd Cymunedau@Ei Gilydd ei nodi gan y Comisiwn Ewropeaidd fel bod yn torri tir newydd mewn cynhwysiant digidol, gyda chynrychiolydd y Comisiwn yng Nghynhadledd Cynhwysiant Digidol Cymru yn dweud[116] na ddylid bychanu'r arbenigedd sy'n bodoli yng Nghymru i daflunio gwaith ar draws Ewrop. Dywedodd fod Cymru ymhell ar y blaen yn nhermau meddwl ac mai'r mater yw 'sut mae mynd â'r ymarfer hwnnw ymlaen a'i atgynhyrchu ar draws Ewrop. Gellid gwneud Cymru yn fwy gweladwy ar lwyfan Ewrop.

Gan ystyried pwysigrwydd hyn, dywedodd un o'n cyfweleion:

*"Mae'r elfen Ewropeaidd ... mae hynny'n bwysig ac mae angen i Lywodraeth y Cynulliad feddwl yn ofalus iawn am hynny. Medrai'r ffaith fod Ewrop yn edrych ar Gymru fel un o'r gwir arweinwyr fod yn gamp go fawr i'r Cynulliad ... a rhaid iddyn nhw beidio golli golwg ar hynny".*

Yn nhermau'r model Brocer sy'n cael ei ymestyn mewn mannau eraill fel dull o gyflenwi'r Rhaglen, yn ystod ein gwaith maes yn 2007, soniodd y Tîm Canolog am enghraifft prosiectau sgiliau sylfaenol graddfa-fawr eginol yn canolbwyntio ar ardal Blaenau'r Cymoedd a obeithiai ddefnyddio ymagwedd debyg (gyda Broceriaid Cymunedol yn dynodi a datblygu prosiectau cymunedol i fynd i'r afael ag anghenion). Adeg ein gwaith maes cam olaf, fodd bynnag, nid oedd yn glir os yr aethpwyd ymlaen â hyn.

#### 3.4.2 Canlyniadau ar gyfer unigolion

Yr ydym eisoes wedi nodi nad aeth Cymunedau@Ei Gilydd ati mewn gwirionedd i "orfodi" unrhyw fathau o dargedau neu ddangosyddion oedd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar brosiectau Cronfa Grantiau, gan olygu nad oes bron unrhyw ddata cronnus yn bodoli eisoes. Mae hefyd yn wir fod y targedau a osodwyd gan y prosiectau Cymorth Grantiau fel rhan o'u cais bron yn gyfangwbl yn ddangoswyr gweithgaredd neu allbwn ac yr ymddengys nad oedd fawr, os unrhyw, brosiectau wedi cofnodi canlyniadau cadarnhaol yn systemataidd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cydnabod bod hyn yn ddiffyg - er yn amlwg un oedd wedi'i ddechrau'n glir ddechrau'r Rhaglen:

*"Dydyn ni ddim wedi cynllunio, dydyn ni ddim wedi mesur, oherwydd nad oedden ni wedi seilio ar ganlyniadau economaidd".*

*"Mae hynny'n hanes ... ond dwi'n credu ei bod yn anffodus nad oedd yn monitro canlyniadau, ac rwy'n teimlo ei bod yn anffodus na wnaethom gasglu'r data hwnnw er nad oedd angen i ni ei roi i WEFO ... rydyn ni wedi olrhain allbynnau ond dim canlyniadau".*

[116] Ibid., t. 20

Er fod y tîm canolog felly wedi medru dangos rhai enghreifftiau da o ganlyniadau ar lefel unigolion neilltuol (yn fwyaf arbennig, efallai, Sharon Morris o brosiect Radio Cymunedol RhCT y gwnaeth ei chyflwyniad yng nghynhadledd Cynhwysiant Digidol Cymru argraff fawr ar lawer o'r rhai a'i clywodd [117]), mae'n amhosibl dod i unrhyw gasgliadau am ba mor gyffredin yw enghreifftiau o'r fath. Eto, cydnabuwyd hyn gan nifer o randdeiliaid canolog, er y mynegodd un farn gyffredin drwy ddweud:

*"Os caiff hynny ei ailadrodd ychydig ddwsinau o weithiau'n unig, mae'n newid pethau ... ac os yw wedi digwydd i un person ac wedi newid eu bywyd, yna maen nhw'n mynd i ddweud wrth eu ffrindiau ... fe fyddan nhw wedi cyrraedd pobl eraill mewn ffordd, pe byddech chi'n ei wneud yn yr ysgol neu ar gwrs CLAIT, na fyddech chi efallai yn dweud wrth bawb".*

Yn yr un modd, yn nhermau ein gwaith maes gyda'r prosiectau Cronfa Grantiau a'u buddiolwyr, bu modd i ni ddynodi rhai canlyniadau cadarnhaol ond roeddem mewn gwirionedd yn aml yn dibynnu ar enghreifftiau anecdotaidd gan reolwyr prosiect yn hytrach na thystiolaeth o lygad y ffynnon ac yn ymarferol ni fedrwn wneud fawr mwy na dod i rai casgliadau bras.

Yn nhermau ymrwymo gydag unigolion nad oedd ganddynt yn flaenorol fawr neu ddim profiad o TGCh a chynyddu eu hyder i ddefnyddio technoleg, gwelsom fod llawer o broseictau lle'r oedd hyn yn elfen sylfaenol o'u gweithgaredd - yn aml yn canolbwyntio ar bobl hŷn. Roedd hyn yn wir er enghraifft am un ganolfan galw heibio mewn Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf lle credai'r Cydlynydd fod y 120 o ddefnyddwyr hyd yma:

*"Yn bennaf yn ddefnyddwyr newydd, pobl sengl, hŷn ... a phobl yn eu pumdegau a chwedegau sydd wedi gorffen swyddi yn hytrach nag ymddeol",*

barn a gafodd ei hadleisio gan y ffaith o'r pedwar buddiolwr y gwnaethom eu cyfweld (tri wedi ymddeol, un ar Fudd-dal Anallu) oedd yn dilyn cwrs TGCh sylfaenol iawn, dim ond un oedd â chyfrifiadur personol gartref a dywedodd nad oedd erioed wedi'i ddefnyddio.

Mewn prosiectau eraill, gwelsom enghreifftiau o unigolion a oedd yn flaenorol wedi teimlo'n rhy ofnus i ddefnyddio offer TGCh sylfaenol ar ôl cael eu hannog i wneud hynny fel canlyniad i gefnogaeth anffurfiol mewn canolfannau "galw heibio", er enghraifft cyn weithiwr dur oedd *"eisiau perthyn i'r unfed ganrif ar hugain"* ond oedd wedi teimlo gormod o embaras i barhau gyda chwrs cyflwyno ffurfiol yr oedd wedi cychwyn arno, neu ddyn a fu'n ddi-waith am dymor hir nad oedd erioed wedi cyffwrdd ar gyfrifiadur cyn iddo fynd gyda'i ferch i ganolfan gymunedol a chael blas o ddifrif arni.

Yn yr un modd, credai un o'r prosiectau mwy gydag elfen galw heibio fod mwyafrif ei 300 cleient yn *"nofisiaid"* ond bod gan 70% gyfrifiadur personol yn eu cartrefi.

Mae'r gwrthddweud tebygol hwn rhwng bod â mynediad TGCh gartref ond serch hynny fod yn newydd i'w ddefnyddio yn rhywbeth a gafodd ei adleisio mewn prosiect arall mewn ardal astudiaeth achos lle'r oedd pob un o'r pum buddiolwr mewn prosiect â chyfrifiadur personol yn eu cartrefi nad oedd ganddynt un ai hyder i'w defnyddio, ac felly eisiau cefnogaeth mentor, neu fod yn well ganddynt ddod i'r Ganolfan

[117] Ibid., t.8

Gymunedol oherwydd bod ganddi fynediad i fand eang. Er bod y rheswm diwethaf hwn yn tanlinellu'r posibilrwydd a drafodir islaw fod o leiaf beth o ddefnydd canolfannau o'r fath yn unig er mwyn cael mynediad am ddim i wasanaethau oedd ar gael i fuddiolwyr, mae'r canfyddiad hwn hefyd yn tanlinellu'r ffaith hyd yn oed os oedd gan fwyafrif y buddiolwyr y gwnaethom gwrdd â hwy fynediad i gyfrifiaduron personol yn eu cartrefi, efallai nad oedd gan lawer ohonynt ddim sgiliau neu sgiliau cyfyngedig iawn i'w defnyddio cyn dod i gysylltiad â'r proisect Cronfa Grantiau.

Fodd bynnag, o'r dystiolaeth gyfyngedig o'n gwaith maes, ymddengys yn llai tebygol fod y prosiectau'n targedu plant a phobl ifanc yn arwain at enillion sylweddol yn nhermau hyder neu gysylltiad newydd â TGCh (nad yw'n syndod, efallai, o gofio am y defnydd helaeth o TGCh mewn ysgolion). Mewn un prosiect bach, er enghraifft, lle'r oedd y Gronfa Grantiau wedi cefnogi prynu gliniaduron i aelodau grŵp ieuenctid i'w defnyddio yn ystod ei weithgareddau ar nos Lun, roedd gan bob un o'r plant a gyfwelwyd fynediad i TGCh gyda chysylltiad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi ac er eu bod yn defnyddio amrywiaeth o raglenni meddalwedd yn eu gweithgareddau grŵp (yn cynnwys PowerPoint, ffotograffiaeth ddigidol ac ati), dywedodd pob un ohonynt eu bod yn rhaglenni yr oeddent wedi eu defnyddio o'r blaen. Dywedodd un - oedd â chyfrifiadur personol a'i liniadur ei hun yn ei gartref:

*"Mae gan bob plentyn yn yr ysgol gyfrifiadur – mae'n rhaid i chi nawr".*

Yn yr un modd, yn un o'r canolfannau galw heibio a ddefnyddiwyd yn bennaf gan blant a phobl ifanc (a heb fentora neu gefnogaeth benodol), dywedwyd mai ar gyfer gemau cyfrifiadurol y defnyddid y gliniaduron yn bennaf. Yn yr achosion hyn, er y gall prosiectau fod wedi cael effeithiau cadarnhaol yn nhermau cynhwysiant digidol, mae'n llai clir eu bod yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol.

Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r prosiectau llai wedi'u targedu at y cyhoedd y tu allan ond yn canolbwyntio ar ddefnyddio TGCh i ddiwallu anghenion y grŵp cymunedol neu wirfoddol a'i aelodau unigol presennol - ffaith a gydnabuwyd gan nifer o randdeiliaid canolog:

*"A siarad yn gyffredinol ... lle'r oedd gennym grwpiau oedd yn benodol iawn am yr hyn a wnânt ... rasio colomennod, cymdeithasau seryddol, y clwb pysgota, ni fyddan nhw fel arfer wedi'u targedu'u hunain i fynd allan a dod o hyd i aelodau newydd ... fe fyddan nhw'n edrych ar ddatblygu'r hyn sydd ganddyn nhw, ar y llaw arall lle mae gennych chi grwpiau nad ydyn nhw'n benodol, fel arfer fe fyddan nhw wedi dod o hyd i rai buddiolwyr newydd".*

*"Os gwnewch chi edrych ar y cydbwysedd, mae'r cydbwysedd yn gryf iawn o blaid prosiectau bach ... ac fe fyddai'n gofyn llawer i ddisgwyl iddyn nhw edrych allan i'r gymuned yn ehangach ... maen nhw am y grwpiau eu hunain, ac os ydych chi'n siarad am bobl sy'n rasio colomenod, mae cysylltu gyda'u haelodau yn wirioneddol bwysig".*

Er fod y gwaith a wnaeth y Tîm Canolog yn nhermau datblygu astudiaethau achos wedi dod o hyd i lawer o enghreifftiau o'r mathau hyn o brosiectau yn ymrwymo unigolion heb unrhyw sgiliau TGCh blaenorol, roedd profiad ein prosiectau astudiaeth achos ychydig yn gymysg. Mewn rhai achosion, roedd prosiectau wedi gweithio'n union fel y bwriadai athroniaeth sylfaenol Cymunedau@Ei Gilydd, mewn geiriau eraill yn cyflwyno unigolion heb wybodaeth am TGCh i dechnoleg gan ennyn eu diddordeb drwy weithgaredd yr oeddent eisoes yn cymryd rhan ynddo, er enghraifft:

- Yn yr elusen canser a dderbyniodd gyllid i ddechrau masnachu ar e-Bay, fe wnaethom gwrdd â nyrs wedi ymddeol oedd wedi bod yn rhy ofnus i ddilyn cwrs yn y llyfrgell ond a oedd adeg ein gwaith maes yn 2007 yn ystyried prynu gliniadur gyda chysylltiad band eang yn dilyn ei phrofiad o ddefnyddio technoleg. Erbyn cam olaf ein hymchwil, roedd wedi prynu gliniadur ac ymhellach wedi dod yn swyddog grantiau i'r elusen oherwydd ei bod yn awr yn medru gwneud ymchwil ar y rhyngrwyd a llenwi ffurflenni cais.

- Roedd aelodau grŵp canu cymunedol oedd yn cynnwys pobl hŷn yn bennaf oedd wedi derbyn cyllid am system sain seiliedig ar Apple Mac, wedi rhyfeddu cymaint gan yr hyn y medrai'r system ei wneud, fel bod tri ohonynt (dau ohonynt heb erioed ddefnyddio cyfrifiadur) wedi ymuno â chlwb *"syrffwyr arian"* a gynhelid mewn Canolfan Gymunedol hefyd wedi'i chefnogi gan Cymunedau@Ei Gilydd gydag un yn dweud:

  *"Mae wedi cael effaith taro ymlaen a dwi'n awr yn fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron".*

- Mewn grŵp seryddiaeth, roedd cael offer digidol newydd wedi'i ariannu gan Cymunedau@Ei Gilydd (gyda grant bychan o ychydig dros £6,000) wedi arwain at i saith aelod o'r grŵp nad oedd *"yn gwybod dim o gwbl am gyfrifiaduron"* ddysgu *"sut i'w defnyddio"*, diolch i raddau helaeth i fewnbwn gan bum aelod o'r grŵp oedd yn hyddysg mewn TG ac yn gyffredinol *"chwarae o gwmpas"* gyda'r dechnoleg tra'n gweithio ar *"brosiectau"* yn gysylltiedig â seryddiaeth. Yn ôl rheolwr y prosiect, nid oedd gan yr aelodau hyn ddiddordeb mewn cyrsiau technoleg gwybodaeth ond roeddent yn barod i ddysgu sut i ddefnyddio TGCh er mwyn cyflawni tasgau'n gysylltiedig â'u prif ddiddordeb - seryddiaeth. Aeth ymlaen i ddweud fod aelodau wedi bod yn ddysgwyr brwdfrydig oherwydd eu diddordeb ond ychwanegodd fod medru defnyddio TGCh "*yn ddefnyddiol tu hwnt iddynt mewn bywyd bob dydd*".

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ymddengys nad oedd gan y math yma o brosiect gyda ffocws mewnol fawr o rôl wrth ennyn diddordeb neu ddatblygu sgiliau TG meddalach aelodau, er enghraifft:

- Roedd clwb pêl-droed a dderbyniodd grant bach iawn o £1800 ar gyfer offer eisiau gwella cynhyrchu rhaglenni gemau. Er bod hyfforddi gwirfoddolwyr mewn TGCh sylfaenol hefyd yn darged, mewn gwirionedd yr hyn a olygai hyn oedd bod un o aelodau mwyaf sgilgar y grŵp wedi dynodi tri aelod arall oedd yn hyddysg mewn TGCh a

*"Threulio cwpl o oriau yn fy nhŷ yn dangos iddynt sut i roi rhaglenni at ei gilydd a sut i lawrlwytho delweddau i Photoshop".*

- Y grŵp ieuenctid a ystyriwyd uchod, oedd wedi cyrchu tua £6,000 o gyllid Cymunedau@Ei Gilydd oherwydd eu bod yn grŵp newydd heb unrhyw adnoddau ac yn:

*"Edrych am ba bynnag help y medrem ei gael".*

Er y bu gan y cyllid rôl wrth gryfhau'r seilwaith gwirfoddol a chymunedol, mewn gwirionedd ymddengys nad oedd wedi gwneud fawr o gyfraniad i gynhwysiant digidol.

- Cymdeithas preswylwyr nad oedd mewn gwirionedd wedi llwyddo i ymrwymo ei haelodau a lle cyfaddefodd y Brocer wedyn:

*"Mae'n debyg mai dim ond i gadw cofnodion yr oedd* [Ysgrifennydd y Grŵp] *eisiau gliniadur".*

Mae'n anodd gweld unrhyw nodweddion sy'n gwahaniaethu'r ddau grŵp yn nhermau maint y sefydliad, maint y grant neu rôl y Brocer wrth ddatblygu'r prosiect. Ym mhob un o'r chwe achos (y rhai oedd yn dangos arfer da wrth ymrwymo pobl gyda thechnoleg a rhai lle'r oedd yr effaith yn llawer mwy cynnil), roedd y prosiectau wedi derbyn cyllid am offer yn unig.

Roedd llai o'n prosiectau astudiaeth achos yn ymwneud â chynyddu sgiliau buddiolwyr oedd eisoes yn hyddysg mewn TGCh, ond yr oedd serch hynny rai enghreifftiau da o hyn:

- Recriwtiodd un o'n prosiectau mawr 26 o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda atgyweirio, cynnal a chadw a gweithredu cyfrifiaduron personol; roedd llawer ohonynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth blaenorol a fagodd frwdfrydedd drwy gymryd rhan yn y prosiect ac wedi ennill sgiliau a manteision cymdeithasol o'r prosiect.

- Roedd prosiect graddfa-fawr arall oedd wedi rhoi cefnogaeth dechnegol i grwpiau gwirfoddol a chymunedol hefyd yn ymarferol yn gwella sgiliau unigolion o fewn y grwpiau hynny i gymryd mwy o gyfrifoldeb am gynnal a chadw yn y dyfodol. Fel y nodwyd eisoes, roedd y prosiect hwn wedi cefnogi bron 100 o grwpiau ac roedd un buddiolwr a gyfwelwyd oedd yn *"hoffi chwarae gyda cyfrifiadur ... fe gefais i fand eang tua dwy flynedd yn ôl"* yn awr yn medru diweddaru a chynnal gwefan ei Grŵp. Ategodd un arall y dystiolaeth hon:

*"Dydyn nhw ddim dim ond yn draw yma a gwneud pethau, maen nhw'n eistedd gyda ni a dangos i ni sut i'w gwneud fel y medrwn ddysgu a'u gwneud ein hunain y tro nesaf. Mae hynny wedi helpu i adeiladu ein hyder".*

- Yn y grŵp seryddiaeth, roedd naw aelod wedi defnyddio'r offer a brynwyd gyda chymorth y Gronfa Grantiau i wneud ffilm ddigidol (yn rhannol gyda chymorth prosiect hyfforddiant sirol arall a ariannwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd oedd wedi gwella sgiliau'r aelodau o'r grŵp oedd yn hyddysg mewn TG:

*"Wyddwn i ddim llawer am olygu fideo o'r blaen, ond i fod yn onest, does ond rhaid i chi edrych ar y llyfr cyfarwyddiadau a medrwch ei bigo fyny yn eithaf cyflym yno".*

Fodd bynnag, yn gyffredinol, y prosiectau llai hyn gyda mwy o ffocws mewnol ynghyd â'r prosiectau mawr iawn oedd yn tueddu i fod ag elfen o gynyddu sgiliau'r rhai gyda phrofiad cymharol sylweddol o TGCh, tra bod y prosiectau maint canolig *"galw heibio"* yn tueddu i ganolbwyntio ar sgiliau lefel mwy sylfaenol.

Os oes tystiolaeth sylweddol o'n prosiectau astudiaeth achos yn sicrhau canlyniadau yn nhermau gwella sgiliau a hyder ar gyfer y rhai heb ddim sgiliau TGCh, neu sgiliau

cyfyngedig, mae llawer llai o dystiolaeth yn nhermau canlyniadau caletach, megis dilyniant i gyfleoedd dysgu mwy ffurfiol neu ganlyniadau cyflogaeth. Yn wir, o gofio natur y grŵp cleient (gyda chynrychiolaeth uchel o ddau ben y sbectrwm oedran - plant a phobl wedi ymddeol), efallai nad oedd hyn i'w ddisgwyl.

Medrodd llawer o'n brosiectau siarad yn gyffredinol fod unigolion wedi symud ymlaen i gofrestru ar gyrsiau ffurfiol, ond ni fedrai hyd yn oed y rhai oedd wedi rhwydweithio orau gyda darparwyr hyfforddiant roi data cadarn. Efallai drwy ddiffiniad, roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr y gwnaethom eu cyfweld *"in situ"* wedi symud ymlaen i ddulliau eraill o ymrwymiad cymdeithasol neu economaidd a dim ond llond dwrn o rai o oedran gwaith nad oedd eisoes yn gweithio oedd yn frwd i symud ymlaen i ddysgu pellach neu'n dilyn gweithgareddau yn gysylltiedig gyda chyflogadwyedd:

- Roedd dau o'r gwirfoddolwyr yn yr elusen canser (76 ac 80!) oed yn dilyn cwrs TGCh yn y coleg lleol
- Roedd nifer o'r canolfannau galw heibio yn rhoi cymorth gydag ysgrifennu CVs ac mewn un achos, roedd dau o'r tri buddiolwr a gyfwelwyd yn defnyddio'r ganolfan ar gyfer gweithgareddau chwilio am swydd
- Roedd un prosiect mwy wedi atgyfeirio 32 o unigolion ar gyfleoedd hyfforddiant ffurfiol (er bod hyn yn is na'r targed o 50 ac yn cymharu gyda chyfanswm nifer buddiolwyr galw heibio o 300+).

Yn gyffredinol, felly, byddai'n ymddangos fod gan ganlyniadau cadarnhaol, i'r graddau y medrant gael eu dynodi, fwy i'w wneud gyda hyder a sgiliau TGCh nag â chanlyniadau caletach. Cydnabu rhanddeiliaid canolog fod hyn yn debygol o fod yn wir ac y gall cynorthwyo dilyniant (i ddysgu ffurfiol neu gyflogaeth) yng nghyd-destun ymagwedd o'r gwaelod i fyny Cymunedau@Ei Gilydd fod weithiau'n anodd, hyd yn oed os yn ddymunol:

*"Mae enghreifftiau o ddilyniant ond gall hynny fod yn fwy er gwaethaf y system nac oherwydd yr hyn rydym wedi ei rhoi i mewn iddi, yn bennaf oherwydd ... mae gan y prosiectau bwynt ffocws sef yr hyn y maent wedi cael arian ar ei gyfer. Yr anhawster yw os oes rhywun yn cymryd rhan gyda phrosiect, yn ei fwynhau, yn symud i fyny i bwynt neilltuol, yna os ydyn nhw eisiau gwneud rhywbeth sydd tu allan i gylch gorchwyl y grŵp hwnnw, sut mae'n nhw'n symud ymlaen ... a yw'n mynd i olygu arian, cyflwyniadau i bobl, dyna'r fan lle nad oes cysylltiadau amlwg naturiol ... mae cam enfawr o gymryd rhan yn y tro cyntaf, a sylweddoli y medrwch anfon e-bost a phethau eraill ar y cyfrifiadur, i deimlo fod ganddyn nhw sgiliau digonol ... mae camau yn yr ysgol nad ydyn nhw yno ar hyn o bryd".*

*"Os ydyn nhw'n cael sgiliau a dim yn gwybod ble i fynd nesaf, yna fe fedren nhw eu cael, mynd yn ôl adref a rhoi Sky Plus ymlaen a byth fynd drwy eu drws blaen eto, lle medren nhw efallai fod wedi cael swydd neu rywbeth ... does yna ddim pwynt gwario'r holl arian yma a heb fod wedi ymuno yn y diwedd".*

Ymddengys mai cynnydd mewn hyder hefyd oedd y prif ganlyniad yn nhermau'r prosiectau hynny oedd yn cynnwys elfen o adrodd straeon digidol - er yn yr achosion hyn, ymddengys fod cymysgedd rhwng prosiectau yr ymddengys eu bod wedi ymrwymo buddiolwyr gyda thechnoleg **a hefyd** wedi cynyddu eu hyder a'r rhai oedd yn canolbwyntio ar alluogi unigolion i ddweud eu straeon heb eu hymrwymo mewn deall y dechnoleg. Mewn ymdrech i sicrhau nad oedd un prosiect sirol adrodd

straeon digidol yn colli golwg ar bwysigrwydd y prosiect wrth wella cynhwysiant digidol yn ogystal â chynhwysiant cymdeithasol, roedd y noddwr wedi datblygu ysgol ddefnyddiol iawn o *"cynhwysiant digidol drwy adrodd straeon digidol"* o 16 cam (yn graddio o wneud straeon digidol i bobl, i weithio gyda hwy ar straeon digidol i greu prosiectau mini-adrodd straeon digidol dan arweiniad gwirfoddolwyr).

Rhoddodd nifer o fuddiolwyr yn y prosiect adrodd straeon digidol hwn adroddiadau cadarnhaol iawn o'r effeithiau ar eu hunan hyder o gymryd rhan gyda'r prosiectau hyn, er bod y pwyslais yma yn tueddu i fod ar yr adrodd straeon yn hytrach na'r agweddau technegol:

"*Pan ydych chi fel fi, does gen i ddim cymwysterau, roedd ysgrifennu stori ar ben ei hun yn gryn gamp i mi - roeddwn i'n arfer cael fy ngwthio i gefn y dosbarth".*

Roedd y buddion yn llai pendant mewn achosion eraill. Credai Brocer yn siarad am un prosiect a gafodd anawsterau sylweddol (ac nad oedd mewn gwirionedd wedi ymrwymo gyda dim mwy na 10 unigolyn er dau grant prosiect yn werth cyfanswm o bron £100,000) y bu gormod o ffocws ar brosiectau adrodd straeon digidol yn gyffredinol ac na symudwyd ymlaen yn ddigonol gyda'r prosiectau adrodd straeon:

*"Y ffactor felly beth a beth sy'n digwydd nesaf ... mewn gwirionedd, fe ddylen ni fod wedi eu gwthio nhw ymlaen i bethau eraill".*

Yn olaf, roedd yn glir ar gyfer llawer o fuddiolwyr yn ein prosiectau astudiaethau achos, bod y buddion allweddol yn nhermau ansawdd bywyd. Roedd llawer o'r buddiolwyr a gyfwelwyd yn defnyddio'r cyfleusterau a gynigiwyd i gael mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ystod eang o ddibenion yn gysylltiedig â siopa, hamdden, hobïau a diddordebau, nad oedd ganddynt fel arall un ai fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi neu oedd â dim ond model deialu-fyny, a oedd yn rhy araf ar gyfer llawer o ddibenion.

Er bod llawer o'r unigolion a gyfwelwyd eisoes yn weithgar mewn sefydliadau cymunedol, mewn sawl achos roedd gan brosiectau rôl wrth atal allgau cymdeithasol ac unigrwydd yn ogystal ag atal allgau digidol. Er enghraifft, dywedodd un gwirfoddolydd oedd yn dioddef o ffobia cymunedol yn un o'r prosiectau mwy:

*"Oni bai am y lle yma fe fyddwn i ar goll".*

Sylwadau tebyg oedd:

*"Mae dod yma yn fy helpu gyda fy iselder ... oherwydd mod i wedi ymddeol ac ar ben fy hun".*

*"Dwi'n byw'n agos yma ac fe wnes alw heibio i gael rhywbeth i gael gwared â graffiti ac fe wnes i ofyn am gyrsiau cyfrifiadur .... oherwydd mod i wedi clywed eu bod nhw'n gwneud cyrsiau cyfrifiadur yma ... dwi'n newydd i'r ardal ... wel yn eitha newydd ... ac i ddechrau doeddwn i ddim yn mynd i unrhyw le ... doeddwn i ddim yn adnabod neb".*

*"Roeddwn i wedi ymddeol o'r gwaith dur ... roeddwn i'n hollol ddiflas, heb unrhyw ddiddordebau o unrhyw fath ... ac yn y diwedd roeddwn i'n mynd i'r dafarn drwy'r amser ... fe wnaeth y cyfrifiadur ddal fy nychymyg ... mae* [helpu fel tiwtor TG gwirfoddol] *yn gwneud i chi deimlo fod rhywun eich eisiau ... yn ddefnyddiol".*

3.4.3 Canlyniadau ar gyfer Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol

Yn nhermau grwpiau gwirfoddol a chymunedol eto, roedd nifer o ganlyniadau cadarnhaol ond efallai gymharol gynnil, i'w gweld drwy ein hastudiaethau achos.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau ar wedd galluogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i godi eu proffil drwy ymelwa mwy ar dechnoleg.

Fel y gwelwyd eisoes, roedd nifer o broseictau yn galluogi grwpiau cymunedol bach i ddatblygu presenoldeb ar y rhyngrwyd un ai drwy ddatblygu gwefannau, neu fel y gwelwyd uchod, drwy flogs. Er enghraifft, ystyriwyd bod gwefan ar gyfer grŵp gŵyl gymunedol a ddatblygwyd gyda chymorth prosiect astudiaeth achos yn rhoi:

*"Llawer o hygrededd wrth helpu i gael nawdd gan fusnesau lleol".*

Yn bwysig, fodd bynnag, roedd y prosiect yn ymwneud â chefnogi grwpiau i ddatblygu a deall sut i gynnal eu gwefannau yn hytrach na'i wneud drostynt. Dywedodd un arall:

*"Dwi'n fwy hyderus nawr gyda'r wefan newydd, y byddwn ni'n medru ei chynnal ein hunain. Cyn hynny, roedd ganddon ni wefan oedd â phethau hen arni a doedd neb yma'n gwybod sut i'w diweddaru".*

Mae'r prosiect hwn hefyd wedi creu gwefan etifeddiaeth sy'n cynnwys dolenni i'r holl wefannau a grëwyd gan y prosiect yn ogystal ag ystod o daclau arweiniad a gwybodaeth ar TGCh ar gyfer y sector gwirfoddol.

Roedd y prosiect hwn wedi cefnogi cyfanswm o 55 o grwpiau i ddatblygu gwefannau, tra bod prosiect arall mawr wedi gweithio gyda nifer hyd yn oed yn fwy o grwpiau i ddatblygu presenoldeb drwy flogiau yn ogystal â gwefannau (e.e. cymdeithas trigolion oedrannus, canolfan achub moch cwta a grŵp garddwriaethol).

Roedd rhai prosiectau bach hefyd wedi galluogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol i wella eu cyflwyniad allanol:

- Medrodd y clwb seryddiaeth ddefnyddio'r offer i gynnal arddangosfeydd mwy soffistigedig a diddorol i ysgolion ac ennyn brwdfrydedd disgyblion yn y pwnc.

- Roedd prosiect amgueddfa yn yr un ardal astudiaeth achos yn defnyddio gliniadur a thaflunydd a brynwyd gyda chymorth y Gronfa Grantiau i roi cyflwyniadau o fewn yr amgueddfa ac yn y gymuned, gan felly ymestyn ei *"gyrraedd"* a'i apêl. Roedd y prosiect hefyd yn defnyddio camera digidol i gofnodi digwyddiadau pwysig o fewn y gymuned - *"hanes wrth iddo ddigwydd".*

- Roedd y wefan ar gyfer y clwb pêl-droed yn galluogi'r clwb i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w gemau, a hefyd ei wneud yn fwy deniadol i noddwyr masnachol drwy gynnig hysbysebion iddynt ar y wefan.

- Roedd yr elusen canser, drwy ail brosiect, wedi cael gliniadur a thaflunydd y bwriadai eu defnyddio i roi cyflwyniadau i gyllidwyr a grwpiau eraill gyda diddordeb.

- Medrodd clwb ieuenctid ddefnyddio arian Cronfa Grantiau i brynu cymorth gan wneuthurwyr ffilm proffesiynol i wneud ffilm fer a gymerodd ran mewn cystadleuaeth ryngwladol ac sy'n awr yn cael ei dangos ar "YouTube".

- Roedd yr offer ar gyfer y grŵp canu wedi galluogi eu perfformiadau i fynd o nerth i nerth, gyda'r canlyniad eu bod wedi denu sylw Opera Genedlaethol Cymru gyda golwg ar gymryd rhan mewn prosiect cymunedol y flwyddyn nesaf.

I ryw raddau, drwy wella'r cyflwyniad allanol, bydd prosiectau o'r fath wedi gwneud y grwpiau yn fwy deniadol i aelodau newydd tra bydd rhai o'r canolfannau galw heibio (yn neilltuol efallai'r rhai ar safleoedd Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf), hefyd wedi gweld y prosiectau TGCh fel ffordd o gael *"pobl newydd drwy'r drws".* Yn gyffredinol, serch hynny, cymharol ychydig dystiolaeth a welsom o TGCh ei hunan yn cael ei ddefnyddio i wneud grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn fwy deniadol i aelodau actif newydd, efallai yn union oherwydd bod gwirfoddolwyr (aml yn hŷn) yn ofnus o dechnoleg:

*"Ni fuodd yn bwynt gwerthu pwysig er ei fod yn rhywbeth ychwanegol".*

Yn nhermau darparu cefnogaeth fwy sylfaenol i waith sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, gwelsom eisoes fod nifer o'r prosiectau mwy yn darparu cefnogaeth dechnegol i grwpiau gwirfoddol a chymunedol oedd yn eu galluogi i gynnal offer TGCh a ddefnyddid i ddarparu gweithgareddau hyfforddiant. Hyn yn wir oedd y rhesymeg graidd dros un o'r prosiectau lle'r oedd cyllido gwasanaeth cymorth technegol mewnol drwy Cymunedau@Ei Gilydd ar gyfer consortiwm o dri darparydd hyfforddiant sector gwirfoddol yn galluogi cyfleoedd datblygu parhaus mewn pum canolfan dysgu mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Fodd bynnag, cymharol ychydig o'r prosiectau yn ein sampl oedd yn uniongyrchol yn galluogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ddiogelu eu llinell waelod neu wella eu heffeithiolrwydd gweithredu. Mewn gwirionedd, dim ond i bedwar o'r 39 prosiect yr oedd hyn yn wir - dau brosiect seiliedig ar gerddoriaeth (y ddau yn yr un ardal astudiaeth achos) oedd yn galluogi'r sefydliadau i gynyddu eu refeniw drwy gynnig profiad mwy proffesiynol; y prosiect Undeb Credyd, lle bod sicrhau y medrai gwirfoddolwyr ddefnyddio TGCh, yn hytrach na systemau llafuriol, wedi cynyddu effeithiolrwydd gweithredu a'r siop elusen canser oedd yn defnyddio cyfrifiadur personol a brynwyd drwy'r Rhaglen i werthu eitemau gwerth uwch drwy e-Bay; credai rheolwr y prosiect ei fod yn darparu 25% o drosiant y siop erbyn y gwerthusiad cam olaf.

Yn arbennig ac er gwaethaf y gwaith ardderchog a wnaed gan y prosiectau yn darparu cymorth technegol i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (ac yn wir adeiladu gallu sefydliadau i gyflawni eu hanghenion eu hunain yn nhermau cynnal a chadw), ychydig o dystiolaeth a welsom fod Cymunedau@Ei Gilydd wedi datblygu darparwyr cymorth technegol seiliedig yn y gymuned a oedd yn hyfyw yn fasnachol, nod ddechreuol o'r Rhaglen yn nhermau defnydd y Gronfa Dechnegol arfaethedig. Yn hytrach, cafwyd cymorth technegol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau Cronfa Grantiau ei gyrchu drwy gyflenwyr sector preifat lleol, a thalwyd amdanynt o'r Gronfa Grantiau. Er bod hyn wedi mynd beth ffordd ymaith o'r model gwreiddiol a ragwelwyd gan y Rhaglen, medrai fod wedi bod yn well ynddo'i hun yn nhermau annog marchnad gynaliadwy ar gyfer darparwyr o'r fath hyd yn oed mewn cymunedau amddifadus, nag ariannu datblygu adnodd cyfochrog seiliedig yn y trydydd sector a fedrai fod wedi mygu'r galw am weithredwyr sector preifat.

3.4.4 Effeithiau ar Seilwaith Cymunedol

Rydym eisoes wedi tynnu sylw yn Adran 3.3.3. at rai enghreifftiau ardderchog o fewn ein hastudiaethau achos o brosiectau Cymorth Grant a oedd eu hunain wedi cefnogi'r seilwaith gwirfoddol a chymunedol ac am Froceriaid yn hwyluso rhwydweithio rhwng grwpiau gwirfoddol a chymunedol wedi'i hariannu gan y Gronfa Grantiau. Mae enghreifftiau o'r fath yn gadael etifeddiaeth o gydweithredu.

Fodd bynnag, yn ymarferol, ymddengys i Cymunedau@Ei Gilydd gael ei yrru i raddau helaeth gan y Gronfa Grantiau, gydag ymdrechion Broceriaid wedi canolbwyntio ar yn gyntaf y prosiectau Cronfa Grantiau a dderbyniwyd ac yn ail eu bod yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n dilyn fod y canlyniadau yn nhermau seilwaith cymunedol gyda mwy o *"rwydwaith"* yn weddol gyfyngedig, heblaw lle mai dyma oedd bwriad eglur prosiectau Cronfa Grantiau (a chaiff y rhain eu hystyried yn Adran 3.4.3 uchod). Yn wir, awgrymodd aelod allweddol o staff Cymunedau@Ei Gilydd na ddylai hyn mewn gwirionedd fod wedi bod yn ffocws canolog i'r prosiect gan ddadlau lle'r oedd hyn wedi digwydd y dylid ei ystyried fel budd yn deillio ohono:

*"Beth bynnag yw fersiwn cadarnhaol difrod colateral".*

3.4.5 Cynaliadwyedd Cyfleusterau/Gwasanaethau

Yn nhermau cynaliadwyedd, mae'r prosiectau yn ein hastudiaethau achos yn cyflwyno darlun gweddol gymysg, gyda nifer fras debyg (12 ym mhob un) yn debygol o fod yn hollol gynaliadwy ac yn debygol o fod yn anghynaliadwy yn absenoldeb cyllid allanol pellach ar ôl diwedd y Rhaglen a 10 arall yn gynaliadwy i ryw raddau hyd yn oed heb gyllid ychwanegol[118].

Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y gwahanol grwpiau, gyda'r proisectau hynny y credwn eu bod yn gynaliadwy yn rhai bach (heb ddim ohonynt â gwerth o fwy na £50,000 a phob un heblaw tri wedi derbyn llai na £15,000 mewn Grant) ac yn cynnwys prynu offer lle mae staff neu wirfoddolwyr wedi ennill y sgiliau i ddefnyddio'r offer yn y dyfodol a digon o adnoddau i dalu am gymorth technegol parhaus. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys:

- Y grŵp seryddiaeth oedd â'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r dechnoleg ryngweithiol erbyn diwedd y prosiect.
- Yr elusen ganser, gyda'r profiad o eBay wedi dangos ei werth.
- Y clwb pêl-droed, a fyddai'n parhau i ddefnyddio'r offer i gynnal y wefan a chynhyrchu rhaglenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd arall.
- Y grŵp canu, a oedd yn medru cynhyrchu incwm o berfformiadau i gynnal yr offer a brynwyd gan y prosiect Cronfa Grantiau.

O gymharu, y rhai y barnwn ni (ac ym mron bob achos, y rheolwyr prosiect) nad ydynt yn gynaliadwy heb gyllid grant pellach yw'r rhai mwy (saith ohonynt wedi derbyn grantiau o dros £50,000) ac oedd yn cynnwys darparu staff mentora neu

[118] Mae hyn yn eithrio pedwar "prosiect Cam 1" a gafodd eu disodli gan brosiectau Cam 2 gan yr un sefydliad ac un proisect lle nad oedd gennym ddigon o wybodaeth i ffurfio barn.

gymorth i hwyluso mynediad i TGCh. Roedd y rhain yn cynnwys dau brosiect mawr rhyng-gysylltiedig yn un o'r astudiaethau achos seiliedig ar brosiect a roddodd gymorth technegol i bum canolfan gymunedol yn darparu dysgu gydol oes a gweithwyr allgymorth i *"recriwtio"* unigolion wedi'u hallgau. Crynhodd y rheolwr prosiect mai eu sefyllfa oedd:

*"Nid yw'r sefyllfa yn ddim gwahanol i'r hyn oedd yn 2006".*

Mewn geiriau eraill, heb gyllid allanol parhaus ar gyfer cymorth technegol, ni fedrai'r canolfannau gynnal eu rhaglenni dysgu.

Yn yr un modd, roedd un arall o'r prosiectau mawr yn gobeithio cyrchu cyllid gan un ai'r olynydd i'r rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd neu o'r rhaglen Cydgyfeirio a heb hyn byddai'n rhaid iddo gwtogi'n sylweddol iawn ar ei weithgareddau tra bo'r olaf o'n hastudiaethau achos prosiect yn datblygu ei gais ei hun i'r Gronfa Cydgyfeirio.

Yn baradocsaidd, mae'r diffyg cynaliadwyedd i ryw raddau mewn cyfrannedd gwrthdro i'r graddau y datblygwyd y prosiectau yn unol ag athroniaeth y Rhaglen, gan gynnwys cyllid refeniw staff (un ai ar gyflog, contractau tymor sefydlog neu ar sail sesiwn) ac yn osgoi pwyslais ar "offer", gan nad oes unrhyw debygrwydd y bydd mwyafrif y swyddi hyn yn dod i ariannu eu hunain. Roedd nifer o randdeiliaid canolog yn cydnabod hyn:

*"Os ydych eisiau helpu rhai o'r grwpiau hyn gyda dysgu, rydych chi bob amser yn mynd i fod angen cyllid: dydyn nhw ddim mewn sefyllfa i dalu amdano".*

Adeg cam olaf ein gwaith maes, nid oedd dim o'n prosiectau hyd yma wedi cychwyn codi tâl ar gleientiaid craidd am wasanaethau, hyd yn oed (mewn un neu ddau achos) y rhagwelwyd hyn yn y ceisiadau, felly hyd yn oed lle nad oedd staff yn cael eu hariannu o'r Rhaglen, gall fod materion yn nhermau talu am gostau rhedeg megis mynediad i'r rhyngrwyd, nwyddau traul ac yswiriant (a fu'n gur pen mawr i nifer o brosiectau).

Wrth gwrs, mewn egwyddor, ni ddylai'n rhaid i lawer o'r prosiectau barhau am byth: medrid dadlau mai'r nod mewn llawer o achosion oedd ysgogi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mynediad i TGCh a'r sgiliau i'w defnyddio ar ran y rhai nad ydynt ganddynt ar hyn o bryd ac, unwaith y taniwyd y fflamau, i encilio, gan adael i'r farchnad ddarparu'r offer ar gyfer ymrwymiad parhaus. Fodd bynnag, cydnabu llawer o randdeiliaid fod y sefyllfa hon ymhell o gael ei gwireddu:

*"Medrech fod â phrosiect Cymunedau@Ei Gilydd am y 10 mlynedd nesaf a dal i fethu cyrraedd pawb y dylech".*

I ryw raddau, mae rhai prosiectau, yn neilltuol rai'n ymwneud â darparu cymorth technegol i grwpiau cymunedol a gwirfoddol, wedi canolbwyntio ar feithrin gallu, ar alluogi'r grwpiau i ddarparu eu cymorth eu hunain yn y tymor hwy, ond roedd hyd yn oed y prosiectau hyn yn credu (yn hollol iawn yn ein barn ni) nad oeddent wedi cyrraedd sefyllfa lle'r oedd yr anghenion tymor byr ar gyfer cymorth a hyfforddiant wedi eu cyflawni erbyn diwedd y Rhaglen.

Yn olaf, yn nhermau mentrau cymdeithasol, er bod llawer o randdeiliaid canolog yn dadlau na fwriadwyd erioed i hyn fod yn ffocws pwysig i'r rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd, roedd staff a rhanddeiliaid eraill yn frwd i bwysleisio mai dyma'r cyfeiriad y

dylai unrhyw raglen olynol ei gymryd. Yn wir, dywedodd y Tîm Canolog eu bod wedi dynodi mwy na 40 prosiect oedd â'r gallu i gynhyrchu incwm.

Fodd bynnag, er bod gan lawer o'r sefydliadau a fanteisiodd o'r prosiectau Cronfa Grantiau yn ein hastudiaethau achos rai elfennau o weithgaredd menter gymdeithasol o fewn eu portffolio ehangach, ychydig oedd yn gweld unrhyw debygrwydd yn y tymor byr o gynhyrchu refeniw sylweddol o'r gweithgareddau a oedd hyd yma wedi eu hariannu gyda chefnogaeth Cymunedau@Ei Gilydd oherwydd bod y rhain yn gyffredinol wedi cael eu darparu yn rhad ac am ddim.

Yn wir, i rai o'r buddiolwyr, y ffaith fod y gwasanaethau ar gael gan Cymunedau@Ei Gilydd (p'un ai yn nhermau mynediad i'r rhyngrwyd, deunyddiau neu gymorth technegol) yn rhad ac am ddim oedd wedi'u gwneud yn ddeniadol: roedd y buddiolwyr hyn (gan bennaf) yn glir na fedrent fforddio (neu o leiaf y byddent yn amharod) i dalu amdanynt.

Roedd hyn yn sicr yn wir gyda'r gwasanaeth gofal a thrwsio oedd yn rhannau cyfannol o ddau o'r prosiectau mawr a ystyriwyd uchod, er yn un o'r prosiectau hyn (a dderbyniodd grant o fwy na £200,000 dros gyfnod o ddwy flynedd) roedd y prosiect yn cynhyrchu tua £10,000 y flwyddyn mewn incwm a chredai'r rheolwr y medrai fod yn hyfyw i dalu am 50% o'r costau craidd o fewn tair i bum mlynedd (er y byddai rhan o hyn yn dod o ailgodi costau am gymorth technegol i rannau eraill y sefydliad oedd yn rhedeg y prosiect).

Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, roedd mentrau cymdeithasol eisoes wedi dod i'r amlwg o'r prosiectau. Roedd hyn yn wir er enghraifft am brosiect adrodd straeon digidol sirol (wedi'i leoli'n wreiddiol o fewn awdurdod lleol) sydd yn awr wedi ei sefydlu ar sail annibynnol: fodd bynnag, adeg y gwaith maes cam olaf, roeddent yn chwilio am grantiau (er enghraifft gan Gyngor Celfyddydau Cymru) i dalu am gostau craidd y sefydliad newydd oherwydd nad oeddent yn ystyried fod y busnes yn hyfyw heb gymorth o'r fath.

Cafodd pryderon fod y rhagolygon ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol o fusnes craidd Cymunedau@Ei Gilydd eu lleisio gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd:

*"Rwy'n gofyn i fi hunan faint ohonyn nhw* [grwpiau a ariennir] *sy'n wirioneddol yn deall beth mae menter gymdeithasol yn ei olygu, yn hytrach na chynhyrchu incwm".*

*"Rydyn ni'n gwybod y byddant yn dal i gael eu harwain gan gyllid i ryw raddau, er y medren nhw fod mewn lle gwahanol mewn 10 mlynedd ... rydyn ni wedi ysgogi llawer o feddwl am gynaliadwyedd ond, o oherwydd yr amserlen fer, dydych chi ddim yn mynd i gyflawni unrhyw wyrthiau mewn gwirionedd, ond os ail gam yn dod, fe hoffwn i feddwl y medrwn adeiladu elfen o gynaliadwyedd i'r rhaglen".*

### *3.5 Dylanwad*

Dywedwyd yn ein hadroddiad yn 2007 ei bod yn debygol y byddai'n amhosibl, hyd yn oed yn y gwerthusiad terfynol hwn, i feintioli dylanwad y rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd oherwydd natur amrywiol iawn y prosiectau a gafodd gyllid, anhawster cael data cronnus ystyrlon a dylanwad cryf iawn ffactorau allanol (yn cynnwys rhyngberthynas gwahanol brosiectau Cymunedau@Ei Gilydd). Gan fod dylanwad yn cynrychioli'r canlyniadau net, unwaith fo pwysau marw (mewn geiriau eraill, ganlyniadau a fyddai wedi eu cyflawni hyd yn oed yn absenoldeb yr ymyriad polisi

dan sylw) a dadleoli wedi eu tynnu ymaith, mae absenoldeb data cadarn yng nghyswllt canlyniadau (sydd i raddau yn ganlyniad natur Cymuendau@Ei Gilydd, gan ei fod wedi ei ganolbwyntio ar Gronfa Grantiau gymunedol fechan, gwaelod i fyny) yn golygu ei bod yn amhosibl dod i gasgliad cadarn am ddylanwad y Rhaglen. Ymhellach, gyda'r Rhaglen yn dal i ddirwyn i ben, mae'n rhy gynnar ystyried dylanwad tymor hir, hyd yn oed os yw'r dull monitro (er enghraifft dilyn i fyny i'r hyn a ddigwyddodd i fuddiolwyr yn nhermau unrhyw fath o ddilyniant) ar gael.

Fodd bynnag, wrth ystyried yn ei dro y canlyniadau posibl y gwnaeth ein fframwaith monitro a gwerthuso ddynodi bod y Rhaglen yn anelu i'w cyflawni, medrwn ddod i rai casgliadau bras.

Yn gyntaf, yn nhermau'r agenda polisi, mae'n glir y bu Cymunedau@ei Gilydd yn ganolog i bolisi Cymru ar gynhwysiant digidol ac wedi helpu i fod yn sylfaen iddo, os nad ei yrru. Cafodd hefyd effaith ar syniadaeth mewn mannau eraill, ac wedi bod yn esiampl i'r Comisiwn Ewropeaidd o gynllun cynhwysiant digidol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Yn ail, mae'n glir fod prosiectau Cronfa Grantiau wedi galluogi sefydliadau i ymestyn allan ac ymrwymo niferoedd eithaf mawr yn aml o unigolion mewn gweithgareddau seiliedig ar TGCh, gyda'r potensial o leiaf o gynyddu eu sgiliau a'u hyder.

Mae ein dadansoddiad o'r ffordd y cafodd prosiectau eu datblygu (Adran 3.2.2) yn awgrymu yn y nifer fwyaf o achosion, fod prosiectau'n annhebygol o fod wedi cael eu datblygu oni bai am fodolaeth y rhaglen Cymunedau@Ei Gilydd: dim ond chwarter o'r prosiectau - deg i gyd - oedd yn "brosiectau oedd yn bodoli eisoes" oedd yn barod yn chwilio am gyllid cyn y Rhaglen a chredwn y byddai rhai o'r fwyaf o'r rhain wedi bod yn annhebyg o ddynodi ffynonellau eraill o gyllid. Ymddengys y cadarnheir hyn gan y dystiolaeth gyfyngedig iawn o ardaloedd ein grwpiau rheoli sy'n awgrymu i gymunedau amddifadus heb fynediad i'r Rhaglen ei chael yn anodd datblygu a chael cyllid ar gyfer prosiectau o fath cynhwysiant digidol.

Gyda'i gilydd, credwn ei bod yn debygol fod graddfa cymharol uchel o ychwaneged lefel prosiect, mewn geiriau eraill, ni fyddai llawer o'r prosiectau Cronfa Grant hyn wedi bodoli o gwbl onibai am y Rhaglen.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ystyried p'un ai a fyddai ffordd eraill wedi bod ar gyfer yr unigolion a grwpiau cymunedol a gafodd fudd o'r prosiectau Cronfa Grant i gyflawni'r un canlyniadau, hyd yn oed yn absenoldeb y prosiectau hynny ("ychwanegedd lefel buddiolwr").

Yma mae'n anos i ddod i gasgliadau pendant. Yn nhermau'r dystiolaeth gan ein buddiolwyr, roedd gan y rhan fwyaf, fel y gwelsom, fynediad i gyfrifiadur personol er nid o reidrwydd i gysylltiad rhyngrwyd yn eu cartrefi - hyd yn oed os oedd llawer ohonynt yn brin o'r sgiliau neu'r hyder i'w defnyddio.

Ar y cyfan, amcangyfrifwn y medrai ychydig dan chwarter y nifer fechan o fuddiolwyr y gwnaethom eu cyfweld fod wedi canfod ffyrdd eraill o gael mynediad i TGCh neu'r cymorth gyda TGCh a gawsant gan Cymunedau@Ei Gilydd drwy ddulliau eraill. Yn gyffredinol roedd hyn oherwydd:

- Roedd unigolion yn gwybod am gyfleusterau tebyg ar gael mewn mannau arall lle medrent ddefnyddio (ac mewn rhai achosion wedi gwneud hynny) ond

roedd yn well ganddynt yr amgylchedd a gynigiwyd gan y prosiect Cymunedau@Ei Gilydd yn nhermau lleoliad neu naws neu oherwydd ei fod yn uniongyrchol berthnasol i weithgaredd arall: er enghraifft, dau gyfaill mentor mewn prosiect galw heibio, un ohonynt gyda chyfrifiadur personol gyda chysylltiad band eang gartref, ond oedd yn well ganddo wneud gweithgareddau chwilio am swydd yn y ganolfan er mwyn cael cwmni, aelod o eglwys gydag ystafell TG wedi'i darparu gan Cymunedau@Ei Gilydd a oedd wedi gwneud peth hyfforddiant ond oedd wedi defnyddio cyfrifiaduron yn ei gwaith am 15 mlynedd ac oedd yn hyddysg mewn TG; neu wirfoddolydd yn yr elusen ganser oedd eisoes wedi mynychu cyrsiau TGCh learndirect a oedd ganddi gyfrifiadur personol yn ei chartref.

- Medrai unigolion fod wedi talu am y gwasanaeth a ddarparwyd o ffynhonnell arall, er enghraifft nifer fechan o fuddiolwyr y gwasanaethau gofal a thrwsio neu ddau ddefnyddiwr canolfan galw heibio mewn canolfan gymunedol leol, oedd yn well ganddynt ddefnyddio'r cyfrifiadur personol yno na'r rhai yn y llyfrgell oherwydd eu bod yn medru argraffu deunyddiau am ddim (er bod yn well ganddynt hefyd naws y ganolfan gymunedol).

- Unigolion oedd yn cael mynediad i offer ar gyfer dibenion yr oeddent eisoes yn eu defnyddio offer TGCh mewn mannau eraill ar eu cyfer, er enghraifft aelodau'r grŵp ieuenctid oedd wedi cyrchu gliniaduron a ddarparwyd gan y Gronfa Grantiau yn eu grŵp nos Lun, ond oedd bob un ohonynt â mynediad i'w cyfrifiaduron personol eu hunain yn eu cartrefi ac yn yr ysgol gan eu defnyddio ar gyfer cymwysiadau tebyg.

Hyd yn oed ar ôl caniatáu am y mathau hyn o "bwysau marw", fodd bynnag, mae'n glir na fyddai mwyafrif helaeth y buddiolwyr (tua thri chwarter) wedi manteisio o gyfleusterau a gwasanaethau tebyg yn absenoldeb y prosiectau Cronfa Grantiau a roedd llawer ohonynt, fel y gwelsom yn hael eu canmoliaeth am effeithiau cadarnhaol cyfranogiad ar eu sgiliau a'u hyder ac yn ei dro ar eu hansawdd bywyd. Mae hyn yn cynrychioli dylanwad gwirioneddol ar gyfer Cymunedau@Ei Gilydd ac, fel y dadleuodd un o'n rhanddeiliaid canolog:

*"Dim ond man cychwyn yw cynhwysiant digidol, gall arwain at bob math o fuddion a manteision posibl".*

Ar yr un pryd, fel y nodwyd yn ein hadroddiad 2007, roedd tueddiad mewn nifer o'r prosiectau o fewn ein sampl (yn neilltuol y rhai llai) i'r cyfleusterau/prosiectau ganolbwyntio ar ystod cymharol gyfyngedig o unigolion oedd eisoes yn brysur o fewn sefydliadau oedd yn derbyn grant. Mewn rhai achosion, dyma fwriad eglur y Grant ond mewn eraill (megis y prosiect eglwysig y cyfeirir ato uchod, neu brosiect adrodd straeon digidol lle mai aelodau pwyllgor rheoli canolfan gymunedol - ei hunan yn derbyn cyllid Cymunedau@Ei Gilydd - oedd wedi cymryd rhan) roedd hyn yn llai amlwg yn fwriad. Er bod y rhan fwyaf o'r unigolion dan sylw eu hunain wedi eu *"hallgau'n ddigidol",* a gyda lefelau isel o addysg ffurfiol, nid oeddent ar y cyrion yn gymdeithasol. Mewn modd tebyg, dywedodd nifer o brosiectau nad oeddent wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r adnoddau a brynwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd oherwydd eu bod yn ofni galw gormodol. Cafodd y farn hon hefyd ei hadlewyrchu gan un o'r Broceriaid a ddadleuodd bod y prosiectau bach yn gyffredinol wedi gweithio gyda'u haelodau presennol, a oedd drwy ddiffiniad y rhai oedd wedi eu hallgau'n fwyaf yn *gymdeithasol:*

*"Pe bydden ni'n cael sgôr o 10 am gynhwysiant digidol, fe fydden ni'n cael 5 ar gynhwysiant cymdeithasol"*

a gan nifer o'r rhanddeiliaid canolog:

*"Rhai gyda phroblemau iechyd meddwl neu ar y gêm, yn ddigartref neu beth bynnag... dwi ddim yn meddwl mod i'n medru gweld llawer o dystiolaeth cyrraedd ychydig ymhellach i grwpiau fel hynny, mae'n debyg ei fod y mwyaf cymdeithasol yn dderbyniol o fewn grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. ... pe byddech chi'n mynd ychydig bach ymhellach, mi fyddai'r lefelau buddsoddiad yn wahanol eto ... dwi'n meddwl y medrid gwneud hynny ond byddai'n ymagwedd lawer iawn mwy dwys".*

*"Mae Cymunedau@Ei Gilydd wedi galluogi'r rhai egniol, dosbarth canol yr amddifadus, i wneud rhywbeth. Mewn unrhyw gymuned, mi fydd yna ychydig o bobl sy'n edrych am gyfle a dwi'n meddwl fod y bobl hynny wedi gweld hyn fel cyfle ac wedi'i gymryd ... dwi ddim yn meddwl ein bod ni wedi cyrraedd y gwirioneddol amddifadus, er bydd rhai o'r proisectau cyffwrdd ynddynt".*

I'r graddau hyn, efallai mai dim ond yn rhannol y gwireddwyd y dyhead i'r Rhaglen gael effaith yn nhermau clymu sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn fwy cadarn byth i'w cymunedau.

Yn nhermau'r dylanwad caletach, yn gysylltiedig â dysgu, cyflogadwyedd a chyflogaeth, fel y gwelsom yn ein hystyriaeth o ganlyniadau, mae'n debyg y bu'r rhain yn gynnil. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu demograffeg buddiolwyr ond hefyd y ffaith fod ffocws y Rhaglen yn ei chyfanrwydd yn fwy ar hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a digidol na'r canlyniadau caletach hyn.

Yn nhermau'r effaith ar sefydliadau gwirfoddol a chymunedol eu hunain, nid oes fawr o amheuaeth y cafodd bodolaeth y Rhaglen ac yn neilltuol y Gronfa Grantiau ddylanwad sylweddol yn nhermau codi ymwybyddiaeth am fater cynhwysiant digidol ac wrth integreiddio hyn i feddwl sefydliadau o'r fath mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Ar yr un pryd, mae'n llai clir y cafodd y Rhaglen gymaint o ddylanwad ag y medrid bod wedi'i ddisgwyl yn nhermau lledaenu arfer da, neu ddatblygu sector gwirfoddol a chymunedol mwy integredig o fewn ardaloedd targed, tra bod y dylanwad yn nhermau creu (yn hytrach nag agor y ffordd ar gyfer) mentrau cymdeithasol cynaliadwy hefyd yn eithaf cyfyngedig.

Yn olaf, mae'n amhosibl ar hyn o bryd i ddweud os cafodd y Rhaglen ddylanwad wrth drawsnewid agweddau nid dim ond unigolion ond cymunedau cyfan mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Os yw'r ffigurau cronnus ar gyfer buddiolwyr - ar dros 33,000 neu bron 300 fesul ardal Cymunedau yn Gyntaf - i gyd yn gywir yn nhermau unigolion, medrid disgwyl y byddai ymwybyddiaeth a defnydd TGCh yn yr ardaloedd hyn wedi newid yn amlwg ar lefel pob cymuned. Fodd bynnag, heb naill ai'r data hydredol ar ymrwymiad (megis y cynnydd yn y mynediad i TGCh a/neu gysylltiadau rhyngrwyd mewn cartrefi yn wardiau Cymunedau yn Gyntaf o gymharu â phob ward) neu arolygon agwedd seiliedig ar aelwydydd, nad oedd adnoddau i gynnal y naill na'r llall ohonynt o fewn y gwerthusiad hwn, mae'n amhosibl gwirio os y digwyddodd hynny. Fodd bynnag, credai'r rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd ei bod yn rhy gynnar i ddisgwyl trawsnewid ar lefel y gymuned:

*"Rydym yn siarad am ddwsinau, nid cannoedd yn yr ardal hon ... yn ystyried lle'r ydych a'r bobl yr ydych yn delio gyda hwy, roedd dwsinau yn ganlyniad da".*

*"Pe byddwn i'n edrych ar wasgariad prosiectau, mae'n debyg mai dim ond 1 neu 1 ¼ prosiect yr ardal ydyw. Dwi'n meddwl yn realistig pe byddech yn edrych arno i gael effaith sylweddol ar lefel y gymuned y byddai'n rhaid i chi bron lethu ardal ... ar ddiwedd y dydd, mae'n botiau bach o arian".*

*"Os medrwch greu cnewyllyn bach o bobl ym mhob cymuned sy'n frwdfrydig am dechnoleg gwybodaeth, bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth ... o'r safbwynt hwnnw mae wedi gweithio'n eitha da."*

## 4.0 Casgliadau ac Argymhellion

Nid oes fawr o amheuaeth fod Cymunedau@Ei Gilydd mewn llawer modd wedi llwyddo mewn ffordd nad oedd fawr neb yn ei ddisgwyl ar y dechrau, sy'n hynod o ystyried yr amserlen cymharol fer y bu'n gweithredu.

Mae'r Rhaglen wedi llwyddo i ddatblygu Cronfa Grant wedi'u hwyluso, yn seiliedig o amgylch model Brocer newydd, sydd wedi dod â mwy na 200 prosiect rhagddynt, y mwyafrif llethol ohonynt wedi eu harwain gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac sydd wedi llwyddo dosbarthu mwy na £7 miliwn heb symud ymaith o'r pwyslais gwreiddiol ar gefnogi prosiectau bach. Er bod gan grwpiau a ariannwyd beth beirniadaeth o'r hyn a dybient oedd yn fiwrocratiaeth yn gysylltiedig â'r Rhaglen (yn neilltuol yn nhermau'r prosesau ariannol), roedd y rhan fwyaf yn werthfawrogol iawn o rôl y Broceriaid gan deimlo fod hyn yn fodel ar gyfer cyllidwyr eraill.

Mae llawer o'r prosiectau a gyllidwyd gan y Gronfa Grant wedi cynnig cyfleoedd newydd yn nhermau mynediad i TGCh ac i'r sgiliau a'r hyder i'w ddefnyddio i unigolion nad oeddent fel arall wedi cael fawr o gysylltiad gyda thechnoleg o'r fath. Mae'r dystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael i ni yn awgrymu lefel cymharol uchel o ychwanegedd yn nhermau dod â phrosiectau Cronfa Grant rhagddynt a buddiolwyr unigol yn cynyddu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth a fyddai fel arall wedi cael trafferthion i wneud hynny. Os oes gan ffocws cryf ar bobl hŷn, yr ymddengys iddo fod yn nodwedd o lawer o broseictau, oblygiadau yn nhermau cyfyngu effaith posibl y Rhaglen o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag anweithgaredd economaidd, mae'n clymu mewn gyda'r dystiolaeth gref mai pobl hŷn sydd debycaf o fod wedi eu hallgau'n ddigidol ac, fel canlyniad, yn debygol o ddioddef yn nhermau mynediad i wasanaethau a gostyngiad yn eu hansawdd bywyd.

Ymhellach, mae'r Rhaglen wedi llwyddo i hyrwyddo ymwybyddiaeth a diddordeb ym mater cynhwysiant digidol ar lefel polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru - er (hyd yma) gyda dim ond ymdreiddiad cyfyngedig yn nhermau addysg a sgiliau.

Ar yr un pryd, ymddengys yn glir fod yr ymdrech enfawr a aeth i wneud i'r Gronfa Grant weithio efallai wedi gostwng effeithlonrwydd y Rhaglen mewn rhai ffyrdd eraill. Yn neilltuol, cafodd y Broceriaid lai o amser i weithio gyda rhanddeiliaid lleol eraill i gynyddu eu hymrwymiad gyda gweithgareddau cynhwysiant digidol a llai o amser i helpu cryfhau rhwydweithio'r sector gwirfoddol a chymunedol o fewn ardaloedd targed, gan eithrio cydweithio'n llifo'n uniongyrchol iawn allan o weithgaredd Cronfa Grantiau. Bu weithiau dueddiad i wneud pethau *ar gyfer* Grwpiau a ariannir (nid yn lleiaf yn nhermau ymdopi gyda disgyblaethau cyllid allanol) yn hytrach nau galluogi i ennill y sgiliau i'w wneud eu hunain. Mae'n debyg nad yw cynnydd wrth ddal a lledaenu arfer da a dysgu o brosiectau Cronfa Grant gymaint ag y medrid bod wedi disgwyl.

Ymhellach - ac yn ganlyniad anochel gweithio o'r gwaelod i fyny - bu amrywiaeth eang o wahanol brofiadau mewn gwahanol ardaloedd, gyda'n hardaloedd astudiaeth achos yn awgrymu y gall y Rhaglen mewn gwirionedd fod wedi cyfnerthu'r bwlch rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf oedd â sector gwirfoddol a chymunedol egniol ac ymrwymedig ag ardaloedd gyda seilwaith gwirfoddol a chymunedol cyfyngedig. Gall amserlen gyfyngedig y Rhaglen hefyd fod wedi golygu nad oedd gan rai brosiectau ddigon o amser i ymsefydlu eu hunain mewn gwirionedd. Mae hefyd dystiolaeth o ddiffyg ffocws ar lwybrau dilyniant ar gyfer unigolion sydd eisiau symud

ymlaen tu hwnt i'r *"blasu"* y medrent fod wedi ei gael o ymrwymiad gyda phrosiect Cronfa Grantiau.

Yn olaf, oherwydd y ffordd y trefnwyd y Rhaglen, mae diffyg data ystyrlon i ddangos llwyddiannau'r Rhaglen.

Ar ddechrau'r broses werthuso, bwriedid i'r cam olaf hwn asesu i ba raddau y bu Cymunedau@Ei Gilydd yn *"llwyddiannus wrth gyflawni'r nod a roddwyd".* Ym ymarferol, fel y dangosodd y fframwaith monitro a gwerthuso, roedd gan y Rhaglen ystod eang o wahanol nodau ac amcanion, a ystyriwyd gennym drwy'r adroddiad hwn.

Yn nhermau'r pedwar Amcan a nodwyd yn y Cynllun Prosiect (gweler Adran 2.2), mae'n bosibl dod i'r casgliad fod Cymunedau@Ei Gilydd:

- Wedi llwyddo'n dda iawn wrth fynd i'r afael ag amcan cymunedau sy'n defnyddio TGCh, er am resymau amserlen ac athroniaeth (yn nhermau gweithio gyda'r sector gwirfoddol a chymunedol oedd yn bodoli eisoes), byddai'n or-ddweud i hawlio fod hyn wedi llwyddo i *"sicrhau fod darpariaeth TGCh addas ar gael ym mhob rhan o ardal y prosiect".*
- Hefyd wedi llwyddo'n dda i ddarparu gwybodaeth genedlaethol a lleol a strwythurau cefnogi, yn neilltuol drwy rôl y Broceriaid, gyda'r cafeat y medrir gwneud mwy o hyd i amlygu a rhannu arfer da.
- Wedi gwneud cynnydd yn nhermau symud ymlaen tuag at sector cymunedol sy'n defnyddio TGCh, er yn anochel mae'r effaith ar sefydliadau gwirfoddol a chymunedol wedi amrywio'n sylweddol ac i ryw raddau gall fod rywfaint yn fwy cyfyngedig nag a ddisgwylid. Mae'n debyg mai dim ond i raddau gweddol gyfyngedig y cyflawnwyd y bwriad i *"alluogi sefydliadau lleol i ymrwymo arbenigwyr lleol ar TGCh i gefnogi eu gwaith ac felly greu swyddi newydd mewn technoleg uchel mewn busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol"*.
- Heb wneud unrhyw gynnydd gwirioneddol yn nhermau cefnogi cyflenwi gwasanaethau yn well, ar wahân fel isgynnyrch wrth helpu unigolion i gyrchu gwybodaeth ar-lein yn fwy cyffredinol: fodd bynnag, dadleuodd rhanddeiliaid allweddol na fu hyn erioed yn nod ganolog yn ymarferol.

Yn nhermau'r Egwyddorion Sylfaenol (gweler Adran 2.2) medrwn ddod i'r casgliad fod Cymunedau@Ei Gilydd wedi:

- Llwyddo i raddau helaeth, o gofio am faint yr adnoddau oedd ar gael wrth ddod â darpariaeth newydd i ardaloedd lle nad oedd yn bodoli yn flaenorol.
- Llwyddo'n dda i gefnogi ymestyn darpariaeth bresennol, er efallai na fu'r ffocws ar y *"grwpiau sydd wedi'u hymylu fwyaf"* bob amser yn bosibl.
- Gwneud peth cynnydd - yn sicr yng nghyd-destun prosiectau Cronfa Grant - yn nhermau sicrhau *"y gwneir cysywllt rhwng gweithgareddau TGCh sydd eisoes yn eu lle fel y medrant .. fanteisio o weithio a dysgu gyda'i gilydd"*
- Wedi llwyddo mewn dynodi blaenoriaethau drwy weithio gyda grwpiau cymunedol lleol.

Fel gwerthusiad crynodol, ni fyddem fel arfer yn disgwyl cyflwyno nifer sylweddol o argymhellion. Fodd bynnag, gwyddom fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu rhaglen i olynu Cymunedau@Ei Gilydd, rhywbeth y credwn mae cyfiawnhad da drosto gan y dystiolaeth a welsom. Rydym felly'n gwneud cyfres o argymhellion yng nghyswllt y Rhaglen bosibl hon ar gyfer y dyfodol, ar ôl yn gyntaf drafod nifer o

argymhellion tymor-byr ar gyfer ychydig osaf y Rhaglen (Argymhellion 1 a 2) a rhai argymhellion ar gyfer camau gweithredu p'un ai a gaiff rhaglen olynol ei hariannu ai peidio (Argymhellion 3 - 5). Nid ydym wedi gwneud argymhelliad yn nhermau p'un ai a ddylai Rhaglen yn y dyfodol gael ei thargedu ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (neu Gymunedau yn Nesaf) gan y credwn fod y dadleuon yma yn gytbwys iawn, a bydd yn dibynnu ar faint o adnoddau sydd ar gael.

**Argymhelliad 1**: Yng ngweddill oes y Rhaglen, mae'n bwysig parhau i adeiladu ar archif cynhwysfawr a fydd yn galluogi grwpiau â diddordeb i ddefnyddio arfer da a ddatblygwyd drwy Cymunedau@Ei Gilydd. Dylai hyn gynnwys cwblhau gwaith ar yr astudiaethau achos a sicrhau eu bod ar gael ar y wefan a chreu archif o gynnwys (megis straeon digidol) a gynhyrchwyd gyda chymorth y Rhaglen.

**Argymhelliad 2:** Mae angen ystyried sut y medrir ymgysylltu â'r grwpiau hynny nad ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau rhwydweithio gan ddefnyddio unrhyw adnoddau dros ben. Medrai hyn gynnwys cynnal digwyddiadau graddfa fach, ond lleol iawn tuag at ddiwedd y flwyddyn, er ei bod yn amlwg y bydd angen i'r rhain adeiladu ar, ac nid torri ar draws, y gwaith a wnaethpwyd eisoes yng nghyd-destun etifeddiaeth ddigidol.

**Argymhelliad 3**: Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau fod datganiad clir o bolisi cynhwysiant digidol cynhwysfawr i fod yn sylfaen i waith yn y dyfodol. Nid yw'n rhaid i hyn fod yn ddogfen swmpus neu gymhleth, fodd bynnag, a medrid ei integreiddio i fframwaith polisi arall perthnasol.

**Argymhelliad 4:** Mae angen i'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wneud ymdrechion pellach ar lefel Weinidogol ac uwch swyddogion i ymrwymo'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyda chyflenwi'r agenda cynhwysiant digidol.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sicrhau y caiff profiad y model Brocer ei ledaenu'n dda i rannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweithredu systemau grant sydd wedi'u hanelu at y sector gwirfoddol a chymunedol a dylai hefyd rannu'r profiad hwn gyda chyllidwyr eraill (megis y Gronfa Loteri Fawr).

**Argymhelliad 6:** Mae angen i unrhyw Raglen yn y dyfodol gael gorwelion amser llawer hirach (byddem yn awgrymu isafswm o bum mlynedd).

**Argymhelliad 7:** Dylai unrhyw Raglen yn y dyfodol gadw'r model Brocer y credwn sydd wedi profi ei werth, ond dylai geisio rhoi canllawiau cliriach ar waith ar i ba raddau y dylai Broceriaid gynnal tasgau ar gyfer grwpiau sy'n derbyn cymorth yn hytrach na'u cefnogi i wneud hynny. Dylai fod mwy o bwyslais ar ddarparu hyfforddiant (gorfodol) ar lefel leol iawn i grwpiau gwirfoddol a chymunedol a gynorthwyir ar fentora ac adrodd y medrid hefyd ei ddefnyddio i annog rhwydweithio.

**Argymhelliad 8:** Mae angen i unrhyw Raglen yn y dyfodol ystyried yn ofalus sut i sicrhau fod dulliau atgyfeirio (a ddarperir un ai drwy'r Rhaglen neu drwy ymrwymo gydag eraill megis Gyrfa Cymru neu learndirect) ar gyfer unigolion sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau neu weithgareddau a ariannir gan y Rhaglen ond sy'n dymuno symud ymlaen i gyfleoedd eraill na all y grŵp y maent mewn cysylltiad ag ef eu darparu.

**Argymhelliad 9:** Mae angen i unrhyw raglen yn y dyfodol ystyried yn ofalus pa rôl (os o gwbl) y bydd yn ei chwarae yn nhermau gweithio gyda darparwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu mynediad i wasanaethau cyhoeddus ar-lein, ar wahân i fel is-gynnyrch posibl ar hap i gynyddu cynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol.

**Argymhelliad 10:** Mae angen i unrhyw Raglen yn y dyfodol ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng unrhyw Gronfa Grantiau a chyllideb yr holl raglen. Credwn fod gan Gronfa Grantiau ragoriaeth yn nhermau egluro pa weithgaredd sy'n cael ei ariannu (yn neilltuol lle mae hyn wedi'i gysylltu'n glir gydag allbynnau a chanlyniadau mesuradwy) ond cytunwn gyda llawer a gyfwelwyd y bu'r Rhaglen bresennol yn anghytbwys, gan fod â risg o fuddsoddiad annigonol mewn gweithgaredd datblygu cymunedol gwirioneddol. Credwn hefyd ei bod yn hanfodol ystyried sut y medrir defnyddio cronfeydd i sicrhau nad yw ardaloedd ar eu colled lle nad oes unrhyw sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ar hyn o bryd i hyrwyddo cynhwysiant digidol,

**Argymhelliad 11:** Dylai unrhyw Gronfa Grantiau barhau i graffu'n ofalus ar gymwysiadau sydd â ffocws ar sicrhau "offer", er mwyn sicrhau mai ei gwir fwriad yw hybu cynhwysiant digidol. Dylai hyn fod yn haws mewn Rhaglen gyda gorwelion amser hirach.

**Argymhelliad 12:** Mewn unrhyw Raglen yn y dyfodol, dylai prosiectau adrodd straeon digidol gael eu hannog i ddefnyddio'r ysgol *"cynhwysiant digidol drwy adrodd straeon digidol"* i sicrhau fod pwyslais ar ymrwymo unigolion gyda thechnoleg, nid dim ond gydag adrodd eu straeon.

**Argymhelliad 13:** Mae angen i unrhyw Raglen yn y dyfodol ddyrannu mwy o adnoddau i fonitro ac mae angen iddi ddynodi nifer fechan o ddangosyddion allbwn craidd gyda diffiniadau safonol cysylltiedig y dylai pob prosiect Cronfa Grantiau neu ffrwd gweithgaredd eu dilyn (e.e. buddiolwyr, defnyddwyr newydd cyfleusterau, grwpiau cymunedol a gynorthwywyd). Dylai hyn gael ei seilio drwy ystyried enghreifftiau o arfer da a gwael mewn gosod amcanion ar ran prosiectau Cronfa Grant y Rhaglen gyfredol, yn ogystal â gwaith a wnaethpwyd ar gyfer Rhaglenni eraill perthnasol (e.e. Rhaglenni Cronfa Strwythurol perthnasol; Cymunedau yn Gyntaf).

**Argymhelliad 14:** Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol sydd wedi ei thargedu ar ardaloedd gofodol penodol gael mynediad i beth data olrhain (o leiaf mewn sampl o'r ardaloedd) am ddefnydd technolegau digidol. Os ariannir Rhaglen olynol, byddem yn awgrymu fod yr ymchwil llinell sylfaen (yn seiliedig ar sampl aelwyd graddfa fawr) yn cael ei chomisiynu mewn sampl o ardaloedd targed a fyddai'n rhoi tystiolaeth o lefel bresennol defnydd TGCh a thechnolegau digidol eraill, ac y medrid ei ailadrodd tuag at ddiwedd y Rhaglen.

**Argymhelliad 15:** Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd peidio gorfodi biwrocratiaeth ormodol ar grwpiau sy'n derbyn cyllid, mae angen i unrhyw Raglen yn y dyfodol ystyried sut y medrai olrhain yn well beth yw canlyniadau prosiectau sy'n derbyn cyllid. Dylid rhoi ystyriaeth i ariannu ymchwil hydredol gyda sampl o fuddiolwyr unigol prosiectau neu weithgareddau a dderbyniodd gyllid.


**Argymhelliad16:** Mae angen adolygu prosesau monitro a hawliadau am unrhyw Cronfa Grantiau yn y dyfodol, yn cynnwys darparu'r opsiwn o ddefnyddio system ar-lein ar gyfer ffeilio hawliadau ar gyfer y grwpiau hynny sy'n dymuno a cheisio, i'r graddau mwyaf posibl, i ostwng faint o fanylion sydd eu hangen yn nhermau categoreiddio eitemau unigol o wariant (er nid wrth roi tystiolaeth ddogfennol i


gefnogi hawliadau) ac i gynyddu'r hyblygrwydd i drosglwyddo arian rhwng gwahanol gategorïau gwariant.

**Argymhelliad 17:** Mae angen adolygu'r llwyfan TGCh a ddefnyddiwyd gan y Rhaglen a'i ailddatblygu ar gyfer unrhyw Raglen yn y dyfodol.

# ATODIAD 1

# FFRAMWAITH WERTHUSO


Dylanwad
Gwneud polisi mwy cydlynol ac effeithiol
Pobl yn datblygu sgiliau TGCh a dod yn fwy hyderus wrth ei ddefnyddio
Pobl yn gwybod am y datblygiadau technolegol diweddaraf
Pobl yn defnyddio mwy ar TGCh i gyrchu gwybodaeth
Pobl yn dod yn fwy cyflogadwy
Grwpiau targed yn teimlo mwy o gysylltiad â'u cymunedau
Pobl yn dod yn economaidd weithgar
Sefydlu mentrau cymdeithasol neu grwpiau cymunedol yn dod yn gynaliadwy
Atgynhyrchu prosiectau/ ymagweddau llwyddiannus mewn ardaloedd eraill
Gwella ansawdd bywyd
Dylanwad
Pobl yn cyrchu a defnyddio TGCh am y tro cyntaf drwy grwpiau cymunedol
Defnyddwyr presennol yn dysgu defnyddio TGCh ar lefel uwch neu mewn ffyrdd mwy amrywiol
Defnyddio cyfleusterau grwp cymunedol yn well gan ystod ehangach o bobl
Defnyddio TGCh ar gyfer ystod ehangach o ddibenion cymunedol
Defnyddwyr cyfleusterau TGCh cymunedol yn ennyn brwdfrydedd eraill yn y gymuned i ymrwymo gyda thechnolegau newydd
Darparwyr cefnogaeth dechnegol gymunedol yn dod yn fasnachol hyfyw
Canlyniad
Mwy o ddefnydd cymunedol o TGCh ar gyfer gweithgareddau craidd
Cynyddu ymrwymiad grwp cymunedol gyda grwpiau targed
Gwell ansawdd o gymorth dechnegol ar gael i grwpiau a chleientiaid cymunedol
Proffil uwch i grwpiau a chyfleusterau o fewn cymunedau
Mwy o gyfle i'r gymuned gyrchu cyfleusterau TGCh modern, cysylltiedig
Mwy o gyfleoedd dysgu anffurfiol ar gael
Allbwn
Grwpiau cymunedol yn cael caledwedd a meddalwedd TGCh newydd
Grwpiau cymunedol yn penodi staff
Grwpiau cymunedol yn derbyn cefnogaeth dechnegol
Monitro gweithredu prosiectau grwpiau cymunedol a rhoi cefnogaeth lle bo angen
Adrodd cynnydd i'r tîm canolog
Tîm canolog yn prosesu ffurflenni grant
Proses
EXTERNALITIES


Canlyniad
Dylanwad ar bolisi cynhwysiant digidol lleol a chenedlaethol
Rhanddeiliaid yn datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y gymuned
Grwpiau cymunedol â mwy o ffocws a chydlynol o ran amcanion
Grwpiau cymunedol yn gweithio gyda grwpiau a rhanddeiliaid eraill
Grwpiau cymunedol yn cyflwyno ceisiadau llwyddiannus am grant C@EG
Allbwn
Gwell dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r 'tirlun' lleol
Gwell cysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol
Dynodi arfer da
Grwpiau cymunedol yn deall y seilwaith cefnogaeth yn well
Grwpiau cymunedol yn cydnabod potensial TGCh
Datblygu syniadau prosiect newydd a phresennol
Proses
Tîm canolog yn monitro, adrodd a dylanwadu ar wneud polisi
Ymrwymiad Brocer gyda grwpiau cymunedol
Ymrwymiad Brocer gyda rhanddeiliaid lleol e.e. CGS, Cydlynwyr CG
Broceriaid yn cyfeirio grwpiau at ffynonellau addas o help
Broceriaid a thîm canolog yn rhannu arfer da gydag eraill a hyrwyddo integreiddiad
Tîm canolog yn rheoli broceriaid
Broceriaid yn rhoi adroddiadau ar gynnydd i'r tîm canolog
Tîm canolog yn rhoi adroddiad ar gynnydd i'r Grwp Ymgynghori a LlCC
Prosesu ceisiadau am grant a chefnogaeth dechnegol
Mewnbwn
Amser staff canolog C@EG
Amser brocer
Amser ac arbenigedd partneriaid
Amser grwpiau cymunedol
Adnoddau grwpiau cymunedol
Cyllid C@EG LlCC
DYFARNIAD CYN GRANT/CEFNOGAETH
Cyllid grant
Cyllid cefnogaeth dechnegol
Amser brocer
Amser tîm canolog
Amser ac arbenigedd partneriaid
Amser grwpiau cymunedol
Adnoddau grwpiau cymunedol
Cyllid C@EG Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mewnbwn
DYFARNIAD AR ÔL GRANT/CEFNOGAETH
AMSER